# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 28AIN TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 21 Tachwedd 2019)

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

### AELODAETH (19)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Aled Wyn Jones
Charles Wyn Jones
Huw Gruffydd Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Peredur Jenkins
W. Gareth Roberts
Paul John Rowlinson
Gethin Glyn Williams
Sedd Wag - Plaid Cymru

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts
John Pughe Roberts
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

## Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Hydref 2019 fel rhai cywir

**5. ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU** 9 - 26

I ystyried adroddiad Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

**6. CYNIGION ARBEDION YR ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL, ADRAN GYLLID A'R TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL I DDYGYMOD GYDA'U CYFRAN O'R BWLCH £2M POSIB YNG NGHYLLIDEB 2020/21.** 27 - 32

**Aelodau Cabinet – Cynghorwyr Nia Jeffreys ac Ioan Thomas**

I ystyried yr adroddiad

**7. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2018 - 2019 GAN YR ARCHWILWYR ALLANOL** 33 - 37

I nodi a derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2018-19

**8. STRATEGAETH ARIANNOL - CYLCH GWAITH CYLLIDEB 2020 – 2021** 38 - 41

I ystyried yr adroddiad

**9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019-20 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 42 - 52

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**10. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 53 - 91

I ystyried adroddiad Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

**11. TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDIGAETH A GWRTH LWGRWOBRWYO** 92 - 99

I ystyried adroddiad Pennaeth Cynorthwyol Cyllid (Refeniw a Risg)

**12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 100 - 120

I ystyried adroddiad y Rheolwr Archwilio

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019 - 20** 121 - 126

I ystyried adroddiad y Rheolwr Archwilio

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 17/10/19

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Huw G. Wyn Jones, Sïon Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R Medwyn Hughes, Peredur Jenkins a W Gareth Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29ain Gorffennaf a 13eg o Fedi 2019, fel rhai cywir.

**5. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/4/2019 – 4/10/19**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd Hydref 4ydd 2019. Tynnwyd sylw ar lefel sicrwydd perthnasol archwiliadau'r cynllun, gan nodi bod y canlyniadau yn galonogol gyda'r lefelau yn syrthio i'r ddau gategori uchaf sef digonol (rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach) ac uchel (gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion).

Ni dderbyniwyd sylwadau am yr archwiliadau unigol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

## 6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20. Amlygwyd bod cyfanswm o 60 archwiliad wedi eu cynnwys yn y cynllun gyda'r gwasanaeth yn anelu at gael 95% o'r archwiliadau hyn unai wedi cau neu gydag adroddiad terfynol wedi eu rhyddhau erbyn 31 Mawrth 2020. Ar y 4ydd o Hydref, nodwyd mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol oedd 16.67% (targed 20% erbyn diwedd chwarter 2) gyda 10 archwiliad unigol wedi eu rhyddhau yn derfynol.

Adroddwyd bod man addasiadau i'r cynllun gyda phedwar archwiliad wedi eu hychwanegu i'r cynllun. Er mwyn gweithredu ar hyn, ynghyd ag ystyried cefnogaeth Uwch Archwiliwr i gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gau cyfrifon 2018/19 (cyfanswm dyddiau 52), penderfynwyd blaenoriaethu archwiliadau'r cynllun ar sail risg. Daethpwyd i'r casgliad i ganslo saith archwiliad.

Mewn ymateb i gwestiwn am eglurhad o '5 Ffordd o Weithio', nododd y Rheolwr Archwilio mai trefn statudol o weithio yw'r ymadrodd, ble ceir gofyn statudol gan Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth briodol i rai egwyddorion.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gwaith archwilio a wnaed i gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, adroddwyd bod cytundeb gyda'r Parc am ddarparu 30 diwrnod o wasanaeth Archwilio Mewnol, a thalwyd ar wahân am 52 diwrnod o gefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo i baratoi Cyfrifon 2018/19 Awdurdod y Parc.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phenderfyniad i ganslo saith o'r archwiliadau, nodwyd bod y drefn yn ei chyfanrwydd a'r cynllun blynyddol wedi ei hystyried ar y cyd gyda'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg. Ategwyd nad yw'r saith archwiliad yn 'disgyn allan' o'r cynllun tymor-canol, gan fyddant yn flaenoriaeth yng nghynllun Archwilio Mewnol 2020/21.

Awgrymwyd, wrth adrodd yn y dyfodol ar gwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol, byddai'n fuddiol cael brawddeg yn nodi'r rhesymeg dros 'lithro' archwiliad er mwyn gwneud y sefyllfa yn ddealladwy.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. ASESIAD ALLANOL O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL I WIRIO CYDYMFFURFIAETH A SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS (PSIAS)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn cyflwyno canlyniadau'r asesiad allanol a gwblhawyd gan brif weithredwr Cyngor Sir Gâr. Atgoffwyd yr Aelodau bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn gofyn am asesiad allanol o'r holl wasanaethau Archwilio Mewnol o leiaf unwaith bod pum mlynedd gan adolygwr cymwysedig ac annibynnol allanol i'r sefydliad.

Adroddwyd bod 334 o ofynion arfer gorau o fewn y Safonau a bod Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n gyffredinol â 307 o'r gofynion hynny, ac yn cydymffurfio yn rhannol gyda 13 o'r gofynion eraill.

Cyfeiriwyd at y graddfeydd sydd yn dynodi 'lefel cydymffurfiaeth' gan amlygu bod 'cydymffurfio'n gyffredinol' yn golygu bod gan y weithgaredd fewnol siarter, polisïau a phrosesau y bernir eu bod yn cydymffurfio a'r safonau.

Ategodd y Rheolwr Archwilio ei bod yn croesawu canlyniad yr hunanasesiad. Nododd hefyd na fyddai adborth ffurfiol o berfformiad y Prif Archwiliwr yn cael ei gyflwyno, ond bod prosesau Cyngor Gwynedd o gynnal cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol yn rhoi cyfle i'r Aelod Cabinet adrodd ac egluro'r mesurau cyflawni a thrafod perfformiad a gwaith yr uned.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Rheolwr Archwilio a'i staff am ei gwaith clodwiw, a cytunwyd bod y canlyniad yn un i ymfalchïo ynddo.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a llongyfarch y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am ansawdd broffesiynol eu gwaith.**

## 8. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid) er gwybodaeth i'r Aelodau gael ystyried risgiau sydd yn deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb. Amlygwyd bod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet ar y 15fed o Hydref. Tynnwyd sylw at grynhoad o'r sefyllfa fesul adran a'r darlun cymysg sydd yn cael ei amlygu.

Cyfeiriwyd at yr Adran Oedolion sydd â gorwariant o £1.6m, yn deillio'n rhannol o'r methiant i gyflawni cynlluniau arbedion. Nodwyd bod y Prif Weithredwr bellach wedi galw cyfarfod gyda swyddogion perthnasol i geisio gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb. Amlygwyd bod yr Adran Plant hefyd yn dangos gorwariant o £2.9m a bod Grŵp Tasg wedi ei drefnu i fynd at wraidd gorwariant yr Adran. Nodwyd bod cynnydd o 15% o blant mewn gofal yn ystod 2018/19 ac nad oedd y sefyllfa yn unigryw i Wynedd. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Cyllid bydd y Grŵp Tasg yr Adran Plant yn adrodd ar welliannau ym mis Chwefror 2020. Nodwyd hefyd fod gorwariant o £733k yn yr Adran Priffyrdd, oherwydd problemau yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Adroddwyd bod yr Adran Amgylchedd wedi cael caniatâd i neilltuo £220k o danwariant tuag at gostau anochel (sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor) yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr.

Tynnwyd sylw at sefyllfa'r gyllideb Gorfforaethol, lle mae £2,867k o danwariant yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd, yn rhannol er mwyn lleddfu risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod gyda swyddogion perthnasol yr Adran Oedolion, nodwyd bod cyfarfod cychwynnol wedi ei gynnal a bod y swyddogion wedi derbyn y dasg o edrych ar y wybodaeth.

Mewn ymateb i sylw bod sefyllfa'r Adran Ieuenctid yn amlygu negeseuon cymysg o ystyried bod y gwasanaeth wedi ei ail fodelu mewn ymateb i raglen arbedion, ond erbyn hyn yn dangos tanwariant sylweddol, amlygwyd mai addasiadau i swyddi a gweithgareddau oedd wedi eu gweithredu. Ategwyd bod grantiau hefyd wedi eu derbyn a olygai nad oedd tanwariant yn erbyn y gyllideb craidd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Premiwm Treth Cyngor adroddwyd disgwylir casglu £2.7m eleni yn unol â'r amcangyfrif yn y gyllideb, a bod swyddogion ac Aelodau yn pwyso ar Lywodraeth Cymru am ddiweddariad ynglŷn â'r eiddo sy'n trosglwyddo'n fusnesau.

Derbyniwyd sylw bod Grŵp Tasg o Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi'i sefydlu i ystyried opsiynau ar gyfer rheoli parcio yn wyneb heriau ariannol, ond ymddengys o'r adroddiad ar gyllideb 2019/20 bod yr Adran Amgylchedd eisoes wedi llwyddo i or-gyflawni ar y targed incwm. Mewn ymateb, amlygodd yr Aelod Cabinet fod gan yr Adran Amgylchedd gynllun arbediad hanesyddol i'w gyflawni erbyn 2020/21, ac ymhellach, mewn cynlluniau

tuag at y targed £2m cyfredol, dylai'r adrannau gynnig arbedion sy'n lleihau gwariant, neu gynnig ffrwd incwm newydd, yn hytrach na chodi prisiau am wasanaethau cyfredol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**

**9. RHAGLEN CYFALAF 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid) er gwybodaeth i'r Aelodau gael ystyried risgiau sydd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf a chraffu penderfyniadau'r Cabinet. Cyfeiriwyd at y prif gasgliadau oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ynghyd â manylion y grantiau ychwanegol roedd y Cyngor wedi llwyddo i'w denu ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol. Tynnwyd sylw at y newidiadau i'r ffynonellau ariannu sydd yn golygu cynnydd £17.85m yn y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol. Amlygwyd bod £5,353k benthyca arall ychwanegol yn y tabl ariannu yn deillio o'r Cynlluniau Atal Llifogydd. Gyda'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLIL), eglurwyd fod Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun, trwy ddigolledu costau benthyca'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd yn y Grant Cefnogaeth Refeniw (GCR) blynyddol. Cadarnhawyd fod y 25% sydd i'w ariannu gan y Cyngor eisoes wedi ei glustnodi fel rhan o'r Cynllun Asedau.

Yng nghyd-destun penderfyniad diweddar Llywodraeth San Steffan i godi cyfraddau llog y 'PWLB' 1% yn uwch, sydd yn golygu bod cost benthyg yn uwch i'r awdurdodau lleol, eglurwyd gyda'r Cynllun Menter mai Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r llog. O ganlyniad, gofynnwyd y cwestiwn, os ydy'r arian rydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn adlewyrchu'r lefel llog uwch rydym yn gorfod talu i fenthyg? Cadarnhawyd bod amodau'r drefn yn galluogi'r Cyngor i hawlio mwy o gyfraniad, gan fod symudiad mwy na 0.5% yn y gyfradd, ac felly bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd.

Mewn ymateb i'r sylw bu codiad yn y gyfradd llog, nodwyd bod cyfraddau wedi disgyn yn y gorffennol ac mai dychwelyd i lefel isel oedd y codiad yn hytrach na 'rhywbeth anarferol'. Nododd y Pennaeth Cyllid bod y codiad diweddar yn annisgwyl ac er bod llogau wedi disgyn yn raddol ers 2008, mae codiad o 1% erbyn hyn yn naid eithaf sylweddol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11:00am

__________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU |
| **DYDDIAD** | 28 TACHWEDD 2019 |
| **TEITL** | ADOLYGIAD O DREFNIADAU CRAFFU |
| **AWDUR(ON)** | Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)<br>Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) |
| **PWRPAS** | Llunio argymhelliad i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod nesaf, ar fodel craffu newydd ar gyfer Mai, 2020 |

**CEFNDIR**

1. Mabwysiadodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017 y trefniadau craffu cyfredol. O dan y drefn bresennol, mae tri Phwyllgor Craffu ynghyd â rôl craffu materion corfforaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cynhelir ymchwiliadau craffu, lle mae oddeutu 5 aelod o Bwyllgor Craffu yn ymchwilio i fater penodol mewn cyfres o gyfarfodydd anffurfiol, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu gydag argymhellion er sylw Aelodau Cabinet.

2. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau craffu cyfredol oherwydd:
    - Ein bod yn derbyn sylwadau nad oedd craffu yn ychwanegu gwerth, fod ein trefniadau cyfredol yn araf yn dwyn ffrwyth a theimlad y gellid gwneud pethau yn well
    - fod hyd at 50% o eitemau'r pwyllgorau craffu yn eitemau er gwybodaeth i Aelodau'r pwyllgor craffu penodol
    - fod seddi gweigion ar nifer o'n pwyllgorau craffu (dros y misoedd diwethaf) gan fod Aelodau ddim yn awyddus i fod yn eistedd ar bwyllgor craffu
    - fod ceisio gwelliant parhaus trwy adolygu a herio ein trefniadau yn beth da, ein bod wedi addo gwneud hyn wrth i'r trefniadau newydd gael eu mabwysiadu yn Mawrth 2017 a bod cefnogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru i hynny.

3. Sefydlwyd gweithgor o aelodau a swyddogion i adolygu'r trefniadau. Aelodaeth y gweithgor oedd y Cynghorwyr Simon Glyn, Nia Jeffreys, Beth Lawton, Dyfrig Siencyn ynghyd ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dilwyn Williams (Prif Weithredwr).

4. Daeth y gweithgor i'r casgliad y dylid diffinio pwrpas craffu er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynghylch pwrpas craffu yng Ngwynedd. Nodir y diffiniad isod:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Mae'r diffiniad wedi ei selio ar arfer gorau'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus. Nid yw'n ail-ddiffinio'r gofyn statudol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, ond yn hytrach yn cadarnhau ethos Craffu yng Ngwynedd.

**LLUNIO OPSIYNAU**


5. Roedd y gweithgor o'r farn, o ystyried y materion a nodwyd yn 2 uchod, fod lle i wella ein trefniadau cyfredol, gyda'r gobaith y byddai'n arwain at wella gwasanaethau i bobl Gwynedd.

6. Wrth geisio llunio opsiynau i wella ein trefniadau craffu a sicrhau fod craffu yn ateb y pwrpas, rhoddwyd sylw i'r prif ystyriaethau a ganlyn:

- Trefniadau rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau
- Manteision ac anfanteision trefniadau craffu ffurfiol mewn pwyllgor
- Manteision ac anfanteision ymchwiliadau
- Adnoddau ac amser

7. Lluniwyd tri opswin er ystyriaeth:


- Opsiwn 1 – Tri Phwyllgor Craffu (Addasu'r trefniadau cyfredol)




Byddai'r opsiwn yma'n addasiad o'r trefniadau cyfredol gyda thri Phwyllgor Craffu o 12 aelod o gymharu â'r 18 aelod sydd yn bresennol. Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau gyda rôl craffu materion corfforaethol. Cynhelir nifer fechan o ymchwiliadau oherwydd yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi gwaith y Pwyllgorau.

Parheir gyda'r Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Fforwm Craffu ynghyd â'r trefniant o 2 aelod o Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

- Opsiwn 2 – Un Prif Bwyllgor Craffu





Byddai'r opsiwn yma'n sefydlu un Prif Bwyllgor Craffu o 12 aelod a fyddai'n craffu'r elfennau pwysicaf o waith y Weithrediaeth (Cabinet a swyddogion) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Yn ogystal â rheoli holl waith craffu'r Cyngor a chomisiynu a chydlynu cyfres o Ymchwiliadau Craffu a Grwpiau Tasg a Gorffen, a fydd yn edrych ar bynciau mewn manylder ac yn llunio argymhellion gwella a'u cynnig i'r Aelodau Cabinet perthnasol. Byddai cyfran helaeth o'r gwaith craffu yn cael ei gwblhau drwy ymchwiliadau neu grwpiau tasg a gorffen.

Byddai sesiynau anffurfiol "hawl i holi" yn cael eu cynnal er rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau tu allan i drefniadau craffu. Cynhelir hyd at 20 sesiwn y flwyddyn gyda 2 sesiwn y flwyddyn fesul Aelod Cabinet a Phennaeth Adran.

Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu, a byddai aelod o'r Prif Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

- Opsiwn 3 – Dau Bwyllgor Craffu



Byddai'r opsiwn yma'n sefydlu dau Bwyllgor Craffu gyda 10 aelod ar bob Pwyllgor. Yn yr un modd ac Opsiwn 1, byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn parhau gyda rôl craffu materion corfforaethol a chynhelir nifer fechan o ymchwiliadau oherwydd yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi gwaith y Pwyllgorau.

Byddai trefniadau i sicrhau rhannu gwybodaeth gyda'r holl Aelodau yn rhan greiddiol o'r trefniadau i gefnogi'r opsiwn yma hefyd, ond ar gyfer pynciau penodol yn unig.

Parheir gyda'r Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), cyfarfodydd cyswllt rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau'r Fforwm Craffu ynghyd â'r trefniant o 2 aelod o Bwyllgor Craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

**YMGYNGHORI**

8. Trefnwyd dwy sesiwn i gael barn yr holl Aelodau am yr opsiynau oedd wedi eu datblygu. Gofynnwyd i'r Aelodau a fu yn y gweithdai (26 mewn cyfanswm) am y manteision a'r anfanteision fesul opsiwn. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi eu cynnwys fesul opsiwn yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

9. Gofynnwyd i bob aelod a fu'n bresennol pa opsiwn roeddent yn ei ffafrio a'r rheswm pam. Yn y gweithdy cyntaf roedd mwyafrif o'r aelodau yn ffafrio Opsiwn 2 (Un Prif Bwyllgor Craffu) gyda'r mwyafrif yn yr ail weithdy yn ffafrio Opsiwn 1 (Tri Phwyllgor Craffu). Roedd rhai aelodau yn ffafrio Opsiwn 3.

10. Dyma grynodeb o resymau'r aelodau am ffafrio opsiwn penodol:

<u>Opsiwn 1</u>

- Dyma'r ffordd orau i gael y gorau i bobl Gwynedd, ond rwy'n dal i bryderu am nifer y seddi gweigion.
- Mae gan aelodau hawl i holi swyddogion eisoes felly ddim yn gweld budd mewn newid y trefniadau craffu.
- Mae'r trefniadau cyfredol yn gweithio, gwella rhywfaint ar beth sydd gennym, a dylid ystyried cael gwared o'r Fforwm Craffu.
- Mae'n rhoi grym i'r pwyllgorau craffu a rhaid i'r Aelodau Cabinet gymryd sylw. Poeni am gapasiti i gynnal ymchwiliadau gyda 12 aelod yn unig, cadw i 18.
- Mae'r opsiwn yma yn rhoi lle i fwy o Aelodau ar bwyllgor.
- Mae opsiwn 2 yn ormod fel cabinet cysgodol, ond lle i newid aelodaeth gyfredol i 15 aelod yn lle 18, a chael Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'i gilydd.
- Mae opsiwn 2 yn rhoi gormod o faich ar aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu a ddim digon o gyfle i'r holl Aelodau.

<u>Opsiwn 2</u>

- Mae angen newid y ffordd yr ydym yn craffu. Mae ymchwiliadau yn fanteisiol gan fod pawb yn cael cyfle i holi yn anffurfiol a gallu mynd dan

yr wyneb i gael gwell dealltwriaeth. Hefyd, ffordd well o flaenoriaethu'r materion cywir i'w craffu. Ond, rhaid cael ymrwymiad gan yr holl Aelodau.

- Mae'r sesiynau "hawl i holi" ar gael i bob aelod a'i fod yn gyfle i ddysgu mwy am nifer fawr o wahanol feysydd yn lle dim ond maes un pwyllgor craffu.
- Mae potensial i'r hawl i holi fod yn craffu anffurfiol, ond bo modd cyfeirio ymlaen i graffu ffurfiol.
- Mae ymchwiliadau wedi dod a mwy o werth na chraffu ffurfiol - dyma'r ffordd ymlaen.
- Rhaid sicrhau nad yw'r baich gwaith yn rhy drwm i 12 aelod.

<u>Opsiwn 3</u>

- Mae 2 bwyllgor i weld yn fwy synhwyrol, ond fod dal lle i gael rhywfaint o wybodaeth trwy'r sesiynau penodol. Nid ydym yn gallu cynnal y trefniadau cyfredol gan nad yw Aelodau yn fodlon bod yn rhan lawn.
- Hwn sy'n fy nennu ar hyn o bryd

11. Derbyniwyd sylwadau gan rhai aelodau yn y gweithdai o ran eu dymuniad i ddychwelyd i drefniadau llywodraethu blaenorol. Rhaid cofio fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu trefniadau Cabinet a Chraffu ers 2012 yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Felly, nid yw'n bosib dychwelyd i drefniadau llywodraethu blaenorol. Mae'r adolygiad craffu yn cadw o fewn gofynion cyfreithiol y Mesur.

12. Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Grŵp Rheoli Corfforaethol (Penaethiaid Adran). Nid oedd ganddynt sylwadau penodol fesul opsiwn, ond roeddent yn dymuno cyfleu'r negeseuon cyffredinol a ganlyn:

    - Mae budd i ddeialog anffurfiol rhwng Aelodau a Phenaethiaid a'u bod wedi gweld gwerth mewn trefniadau o'r fath
    - Mae lle i finiogi'r trefniadau ar gyfer adnabod a blaenoriaethu materion i gael eu craffu a bod lle i'r aelodau fod yn fwy clir o beth yn union sydd angen ei graffu a pham
    - Eu bod yn barod i weithredu o fewn unrhyw un o'r opsiynau i gyfundrefn craffu

13. Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu (cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu) ar 24 Hydref 2019, rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghori. Gwahoddwyd aelodau'r Gweithgor i'r cyfarfod er mwyn trafod y sylwadau a rhoi sylw i faterion penodol, megis meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu, rôl y Fforwm Craffu, niferoedd aelodau ar bwyllgorau a nifer cyfarfodydd fesul opsiwn.

14. Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod ar yr opsiynau, roedd y sylwadau yn amrywiol er yn tueddu at ffafrio opsiwn 1.

**YR OPSIYNAU**

15. Mae manylder yr opsiynau ynghyd â'r manteision ac anfanteision fesul opsiwn, i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd ar yr opsiynau yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r drafodaeth yng nghyfarfod y Fforwm Craffu, mae'r opsiynau wedi eu diwygio. Un prif newid yw bod nifer yr aelodau ar y pwyllgorau o dan bob opsiwn wedi cynyddu i 18.

16. Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu cytunwyd mai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a fyddai'n craffu materion yr Adran Tai ac Eiddo yn Opsiwn 1. O ganlyniad i dderbyn sylwadau yn dilyn y cyfarfod, trefnwyd trafodaeth rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i drafod pa bwyllgor ddylai graffu materion yr Adran Tai ac Eiddo yn Opsiwn 1.

17. Cyn y cyfarfod uchod, cynhaliwyd trafodaeth yn Sesiwn Anffurfiol y Pwyllgor Craffu Gofal ar 14 Tachwedd 2019. Nodwyd yn y cyfarfod farn mai'r Pwyllgor Craffu Gofal a fyddai'r lle gorau i graffu'r materion tai ac eiddo am y rhesymau a ganlyn:

    - Mae materion tai e.e. digartrefedd, plant, oedolion bregus ayyb, yn faterion sy'n effeithio ar bobl, ac felly fwy'n synhwyrol eu cynnwys o dan y maes gofal.
    - Mae gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal arbenigedd yn y maes yn barod gan mai'r Pwyllgor hwn sydd wedi bod yn craffu materion tai ers blynyddoedd.
    - Er bod materion eiddo wedi bod yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn hanesyddol, ychydig iawn o waith eiddo sydd angen ei graffu beth bynnag. Mae llawer mwy o bwyslais ar yr ochr tai.

    Roedd y Pennaeth Tai ac Eiddo yn bresennol yn y cyfarfod ac yn cefnogi'r farn uchod gyda chefnogaeth i'r safbwynt wedi ei nodi yn ogystal gan y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant.

18. Cynhaliwyd trafodaeth rhwng Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Tachwedd. Nid oedd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wrthwynebiad mewn egwyddor i'r Pwyllgor Craffu Gofal graffu materion tai ac eiddo.

19. Nid yw aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cael cyfle i drafod y mater. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 5 Rhagfyr 2019.

20. Er gwybodaeth, meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu Cymunedau o dan Opsiwn 1 byddai materion yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynllun Datblygu Lleol, Trosedd ac Anrhefn a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

21. Mae meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgorau Craffu wedi eu rhannu er ceisio sicrhau bod Aelod Cabinet yn adrodd i un Pwyllgor Craffu. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried pa bwyllgor craffu ddylai graffu materion yr Adran Tai ac Eiddo.

22. Bydd angen diwygio'r cyfansoddiad i ymgorffori unrhyw newidiadau, gyda'r modd y gwneir hyn yn ddibynnol ar ba opsiwn a fabwysiadir yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Rhagfyr 2019. Os bydd y Swyddog Monitro o'r farn eu bod yn fan newidiadau, bydd yn gwneud y newidiadau, ond pe byddai newidiadau sylweddol angen eu gwneud, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno er cymeradwyaeth i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2020.

**ADNODDAU I GEFNOGI CRAFFU**

23. Fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) rwyf wedi adnabod yr angen i gryfhau'r gefnogaeth i graffu eisoes, ac wedi bwrw ymlaen gydag ail strwythuro o fewn y Gwasanaeth er mwyn cefnogi'r elfen hon.

24. Bellach, mae cefnogaeth i'r elfen craffu gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith (cyfran o amser), Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu (hanner amser ar graffu), ac Ymgynghorydd Craffu (llawn amser). Yn ogystal, mae 3 o Swyddogion Cefnogi Busnes ar gael i arwain ar ymchwiliadau craffu.


**ARGYMHELLIAD**

25. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- ystyried yr opsiynau,
- ystyried pa bwyllgor craffu ddylai craffu materion yr Adran Tai ac Eiddo o dan Opsiwn 1, unai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau neu'r Pwyllgor Craffu Gofal,
- ystyried os oes un opsiwn yn rhagori gan wneud argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 19 Rhagfyr 2019.

## <u>ATODIAD 1</u>

**OPSIWN 1 – TRI PHWYLLGOR CRAFFU (ADDASU'R TREFNIADAU CYFREDOL)**




## <u>A – RHANNU GWYBODAETH</u>

1. <u>Ni fyddai unrhyw drefniadau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r opsiwn yma.</u> Byddai'n rhaid i Aelodau unigol wneud ymholiadau am wybodaeth eu hunain.

2. Ni fyddai trefniadau ar gyfer sesiynau ar bynciau penodol yn bodoli chwaith.

## <u>B - RÔLAU</u>

3. <u>FFORWM CRAFFU</u> - Mae rôl y Fforwm Craffu yn hanfodol, gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor yn eu Fforwm anffurfiol ac yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rôl y Fforwm Craffu fel a ganlyn:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Bydd rôl hefyd i'r Fforwm adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

4. Byddai rôl y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Craffu eitemau ffurfiol mewn cyfarfod - uchafswm o 2 – 3 eitem fesul cyfarfod.

- Bydd nifer fechan iawn o ymchwiliadau yn cael eu cynnal. Byddai'r ymchwiliadau yn dilyn yr un fformat a'r hyn a argymhellir ar gyfer Prif Bwyllgor Craffu. Gyda chyfle i aelodau eraill fod yn cymryd rhan, os nad oes nifer digonol o aelodau'r pwyllgor craffu perthnasol yn datgan diddordeb i fod yn rhan o ymchwiliad. Dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o'r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad.

- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn annibynnol i'r Aelod Cabinet ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor perthnasol.

- Bydd pob pwyllgor yn adolygu **effaith** eu gwaith craffu yn barhaus gyda'r Cadeirydd i adrodd hynny i'r Fforwm Craffu.

**C - TREFNIADAU YMARFEROL**

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau | **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** (Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) |
| | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** (Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Adran Tai ac Eiddo, Cynllun Datblygu Lleol, Trosedd ac Anrhefn, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| | **Pwyllgor Craffu Gofal** (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Iechyd) |
| | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid, Tîm Arweinyddiaeth, Gwasanaeth Cyfreithiol a Chynlluniau Corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor) |
| | |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol* |
| | Aelodau cyfetholedig ar Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 5 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |
| Adnabod materion i'w | Cadw cofrestr ar y log craffu |

| | | |
|---|---|---|
| craffu | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r pwyllgor |
| | Cyfarfodydd anffurfiol rhwng y Cadeirydd/Is-gadeirydd, Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth perthnasol |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/holl Aelodau Cabinet |

* Byddai dyraniad seddi a chadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yr un fath a'r sefyllfa gyfredol.

5. <u>Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet</u> – Mae lle hefyd i wella ein trefniadau cyflwyno argymhellion i'r Aelod Cabinet. Bydd pob eitem (boed yn ymchwiliad neu'n eitem pwyllgor) wedi sicrhau argymhellion clir ac yn nodi'r esboniad y tu ôl i'r argymhellion hynny.

   - Cyflwynir yr argymhellion hynny i'r Aelod Cabinet wedi i Aelodau'r Pwyllgor eu cymeradwyo.

   - Os oes mater wedi cael ei graffu ac yna yn cael ei gyflwyno yn eitem i'r Cabinet, bydd angen cyfeirio at argymhellion y Craffwyr yn ffurfiol fel rhan o'r adroddiad.

   - Gellir hefyd defnyddio'r hawl i gyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Cabinet neu i Aelod Cabinet gan ofyn am ymateb o fewn yr amserlen sydd wedi ei nodi yn y cyfansoddiad, os cyfyd yr angen.

## <u>Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI</u>

| **<u>MANTEISION OPSIWN 1</u>** | **<u>ANFANTEISION OPSIWN 1</u>** |
|---|---|
| • Pwyllgorau wedi dangos eu bod yn gallu bod yn effeithiol gan eu bod yn canolbwyntio ar bwnc penodol – ffocws<br>• Grymuso a miniogi'r drefn gyfredol sydd angen ei wneud (ond heb yr atebolrwydd i'r Fforwm Craffu)<br>• Nifer cyfarfodydd pwyllgor – mwy o gyfarfodydd yn digwydd yn amlach<br>• Mwy o aelodau yn gallu cymryd rhan gan fod 3 pwyllgor<br>• Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn gallu cyfarfod efo'r Aelod Cabinet a Phennaeth Adran perthnasol | • Elfen 'set piece' mewn pwyllgorau<br>• Cadw at y pwyllgorau – pawb ddim yn cael cyfle i fod yn rhan o bob maes<br>• A yw'n gynaliadwy? Aelodau ddim yn troi fyny.<br>• Llawer o waith i aelodau craffu<br>• Aelodau ddim yn teimlo'n rhan o drefniadau'r Cyngor yn gyfredol<br>• Ymchwiliadau Craffu – ddim mor sydyn a ddylent fod, ddim yn agored i holl aelodau'r Cyngor i fod yn rhan ohonynt, llai o ymchwiliadau yn cael eu cynnal<br>• Nifer fach o ymchwiliadau |

| | |
|---|---|
| • Gwaith ymchwiliadau (er niferoedd bychan) yn dod a gwell allbynnau<br>• Aelodau yn fwy tebygol o fynd ar ymchwiliadau gan eu bod yn “perthyn” i’r pwyllgor<br>• Lle i wahodd aelodau sydd ddim ar y pwyllgor craffu perthnasol i mewn i unrhyw ymchwiliad<br>• Rôl y Fforwm Craffu wedi bod yn dda<br>• Arbenigedd fesul maes i aelodau’r pwyllgor penodol<br>• Fforwm Craffu – trosolwg o faterion ar draws yr holl faterion craffu a herio naill a’r llall | • Rôl y Fforwm Craffu – ddim yn hoff o’r rôl blaenoriaethu gan y Fforwm craffu<br>• Dim cyfle “Hawl i Holi” |

**OPSIWN 2 = UN PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

**1 x PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

- Blaenoriaethu materion i'w craffu
- Ymchwiliadau
- Rhywfaint o graffu ffurfiol

18 aelod, 6 – 8 cyfarfod ffurfiol

"Hawl i Holi" - √

Ymchwiliadau - √

Aelodau unigol - √

Fforwm Craffu - X

Cyfarfodydd Craffu/ Cabinet - √

Cyfarfodydd herio perfformiad - √

**A – RHANNU GWYBODAETH**

1. Byddai'r opsiwn yma yn seiliedig ar sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth **i'r holl aelodau** y tu allan i drefniadau craffu, sesiynau anffurfiol "hawl i holi".

2. SUT?

Sesiynau "hawl i holi"

(hyd at 20 sesiwn y flwyddyn h.y. Pob Aelod Cabinet/ Pennaeth 2 waith y flwyddyn ar gyfer Opsiwn 2)

- Amgylchiadau anffurfiol – grwpiau llai
- Penaethiaid ac Aelod Cabinet i rannu gwybodaeth
- Seiliedig ar gyfarfodydd herio perfformiad
- Cyfle i aelodau godi materion a holi ymhellach i gael dealltwriaeth o ddatblygiadau mewn meysydd
- Gall fod materion yn codi o'r sesiynau i'w cyferio i'w craffu ymhellach
- Mynychu yn ddewisiol

**B - RÔLAU**

3. Argymhellir y byddai rôl y Prif Bwyllgor Craffu fel a ganlyn:

- cymryd trosolwg o'r gwaith craffu ar draws y Cyngor gan FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu ac adnabod y dull mwyaf effeithiol o graffu.

- Bydd **mwyafrif** y gwaith craffu trwy **ymchwiliadau/grwpiau tasg a gorffen**, ond rhywfaint o graffu ffurfiol hefyd.

- Craffu ffurfiol – Bydd rhywfaint o graffu ffurfiol ee eitemau i'w hadrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor lle nad oes angen ymchwiliad ond fod angen dal Aelod Cabinet i gyfrif am ddiffyg cynnydd. Byddai'r Pwyllgor hefyd angen craffu ar faterion penodol megis Trosedd ac Anrhefn, Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, GwE a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn yn annibynnol ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor.

- Byddai gan y Prif Bwyllgor Craffu rôl i adolygu **effaith** craffu yn barhaus ac i adolygu'r trefniadau i'r dyfodol.

4. Gan fod yr ymchwiliadau yn greiddiol i'r opsiwn yma, amlinellir y trefniadau isod:

**Ymchwiliadau Craffu**

- criw bach o aelodau (5 fel uchafswm – dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o'r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad)

- Un aelod o'r Prif Bwyllgor i fod ar bob ymchwiliad – yn cyd-fynd â'u maes cyfrifoldeb

- POB aelod yn gallu bod yn rhan o ymchwiliadau (byddai'n rhaid i'r Prif Bwyllgor Craffu benodi pa aelodau sy'n rhan o'r ymchwiliadau ynghyd a briff ac amserlen glir.)

- RHAID sicrhau fod pob ymchwiliad neu eitem graffu ffurfiol yn dod i gasgliad gydag
  - Argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth, a
  - Rheswm clir y tu cefn i bob argymhelliad (hynny yw'r "pam" ein bod yn argymell hyn)

- Pob ymchwiliad i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ffurfiol

- Bydd ymchwiliadau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â gofynion, nid yn ôl niferoedd.

**Grwpiau Tasg a Gorffen**

- Bydd rhai materion y gellir ymdrin â hwy trwy gyfrwng un neu ddau gyfarfod yn unig. Gelwir y rhain yn grwpiau tasg a gorffen.

## C - TREFNIADAU YMARFEROL

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y Prif Bwyllgor | Craffu'r elfennau pwysicaf o waith y Weithrediaeth (Cabinet a swyddogion) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rheoli holl waith craffu'r Cyngor a chomisiynu a chydlynu cyfres o Ymchwiliadau Craffu a Grŵpiau Tasg a Gorffen a fydd yn edrych ar bynciau mewn manylder ac yn llunio argymhellion gwella a'u cynnig i'r Aelodau Cabinet perthnasol. |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol*<br>Aelodau cyfetholedig addysg |
| | a) Byddai gan bob Aelod o'r Prif Bwyllgor gyfrifoldeb am faes penodol.<br>b) Byddai'r aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad perthnasol i'w maes cyfrifoldeb.<br>c) Byddai'r aelod(au) hynny yn arwain ar ymchwiliad yn y maes (lle'n bosib neu'n ymddwyn fel person cyswllt).<br>ch) Byddai gofyn i bob Aelod (boed yn aelod o'r Prif Bwyllgor Craffu neu beidio) fod yn rhan o ymchwiliad neu Grŵp Tasg a Gorffen. |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 6-8 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |
| Adnabod materion i'w craffu | Cadw cofrestr ar y log craffu |
| | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r Pwyllgor |
| | Sesiynau "Hawl i Holi" |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/ holl Aelodau Cabinet |

* Petai'r prif bwyllgor yn cael ei sefydlu heddiw, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yna byddai aelodaeth y Prif Bwyllgor Craffu yn debygol o fod fel a ganlyn - Grŵp Plaid Cymru (10), Grŵp Annibynnol (5), Grŵp Llais Gwynedd (2), Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd (1) ac Aelodau Unigol (0).


** Yn yr un modd, byddai Cadeiryddiaeth y pwyllgor yn cael ei ddynodi i'r Grŵp Annibynnol. Petai'r cydbwysedd gwleidyddol yn parhau'r un fath ar ôl dwy flynedd, yna byddai'r Gadeiryddiaeth yn parhau gyda'r Grŵp Annibynnol.

5. Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet – Yn yr un modd ag a nodwyd yn opsiwn 1, mae lle i dynhau'r cyswllt ffurfiol gyda'r cabinet.

**Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI**

| **MANTEISION OPSIWN 2** | **ANFANTEISION OPSIWN 2** |
|---|---|
| • **"Hawl i Holi**" ar gael i bawb<br>• Aelod Cabinet yn cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor wedi bod yn dda = tebyg i'r Hawl i Holi<br>• Hawl i Holi – torri i grwpiau bychain i aelodau gael dweud eu dweud<br>• Blaenoriaethu'r materion cywir<br>• Aelodau brwdfrydig<br>• Cyfle i aelodau ymroi i faes penodol<br>• Craffu gwell mewn criwiau bychain<br>• Ymchwiliadau – mynd i fwy o fanylder ac yn cael gwell effaith ac argymhellion (wedi gweld effaith)<br>• Clymu hefo herio perfformiad yn fuddiol<br>• Mwy o ymchwiliadau | • Cryn dipyn o waith a phwysau amser ar aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu - gwneud gwaith y Fforwm Craffu, aelodau yn arwain ar yr ymchwiliadau a gwaith ar feysydd penodol<br>• Baich ar Gadeirydd y Pwyllgor<br>• Gwaith 3 pwyllgor craffu i mewn i 1 pwyllgor craffu<br>• Llwyth Gwaith – angen arbenigedd mewn meysydd gwaith<br>• Llai o aelodau yn cymryd rhan yn y drefn craffu<br>• Aelodau eraill yn camu'n ôl<br>• Anodd cael aelodau eraill i fod yn rhan o'r ymchwiliadau craffu |

**OPSIWN 3 – DAU BWYLLGOR CRAFFU**




## A – RHANNU GWYBODAETH

1. Byddai trefniadau i sicrhau rhannu gwybodaeth gyda'r **holl Aelodau** yn rhan greiddiol o'r trefniadau i gefnogi'r opsiwn yma hefyd, ond ar gyfer PYNCIAU arbennig yn unig.

2. SUT?

   Byddai'r sesiynau rhannu gwybodaeth yn digwydd ar gyfer pynciau penodol yn unig yn yr opsiwn yma e.e. sesiynau TWF, ymwybyddiaeth o ddatblygiadau ym maes Addysg, sesiynau cynllunio ayyb sydd wedi eu cynnal eleni.

## B - RÔLAU

3. FFORWM CRAFFU - Mae rôl y Fforwm Craffu yn hanfodol, gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor yn eu Fforwm anffurfiol ac yn herio'r naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rôl y Fforwm Craffu fel a ganlyn:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ ymchwiliad)
- Bydd rôl hefyd i'r Fforwm ystyried a blaenoriaethu materion sydd angen sylw penodol yn sgil y trefniadau rhannu gwybodaeth, gan flaenoriaethu pa bynciau penodol fydd yn cael sylw.

- Asesu cyfraniadau’r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

4. Byddai rôl y Pwyllgorau Craffu fel a ganlyn:

- Craffu eitemau ffurfiol mewn cyfarfod - uchafswm o 2 – 3 eitem fesul cyfarfod.
- Bydd nifer fechan iawn o ymchwiliadau yn cael eu cynnal. Byddai’r ymchwiliadau yn dilyn yr un fformat a’r hyn a argymhellir ar gyfer Prif bwyllgor craffu, gyda chyfle i’r holl Aelodau fod yn cymryd rhan. Dylid anelu at gynrychiolaeth wleidyddol o’r gwahanol grwpiau i bob ymchwiliad.
- Blaen graffu - Dim angen ymchwiliad ond angen mewnbwn annibynnol wrth ddatblygu. Grŵp bach o aelodau yn rhoi barn annibynnol i’r Aelod Cabinet ar y datblygiadau wrth iddynt fynd rhagddo, ac yn adrodd argymhellion y Gweithgor Tasg a Gorffen i’r Pwyllgor perthnasol.
- Bydd pob pwyllgor yn adolygu **effaith** eu gwaith craffu yn barhaus gyda’r Cadeirydd i adrodd hynny i’r Fforwm Craffu.

**C - TREFNIADAU YMARFEROL**

| MAES | TREFNIADAU |
|---|---|
| Meysydd cyfrifoldeb y pwyllgorau | **Pwyllgor Craffu Adfywio** (Adran Economi a Chymuned, Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Adran Tai ac Eiddo, Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Throsedd ac Anrhefn.) |
| | **Pwyllgor Craffu Cefnogi Pobl** (Adran Addysg, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd, GwE a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) |
| | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Cyllid, Tîm Arweinyddiaeth, Gwasanaeth Cyfreithiol a Chynlluniau Corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor) |
| | |
| Aelodaeth | 18 fesul pwyllgor<br>Darostyngedig i’r cydbwysedd gwleidyddol* |
| | Pwyllgor Craffu **Cefnogi Pobl** fyddai â chyfrifoldeb am edrych ar faes addysg yn benodol ac felly byddai’r aelodau cyfetholedig addysg yn eistedd ar y pwyllgor hwn. |
| Cadeiryddiaeth | Darostyngedig i’r cydbwysedd gwleidyddol** |
| Cyfarfodydd | 5 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn |
| | |

| | |
|---|---|
| Adnabod materion i'w craffu | Cadw cofrestr ar y log craffu |
| | Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau unigol yn gallu adnabod materion – cyfeirio at y Cadeirydd |
| | Cyfarfodydd herio perfformiad – Aelodau o'r pwyllgor yn mynychu a chyfrifoldeb am adrodd yn ôl i'r pwyllgor |
| | Cyfarfodydd anffurfiol rhwng y Cadeirydd/Is-gadeirydd, Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth perthnasol |
| | Cyfarfod Fforwm Craffu/ holl Aelodau Cabinet |

* Petai'r pwyllgorau yn cael eu sefydlu heddiw, heb unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol nac i niferoedd unrhyw bwyllgor arall, yna byddai aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn debygol o fod fel a ganlyn -

| **18 aelod** | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelodau Unigol | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Adfywio | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cefnogi Pobl | 10 | 6 | 1 | 0 | 1 | 18 |

** Yn yr un modd, byddai Cadeiryddiaeth y pwyllgorau yn cael ei dynodi fel a ganlyn – Grŵp Annibynnol – 1, Grŵp Plaid Cymru - 1

5. Cyswllt ffurfiol gyda'r Cabinet – Yn yr un modd ag a nodwyd yn opsiwn 1, mae lle i dynhau'r cyswllt ffurfiol gyda'r cabinet.

**Ch – BARN YR AELODAU O'R GWEITHDAI**

| **MANTEISION OPSIWN 3** | **ANFANTEISION OPSIWN 3** |
|---|---|
| • "Fudge" - canol y ffordd rhwng y ddau opsiwn - gweithio i ryw raddau<br>• Rhannu pwysau gwaith rhwng 2 bwyllgor<br>• Gwaith craffu addysg a gofal mewn un Pwyllgor<br>• Fforwm Craffu – trosolwg o faterion ar draws y Pwyllgorau Craffu | • Llwyth Gwaith - Addysg a Gofal efo'i gilydd yn ormod<br>• Fforwm Craffu yn blaenoriaethu yn wahanol i ddymuniadau aelodau |

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**Pwyllgor:** **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

**Dyddiad:** 28 Tachwedd 2019

**Teitl:** Cynigion arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Gyllid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol i ddygymod gyda'u cyfran o'r bwlch £2m posib yng nghyllideb 2020/21.

**Pwrpas:** Craffu cynigion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Gyllid a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol i ddarganfod y swm o arbedion ac ystyried beth y byddai hynny, neu'r opsiynau amgen yn ei olygu.

**Swyddog cyswllt:** Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol – Geraint Owen
Pennaeth Adran Gyllid – Dafydd L Edwards
Prif Weithredwr – Dilwyn Williams

**Aelod Cabinet:** Adran Cefnogaeth Gorfforaethol – Nia Jeffreys
Adran Gyllid – Ioan Thomas

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Dros y 12 mlynedd diwethaf, nid yw'r grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, sydd wedi arwain at sefyllfa ariannol lle mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud arbedion sylweddol.

Nid yw'n bosib rhoi sicrwydd ar hyn o bryd o sefyllfa ariannol 2020/21, gan ei bod hi'n gyn-amserol o ran cadarnhau y cytundeb tâl, setliad ariannol, lefel y grant ar gyfer 2020/21, ynghyd â nifer o ffactorau eraill. Fodd bynnag, ystyriwyd sut ydym am ddygymod gyda'r sefyllfa, a'r posibilrwydd na fyddai ein setliad yn ddigonol.

Cyflwynwyd adroddiad ar ddygymod gyda sefyllfa ariannol 2020/21 i'r Cabinet 23/7/19, oedd yn nodi fod angen i'r Cyngor gynllunio ar sail bwlch ariannol gyda ystod o rhwng £2m a £7m. Penderfynwyd i gynllunio ar y sail bod angen cwrdd â bwlch £2m (sef y sefyllfa mwyaf gobeithiol) drwy ofyn i adrannau ddarganfod eu cyfran nhw i gyfarch y swm hwnnw, sy'n cyfateb i'r diffyg adnoddau ar gyfer cwrdd â'r chwyddiant mae'r Cyngor yn debygol o'i wynebu.

Os bydd y bwlch sydd yn cael ei wynebu gan y Cyngor uwchlaw £2m, y bwriad yw i ddefnyddio balansau a/neu gynnydd uwch yn y Dreth Gyngor i roi amser i ni ddarganfod yr ateb yn barhaol.

## 2. Cyfran i'w ddarganfod gan yr Adrannau

Mae cyfrifwyr y Cyngor wedi dosrannu'r £2 filiwn rhwng yr adrannau, ar sail cyfran safonol o 0.78% o gyllidebau gros, yn dilyn addasiadau am grantiau, ayb. Hysbyswyd yr adrannau o'u cyfran nhw o'r swm i'w ddarganfod yng Ngorffennaf 2019, a'r swm perthnasol ar gyfer yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yw £61,340, Adran Gyllid yw £58,930 a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol yw £16,800.

Gall adrannau adnabod rhan o'r arbedion drwy beidio ychwanegu chwyddiant yn llawn neu yn rhannol ar gyfer rhai o'u cyllidebau gellid ei reoli a'u cwtogi, megis costau teithio, cyflenwadau swyddfa, ayb. Yn ychwanegol i hyn, caniateir adnabod ffrwd newydd o incwm fel ffynhonnell, ond ni chaniateir codi lefel ffioedd a phrisiau i ddarganfod yr arbedion.

## 3. Cynigion yr Adran

Gweler **Atodiad 1** sydd yn cynnwys cynigion yr adrannau i gwrdd â'r swm gofynnol, ynghyd â goblygiadau defnyddio y ffynhonnell fel arbedion ar yr Adran.

## 4. Argymhellion

Gofynnir i'r Aelodau:

- Gymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Rhestr cynigion arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
– Rhestr cynigion arbedion yr Adran Gyllid
– Rhestr cynigion arbedion y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol

**ATODIAD 1**

## Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £16,140 | Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau o fewn yr Adran. | Dim - o ystyried cynigion eraill i dorri ar gyllidebau deunyddiau a chyflenwadau, ni ystyrir peidio rhoi chwyddiant ar y cyllidebau hyn yn 2020/21 yn gam a fyddai'n effeithio ar allu'r Adran i gyflawni ei swyddogaeth. |
| £7,200 | Gwaredu'r angen am drwydded NDL. | Dim - yn bresennol, defnyddir meddalwedd NDL ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth o'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn uniongyrchol i system APAS o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae newidiadau yn y modd y gweithredir oddi ar y 1af o Ebrill 2020 yn golygu na fydd angen buddsoddi yn y drwydded hon i'r dyfodol. |
| £24,000 | Lleihau amryw gyllidebau canolog ac o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes a'r Gwasanaeth Cefnogol yn benodol. | Dim - ceir cyfuniad yma o arbedion bychain yn deillio o ail-strwythuro blaenorol o fewn yr Adran, gostyngiad mewn gwariant ar argraffu dogfennau corfforaethol e.e. Cynllun y Cyngor, Adroddiad Perfformiad, yn ogystal â lleihau gwariant ar ddeunyddiau a chyflenwadau. |
| £10,000 | Denu incwm ychwanegol o ffynonellau newydd. | Dim - darparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd. |
| £4,000 | Lleihad gwariant ar gyflogau o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer. | Dim - yr arbediad yma yn deillio o'r symud cynyddol i ddefnyddio darpariaeth hunanwasanaeth ochr yn ochr ag ail-strwythuro o fewn trefniadau rheoli'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ddiweddar. |
| **£61,340** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 1**

## Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Gyllid

| Swm £ | Pennawd Cyllideb a Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £14,000 | Chwyddiant - Amrywiol - peidio ychwanegu chwyddiant am 2020/21 ar rai cyllidebau heblaw am staff. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - gall yr Adran barhau i gyflawni ei swyddogaeth tra'n peidio rhoi chwyddiant ar rai penawdau cyllideb. |
| £14,000 | Cyfrifeg/Rheoli - denu incwm ychwanegol drwy gytundebau o'r newydd. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - daw'r incwm o ddarparu gwasanaethau i sefydliad allanol o'r newydd. |
| £11,000 | Technoleg Gwybodaeth - denu incwm ychwanegol, cyfuniad o gytundebau newydd a gweithgareddau ychwanegol. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - derbynni'r incwm gan gwsmer allanol am lefel uwch o ddarpariaeth. |
| £12,000 | Trethi Annomestig - denu incwm ychwanegol o ffi gweinyddu cynllun Ardal Gwella Busnes (AGB). | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - mae'r incwm 'newydd' yma'n dod o gytundeb sydd bellach yn ddibynadwy. |
| £7,930 | Moderneiddio - lleihau nifer o gyllidebau drwy weithredu ffyrdd newydd o weithio ar draws yr adran. | Dim effaith ar drigolion Gwynedd - wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, rydym am wario llai ar bostio, rhybuddion statudol ac ar wasanaethau arbenigol. |
| **£58,930** | **Cyfanswm** | |

**ATODIAD 1**

**Rhestr Cynigion Arbedion y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol**

| Swm £ | Cyllideb a Swm Chynigion | Effaith ar Drigolion |
|---|---|---|
| £5,000 | Hepgor chwyddiant ar rai penawdau cyllidebol y Tîm Arweinyddiaeth; Cyfreithiol; Cofrestru Etholwyr a'r Crwner. | Dim amlwg - dylid medru dygymod gyda'r cyllidebau dan sylw ar eu lefelau presennol. |
| £3,000 | Tîm Arweinyddiaeth a Swyddog Monitro - Lleihau cyllideb postio, offer a dodrefn. | Dim - yn sgil symud i fwy o ddefnydd technoleg rydym yn gwario llai ar y gyllideb postio a gellir ei leihau'n sylweddol. |
| £3,390 | Tîm Arweinyddiaeth - Lleihau cyllideb cynadleddau. | Dim - yn sgil y bwriad i gadw un swydd Cyfarwyddwr yn wag bydd yna lai o allu i fynd i gyfarfodydd ar ran y Cyngor ac felly llai o wariant cefnogol yn gwneud hynny. |
| £2,500 | Cyfreithiol - Ffioedd Lexcel. | Dim - bwriedir hepgor achrediad allanol Lexcel gyda threfniadau rheoli swyddfa yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r un egwyddorion. |
| £2,910 | Cyfreithiol - Incwm. | Dim - dros y blynyddoedd a fu, er mwyn cwrdd â thargedau incwm bu'r Uned Gyfreithiol yn gwneud gwaith allanol er mwyn denu incwm. Dengys lefelau presennol ein bod yn cynhyrchu mwy na ddisgwyliwyd yn wreiddiol. |
| **£16,800** | **Cyfanswm** | |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **28 TACHWEDD 2019** |
| TEITL: | **LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL – CYNGOR GWYNEDD 2018-19** |
| PWRPAS: | **Crynhoi y negeseuon allweddol sy’n deillio o gyfrifoldeb statudol yr Archwiliwr Allanol ar eu gwaith archwilio yn 2018-19** |
| GWEITHREDIAD: | **I nodi a derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2018-19** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID** |

---

**1.** Mae ‘Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Gwynedd 2018-19’ yn crynhoi’r negeseuon allweddol sy’n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a’r cyfrifoldebau adrodd o dan y Côd Ymarfer Archwilio.

**Atodiad:**
Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2018-19.

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dilwyn Williams
Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Stryd Shirehall
Caernarfon
LL55 1SH

**Cyfeiriad:** IH/CS 18-19
**Dyddiad:** 5 Tachwedd 2019

Annwyl Dilwyn a Dyfrig

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a

- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 13 Medi 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Cyngor yn arwain ar baratoi cyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE a hefyd wedi paratoi Ffurflenni Blynyddol ar gyfer Harbwr Gwynedd, a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio Ar y Cyd a'r  a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 13 Medi 2019:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Pwyllgor; a
- Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflenni blynyddol ar gyfer Cydbwyllgorau Harbwr a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio Ar y Cyd, a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol ag arferion priodol.

Adroddwyd y materion allweddol a godwyd o'r archwiliad hwn i'r Pwyllgol Archwilio fel y bo'n briodol.

O 2020-21 ymlaen, bydd angen i ddyddiadau'r Pwyllgor gael ei ddwyn ymlaen i ymgorffori a'r dyddiadau statudol cynharach lle bydd angen i'r danganiadau ariannol drafft gael eu paratoi a'u llofnodi gan y swyddog cyllid cyfrifol (swyddog S151) erbyn 31 Mai 2021, ac i'r datganiadau ariannol gael eu gymeradwyo ac eu cyhoeddi gan y Cyngor erbyn 31 Gorffennaf 2021. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion y Cyngor dros yr hydref i adnabod a gweithredu gwelliannau pellach i'r paratoadau ac archwiliad o'r datganiadau ariannol 2019-20, gyda'r nod o gyflawni'r terfynau amser adolygedig erbyn 2020-21.

## Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae ystyriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, er yn mis Awst 2019 nodwyd yr Archwilydd yn fy Adroddiad Gwelliant Blynyddol1 rai ardaloedd lle gellid gwneud gwelliannau.

Er gwaethaf y casgliad uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno tynnu sylw ei fod ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ac y mae'n disgwyl adrodd i'r Cyngor arno erbyn mis Rhagfyr 2019. Bydd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi unrhyw ardaloedd penodol lle gallai gwelliannau gael eu gwneud.

## Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 13 Medi 2019.

Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ar drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu ardystio bod yr archwiliad yn gyflawn pan gyhoeddodd ei farn archwilio.

## Mae'r gwaith hyd yma ar ardystiadau hawliadau a ffurflenni grant ar y gweill.

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau'r Archwilyd Cyffredinol yn dilyn yn gynnar yn 2020 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi ei gwblhau.

---

[1] https://archwilio.cymru/publication/isle-anglesey-county-council-annual-improvement-report-2018-19

## Ffi archwilio ariannol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio.

Yn gywir



**Ian Howse**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Eitem 8

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD: **28 TACHWEDD 2019**

TEITL: **STRATEGAETH ARIANNOL – CYLCH GWAITH CYLLIDEB 2020/21**

PWRPAS: **CYFLWYNO AMSERLEN AR GYFER CYNLLUNIO ARIANNOL**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

GWEITHREDIAD: **ER GWYBODAETH**

---

**1.** Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o drefn llunio cyllideb am y flwyddyn 2020/21, yn unol â blaen-raglen y Pwyllgor.

**2.** Mae cyfrifwyr y Cyngor wedi cyflawni llawer o waith paratoi'r gyllideb o ran anghenion gwario 2020/21, drwy amcangyfrif effaith cytundebau tâl, chwyddiant arall, addasu cyfraniadau pensiwn ac ymrwymiadau gwario eraill.

**3.** Cyflwynwyd sawl cais am adnoddau ychwanegol gan wasanaethau'r Cyngor yn wyneb pwysau anorfod, a bydd rhain yn derbyn sylw gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet dros y misoedd nesaf.

**4.** Ochr arall y geiniog yw'r adnoddau grant fydd ar gael i'r Cyngor er mwyn ariannu'r ymrwymiadau yma. Amgaeaf yn **Atodiad B** ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yn nodi mai ar 16 Rhagfyr 2019 bwriedir cyhoeddi setliad draft 2020/21 (o'i gymharu â 10 Hydref 2018) a'r setliad llywodraeth leol terfynol ar 25 Chwefror 2020 (o'i gymharu â 19 Rhagfyr 2018).

**5.** Bydd yr amserlen yma'n heriol i awdurdodau lleol, ond roeddem ni eisoes wedi darogan amrediad o sefyllfaoedd posibl ac adrodd ar hynny i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf. Yn sgîl hynny, mae holl adrannau'r Cyngor wrthi'n cyflwyno cynlluniau arbedion gwerth 0.78% o'u cyllidebau i'w craffu.

**6.** Yn Ionawr, bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried y cynigion arbedion a'r ymrwymiadau gwario anorfod yng nghyd-destun y setliad grant drafft, cyn bydd yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid yn ymgynghori gyda holl Aelodau'r Cyngor mewn cyfres o seminarau.

**7.** Gweler amserlen cyllideb y Cyngor yn **Atodiad A**.

**8.** Byddwn yn ymlynu at yr amserlen flynyddol arferol o adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (13 Chwefror), y Cabinet (18 Chwefror), a'r Cyngor llawn (5 Mawrth), gan fod rhaid gosod y Dreth Cyngor erbyn 11 Mawrth.

**9.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried yr amserlen, holi'r Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet Cyllid fel bo'r angen, cynnig sylwadau, a nodi er gwybodaeth.

## AMSERLEN CYLLIDEB 2020/21

| | |
|---|---|
| **2019** | |
| 14 Tachwedd | Pwyllgor Craffu Gofal<br>- ystyried Arbedion 2020/21 |
| 21 Tachwedd | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi<br>- ystyried Arbedion 2020/21 |
| 28 Tachwedd | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>- ystyried Arbedion 2020/21 |
| 5 Rhagfyr | Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>- ystyried Arbedion 2020/21 |
| 16 Rhagfyr | Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a Setliad Drafft yr awdurdodau lleol |
| **2020** | |
| Ionawr | Cabinet - ystyried yr arbedion a roddwyd ymlaen |
| 20 Ionawr | Seminar Cyllideb i'r Aelodau Pwllheli |
| 21 Ionawr | Seminar Cyllideb i'r Aelodau Caernarfon (gyda'r nos) |
| 22 Ionawr | Seminar Cyllideb i'r Aelodau Dolgellau |
| 27 Ionawr | Seminar Cyllideb i'r Aelodau Caernarfon (dydd) |
| 13 Chwefror | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu - craffu'r gyllideb ddrafft ac ystyried risgiau perthnasol |
| 18 Chwefror | Cabinet - ystyried strategaeth ariannol ac argymell i'r Cyngor |
| 25 Chwefror | Cyllideb Terfynol Llywodraeth Cymru a'r Setliad Terfynol ar gyfer awdurdodau lleol |
| 5 Mawrth | Cyngor Llawn - gosod cyllideb a treth 2020/21<br>*(11 Mawrth dyddiad wrth gefn rhag ofn bydd eira ar 5/3)* |

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diweddariad ar amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21** |
| **DYDDIAD** | **8 Tachwedd 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Ar 17 Medi rhoddais ddiweddariad i'r Aelodau ar y goblygiadau i Gymru yn sgil Cylch Gwario 2019 Llywodraeth y DU, a'n cynlluniau ninnau o ran amseru cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Bryd hynny, roeddem yn parhau'n gadarn yn ein hymrwymiad i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu'r sicrwydd a'r sefydlogrwydd y mae eu hangen ar wasanaethau cyhoeddus, busnesau a chymunedau Cymru. Dyna pam y cyhoeddwyd ein bwriad i gyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru yn gynt, sef ym mis Tachwedd.

Ers hynny, mae etholiad cyffredinol y DU wedi'i alw ac rydym yn y cyfnod cynetholiadol erbyn hyn. Rwyf wedi trafod goblygiadau hyn o ran amseru cyllideb Llywodraeth Cymru gyda'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Cyllid ac, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Busnes, byddwn yn gohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru tan ar ôl etholiad cyffredinol y DU.

Ein huchelgais o hyd, er hynny, yw cyhoeddi ein cynlluniau cyn y Nadolig er mwyn helpu ein partneriaid cyflawni a'n rhanddeiliaid gyda'u blaengynllunio ariannol. Yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Busnes ddydd Mawrth nesaf, fe fyddwn, a hynny ar sail eithriadol, yn cyhoeddi Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar 16 Rhagfyr yn ystod y toriad. Byddaf innau wedyn yn gwneud datganiad ar y Gyllideb ddrafft yn y cyfarfod llawn cyn gynted â phosibl - ar 7 Ionawr - yn unol â'r Rheolau Sefydlog. O gofio goblygiadau ein proses gyllidebol i lywodraeth leol, byddwn yn cyhoeddi setliad dros dro 2020-21 ar gyfer llywodraeth leol yr un diwrnod â'r Gyllideb ddrafft er mwyn galluogi'r Awdurdodau i ymgysylltu â'u cymunedau a chynnal eu proses graffu ddemocrataidd eu hunain cyn gosod eu cyllidebau a'u cyfraddau treth gyngor erbyn 11 Mawrth.

O ganlyniad, yn dilyn y broses graffu ar ein cynlluniau gan Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, bydd y ddadl ar y Gyllideb ddrafft yn cael ei chynnal ar 4 Chwefror. Byddwn wedyn yn cyhoeddi Cyllideb derfynol 2020-21 a'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2020-21 ar 25 Chwefror, a bydd y dadleuon ar y naill a'r llall yn cael eu cynnal yn y cyfarfod llawn ar 3 Mawrth a 4 Mawrth.

Rwy'n ymwybodol y bydd y trefniadau hyn yn effeithio ar y cyfnod craffu. Mae'r Protocol ar y Gyllideb y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod na fydd yn bosibl darparu wyth wythnos o amser craffu bob amser. Bydd yr amserlen arfaethedig yn caniatáu saith wythnos o amser craffu.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Cyllid am eu cefnogaeth yn ystyried y newidiadau hyn, sy'n digwydd o dan ddylanwad ffactorau allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **28 TACHWEDD 2019** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2019, arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn rhagori ar yr incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2019/20.**

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor, gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2019. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae Cod Darbodus 2017 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodeb wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Cymeradwywyd Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, sy'n cydymffurfio gyda gofynion CIPFA ar gyfer 2019/20 gan y Cyngor llawn hefyd ar 8 Mawrth 2019.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y cefndir economaidd:** Cwympodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) y DU i 1.7% blwyddyn/blwyddyn ym mis Awst 2019 o 2.0% ym mis Gorffennaf, yn wannach na'r rhagolygon consensws o 1.9% ac yn is na tharged Banc Lloegr. Dangosodd y data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2019 fod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 3.8%, tra bod y gyfradd mewn gwaith wedi aros ar 76.1%, yr uchaf ar y cyd ers i gofnodion ddechrau ym 1971. Roedd y twf cyflogau blynyddol nominal a fesurwyd gan y cyfartaledd tri mis, heb gynnwys bonws yn 3.8% a 4.0% yn cynnwys bonws. Ar ôl eu haddasu i gyfrif am chwyddiant, tyfodd gwir gyflogau 1.9% heb gynnwys bonws a 2.1% yn cynnwys bonws.

Cadarnhaodd Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol Ch2 ar gyfer Cynnyrch Domestig Gros (GDP) bod economi'r DU wedi crebachu 0.2% yn dilyn y cynnydd o 0.5% yn Ch1 a gafodd ei aflunio wrth i bobl ddechrau casglu pentyrrau stoc cyn Brexit. Dim ond y sector gwasanaethau a adroddodd am gynnydd cymhedrol iawn mewn twf o 0.1%, gyda chynhyrchu ac adeiladu yn cwympo a chynhyrchu yn adrodd am ei gwymp mwyaf ers Ch4 2012. Cwympodd buddsoddiad busnes 0.4% (wedi'i ddiwygio o -0.5% yn yr amcangyfrif cyntaf) wrth i ansicrwydd ynghylch Brexit effeithio ar gynllunio busnes a gwneud penderfyniadau.

Bu i wleidyddiaeth, yma a thramor, barhau i fod yn yrrwr mawr o ran y marchnadoedd ariannol dros y chwarter diwethaf. Enillodd Boris Johnson y gystadleuaeth i arwain y Blaid Geidwadol ac mae wedi ymrwymo i adael yr UE ar 31 Ionawr 2020, waeth p'un a oes bargen yn cael ei tharo â'r UE neu beidio. Bu i Mr Johnson gau'r Senedd ac fe arweiniodd hyn at rai Aelodau Seneddol yn cyflwyno bil yn gofyn iddo wneud cais i ymestyn Brexit os na fyddai bargen yn ei lle erbyn 19 Hydref. Llwyddodd hyn ac, wedi derbyn cymeradwyaeth gan Dŷ'r Arglwyddi, fe wnaed hyn yn gyfraith. Wedi hynny, bu i'r Goruchaf Lys farnu bod penderfyniad Mr Johnson i gau'r Senedd yn anghyfreithlon.

Parhau wnaeth tensiynau rhwng yr UD a Tsieina heb unrhyw olwg o gytundeb masnach a'r ddwy wlad yn gosod tariffau pellach ar nwyddau'r naill wlad a'r llall. Bu i Gronfa Ffederal yr UD dorri ei darged Cronfa Ffederal o 0.25% ym mis Medi i amrediad o 1.75% - 2%, cam rhag-blaen i gynnal twf economaidd ymysg pryderon cynyddol ynghylch y rhyfel masnach a'r amgylchedd economaidd gwannach yn arwain at arafwch byd-eang mwy amlwg. Roedd y mynegai rheolwr prynu (PMI) yn ardal yr Ewro yn awgrymu arafwch dyfnach yn Ardal yr Ewro. Mae'r pryderon cynyddol wedi achosi i gromliniau enillion allweddol y llywodraeth wyrdroi, ac mae hyn yn cael ei ystyried gan sawl gohebydd fel rhagfynegiad o ddirwasgiad byd-eang. Mae'r marchnadoedd yn disgwyl gweld toriadau pellach mewn cyfraddau llog gan y Ffed ac ym mis Medi, bu i Fanc Canolog Ewrop (ECB) ostwng ei raddfa adneuo i -0.5% ac fe ddatganodd y byddai esmwytho meintiol (QE) yn ailddechrau o 1 Tachwedd.

Cadwodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc ar 0.75% ac yn ei Adroddiad Chwyddiant ar gyfer mis Awst nodwyd dirywiad mewn gweithgarwch a sentiment byd-eang ac fe gadarnhaodd y gallai penderfyniadau ar bolisi ariannol mewn perthynas â Brexit fynd i unrhyw gyfeiriad, yn ddibynnol ar p'un a fyddai bargen yn cael ei tharo neu beidio erbyn 31 Ionawr.

**Marchnadoedd ariannol:** Ar ôl cyfnod ralïo yn gynnar yn 2019, mae marchnadoedd ariannol wedi bod yn mabwysiadu dull mwy *'risk-off'* yn y cyfnod ers hynny wrth i ecwiti fod yn fwy cyfnewidiol ac wrth i fondiau ralïo (prisiau i fyny, enillion i lawr) i roi sylw i

ansawdd ac wrth ragweld mwy o symbyliad ariannol o fanciau canolog. Mae'r Dow Jones, FTSE 100 a'r FTSE 250 wedi lled ddychwelyd i'r un lefelau a welwyd ym mis Mawrth/Ebrill.

Bu i enillion gilt barhau yn gyfnewidiol yn ystod y cyfnod o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol parhaus. Ar ddiwedd mis Mehefin, roedd yr enillion yn 0.63%, ond bu i'r meincnod enillion ar giltiau pum mlynedd ostwng i 0.32% erbyn diwedd mis Medi. Gwelwyd cwymp yn y giltiau 10 mlynedd ac 20 mlynedd dros yr un cyfnod, gyda'r rhai 10 mlynedd yn cwympo o 0.83% i 0.55% a'r rhai 20 mlynedd yn cwympo o 1.35% i 0.88%. Roedd cyfraddau cyfartalog LIBID (London Interbank Bid) 1 mis, 3 mis a 12 mis yn 0.65%, 0.75% ac 1.00% yn ôl eu trefn dros y cyfnod.

Mae gweithgarwch diweddar y marchnadoedd bondiau a chyfraddau llog PWLB yn pwysleisio bod twf economaidd gwanach yn parhau i fod yn risg byd-eang. Mae cromlin enillion yn yr UD yn parhau i fod wedi gwyrdroi ac mae enillion 10 mlynedd y Trysorlys yn is na biliau 3 mis yr UD. Mae hanes wedi dangos nad yw dirwasgiad ymhell y tu ôl i wyrdroad yn y gromlin enillion. Wedi gwerthu'r Byndiau 10 mlynedd ar -0.24% ym mis Mehefin, mae'r enillion ar warantau llywodraeth Yr Almaen yn parhau yn negyddol yn y farchnad eilradd gyda gwarantau 2 a 5 mlynedd yn masnachu ar oddeutu -0.77%.

**Cefndir credyd:** Gwelwyd cynnydd ac yna gostyngiad yn yr Amrediad Cyfnewid Diffygdalu Credyd (CDS) yn ystod y chwarter, ac mae'n parhau i fod yn isel mewn termau hanesyddol. Ar ôl codi i bron 120pbs ym mis Mai, bu i'r amrediad ar gyfer banc nad oedd wedi'i glustnodi Natwest Markets plc gwympo i oddeutu 80bps erbyn diwedd mis Medi, ac o ran yr endid wedi'i glustnodi, National Westminster Bank plc, bu i'r amrediad barhau ar oddeutu 40bps. Yr oedd prif fanciau eraill y DU, nad ydynt eto wedi'u gwahanu yn rhai wedi'u clustnodi a heb eu clustnodi o safbwynt CDS, yn masnachu rhwng 34 a 76bps ar ddiwedd y cyfnod.

Prin oedd y newidiadau i gyfraddau credyd yn ystod y cyfnod. Cynyddodd Moody's gyfradd hirdymor The Cooperative Bank i B3 a bu i Fitch uwchraddio Clydesdale Bank a Virgin Money i A-.

## 3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 30 Medi 2019, roedd gan y Cyngor benthyciadau net £56m sydd wedi codi oherwydd gwariant refeniw a cyfalaf. Roedd yr angen benthyg gwaelodol fel caiff ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR) yn £176m, tra roedd y cronfeydd ar gael i ddefnyddio a chyfalaf gweithio ar gael i'w buddsoddi. Roedd gan y Cyngor £106.7m o fenthyciadau a £36.0m o fuddsoddiadau.

Crynhoi'r ffactorau yma yn y tabl isod.

**Crynhoi'r Mantolen**

| | **31.3.19 Gwir £m** | **Symudiad £m** | **30.9.19 Gwir £m** |
|---|---|---|---|
| CFR y Gronfa Cyffredinol | 178 | (2) | 176 |
| Llai: *Rhwymedigaethau ddyled arall | (3) | 0 | (3) |
| **Benthyciadau CFR** | **175** | **(2)** | **173** |
| Benthyciadau allanol | (118) | 0 | (118) |
| **Benthyciadau mewnol** | **57** | **(2)** | **55** |
| Llai: Cronfeydd gellir defnyddio | (74) | 12 | (62) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (27) | (22) | (49) |
| **Benthyciadau Net** | **(47)** | **(12)** | **(56)** |

* Iesau cyllido, ymrwymiadau PFI

Strategaeth cyfredol y Cyngor yw cadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau gwaelodol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau isel.

Mae sefyllfa rheolaeth trysorlys ar 30 Medi 2019 a'r newid dros y cyfnod yn cael ei dangos yn y tabl isod.

**Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | **31.3.19 Balans £m** | **6 mis Symudiad £m** | **30.9.19 Balans £m** | **30.9.19 Cyfradd %** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau Tymor Hir | 106.4 | (1.7) | 104.7 | 5.6 |
| Benthyciadau Tymor Byr | 0 | 2.0 | 2.0 | 0.7 |
| **Cyfanswm Benthyg** | **106.4** | **0.3** | **106.7** | **5.6** |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 10.0 | 0 | 10.0 | 5.7 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 10.0 | 9.0 | 19.0 | 0.9 |
| Arian a Cyfwerth Arian | 14.6 | (7.6) | 7.0 | 0.8 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **34.6** | **1.4** | **36.0** | **1.7** |

## 4. Y STRATEGAETH FENTHYCA

Ar 30 Medi 2019, roedd gan y Cyngor £104.7m o fenthyciadau fel rhan o’i strategaeth i ariannu’r rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol a £2.0m o fenthyciadau at ddiben llif arian. Crynhoi’r benthyciadau sy’n ddyledus ar 30 Medi yn y tabl isod.

**Sefyllfa Benthyca**

| | 31.3.19 Balans £m | 6 Mis Symudiad £m | 30.9.19 Balans £m | 30.9.19 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 90.2 | (1.7) | 88.5 | 5.9 |
| Banc (tymor hir) | 16.2 | 0 | 16.2 | 4.2 |
| Awdurdodau Lleol | 0 | 2.0 | 2.0 | 0.7 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **106.4** | **0.3** | **106.7** | **5.6** |

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros gyfnod gofynol y cronfeydd, gyda’r hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid fel amcan eilradd.

Gyda chyfraddau llog tymor byr yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau tymor hir, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor agos i ddefnyddio adnoddau mewnol ac i wneud benthyciadau tymor byr yn lle. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf incwm buddsoddi a ildiwyd) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

**Diweddariad ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**

Ar 9fed Hydref 2019 cododd cyfradd safonol llog PWLB o 1%, nid yw’r Cyngor yn rhagweld unrhyw angen benthyca PWLB ar hyn o bryd.

Roedd y Cyngor yn gymwys i fenthyca ar y ‘Raddfa Sicrwydd’ (0.20% islaw cyfradd safonol PWLB), am gyfnod o 12 mis o 1 Tachwedd 2018. Ym mis Hydref 2019, cyflwynodd y Cyngor ei gais i’r Trysorlys er mwyn iddo gael mynediad at y raddfa ostyngedig hon am 12 mis arall, o 1 Tachwedd 2019.

**Aildrefnu Dyledion**

Arhosodd y taliad premiwm ar gyfer ad-daliad cynnar o ddyled PWLB yn gymharol ddrud am fenthyciadau ym mhortffolio’r Cyngor ac felly nid oedd aildrefnu dyledion yn ddeniadol. O ganlyniad, ni fu unrhyw weithgarwch aildrefnu.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y chwarter wedi llwyddo i leihau’r lefel o fenthyciadau, ynghyd â lleihau’r risg credyd, drwy ad-dalu’r benthyciadau o’r balansau buddsoddi.

## 5. GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Mae’r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol sy’n cynrychioli’r incwm a dderbynir cyn gwariant yn ogystal â balansau a chronfeydd. Yn ystod y 6 mis, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £71.2 a £33.0 miliwn oherwydd gwahaniaethau amser rhwng incwm a gwariant. Dangosir y sefyllfa buddsoddi yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.19<br>Balans<br>£m | 6 mis<br>Symudiad<br>£m | 30.9.19<br>Balans<br>£m | 30.9.19<br>Incwm<br>% |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 15.2 | (4.9) | 10.3 | 0.9 |
| Awdurdodau Lleol | 0.0 | 9.0 | 9.0 | 0.9 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.4 | (2.7) | 6.7 | 0.8 |
| Cronfeydd Cyfun (buddsoddiad gwreiddiol) | 10.0 | 0.0 | 10.0 | 5.7 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **34.6** | **1.4** | **36.0** | **1.7** |

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y cyfradd enillion uchaf, neu’r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro’r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau’r risg o beri colledion o fuddsoddiadau’n diffygdalu a’r risg o dderbyn incwm sy’n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Derbyniwyd £287k o log yn y cyfnod 1af Ebrill i 30ain Medi 2019.

Diogelwch y cyfalaf sy’n parhau’n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi’i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2019/20.

Dalier £10m o fuddsoddiadau’r Cyngor mewn cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan yr arian hwn, ond maent ar gael i dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2019 isod:

| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,559,770 | -440,231 | 111,699 | 0.6 | -8.80% | 2.23% | -6.57% | 7.5% |
| INVESTEC DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,209,599 | 1,224,814 | -25,186 | 38,652 | 0.6 | -2.01% | 3.09% | 1.08% | 2.2% |
| KAMES DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,281,164 | 31,164 | 44,299 | 0.6 | 2.49% | 3.54% | 6.04% | 3.9% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 4,783,773 | 2,261,290 | -238,710 | 165,007 | 0.6 | -9.55% | 6.60% | -2.95% | 9.5% |
| GRAND TOTAL | | | 9,327,038 | -672,963 | 359,657 | 0.6 | -6.73% | 3.60% | -3.13% | 4.9% |
| | | | Capital gains and losses under one year are not annualised | | **Annualised Returns:** | | -6.73% | 6.10% | -0.63% | |

Ymddangosir bod y gwerth cyfalaf yn £9.3m sydd yn is na’r buddsoddiad gwreiddiol ar 30 Medi 2019 o £10m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed

blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canol.

**Meincnodi Buddsoddi**

Mae'r dilyniant o'r metrigau risg ac adenilliadau fel y dangosir yn y dethioladau o'r feincnodau buddsoddi chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | **Sgôr Risg** | **Statws Credyd** | **Datguddiad 'Bail-in'** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)** | **Cyfradd Adennill %** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2019 | 3.96 | AA- | 43% | 48 | 0.55 |
| 30.06.2019 | 3.85 | AA- | 42% | 52 | 0.69 |
| 30.09.2019 | 4.97 | A+ | 58% | 43 | 0.86 |
| **AL tebyg** | **4.22** | **AA-** | **52%** | **96** | **0.78** |
| **Bob AL** | **4.19** | **AA-** | **62%** | **28** | **0.83** |

**Perfformiad Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

£58.4m oedd y balans cyfartaledd arian yn ystod y chwe mis ac mae Cyfradd sylfaenol Banc y DU wedi ei osod ar 0.75% ers mis Gorffennaf 2018.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn 2019/20 ydi £0.18m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn am fod yn £0.4m. Mae hyn yn seiliedig ar enillion buddsoddi o 1.7% ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae cynnydd sylweddol oherwydd bod y Cyngor bellach yn buddsoddi mewn cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun, na ragwelwyd yn y gyllideb.

## 6. CYDYMFFURFIO

Gallaf gadarnhau bod yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio'n llawn a chod ymarfer CIPFA a Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

**Ffin Dyled**

| | 6 mis Uchafswm | 30.9.19 Gwir | 2019/20 Ffin Gweithredol | 2019/20 Ffin Awdurdodedig | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £106.7m | £106.7m | £180m | £190m | ✓ |
| PFI a Prydlesau Cyllid | £4.0m | £4.0m | £0 | £0 | ✓ |
| **Cyfanswm Dyled** | **£110.5m** | **£110.7m** | **£180m** | **£190m** | ✓ |

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | Uchafswm yn y cyfnod | 30.9.19 Gwir | 2019/20 Terfyn | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £6m | £5m | £8m yr un | ✓ |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £0 | £0 | £8m fesul grŵp | ✓ |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £11m | £5m | £20m fesul rheolwr | ✓ |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £0 | £0 | £40m fesul brocer | ✓ |
| Gwledydd tramor | £3m | £2m | £8m fesul gwlad | ✓ |
| Darparwyr Cofrestredig | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | £4m | £4m | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Benthyciadau i Gorfforaethau heb eu raddio | £0 | £0 | Cyfanswm o £8m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | £31.5m | £6.7m | Cyfanswm o £40m | ✓ |
| Cronfeydd buddsoddi eiddo tiriog | £0 | £0 | Cyfanswm o £20m | ✓ |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Diogelwch:** Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso’r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Targed | Gwir | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartal y portfolio | 6.0 | 4.97 | ✓ |

**Hylifedd:** Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl mewn cyfnod pendodol, heb fenthyca ychwanegol.

| | 30.9.19 Gwir | 2019/20 Targed | Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £22m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar effeithiau refeniw o gynnydd a cwymp o 1% mewn cyfraddau llog, fel a ganlyn:

| **Dangosydd risg cyfradd llog** | **Cyfyngiad 2019/20** | **Targed 2019/20** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £761,000 | £547,000 | ✓ |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £0 | £0 | ✓ |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg ail gyllido. Mae’r terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Uchaf | Isaf | Gwir |
|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 25% | 0% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 0.3% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 4.9% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 16.3% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | 25.5% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | 12.7% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | 16.6% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% | 8.7% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Fwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy orfod ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £2.2m | £0 | £0 |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ |

## 7. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 8. RHAGOLYGON AR GYFER GWEDDILL 2019/20 A THU HWNT

### Gweddill 2019/20

Mae'r economi byd-eang yn mynd i gyfnod o dwf arafach mewn ymateb i faterion gwleidyddol, yn bennaf safbwynt yr UD ar bolisi masnach. Mae economi'r DU wedi dangos bod twf y farchnad yn arafu yn sgil yr ansicrwydd gyda Brexit a'r gostyngiad mewn gweithgarwch byd-eang. Mewn ymateb, mae disgwyliadau cyfradd llog byd-eang ac yn y DU wedi gostwng yn ddramatig.

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddatrysiad ar y gorwel yn yr anghydfod masnach rhwng Tsieina a'r UD; ac mae'n ymddangos bod yr UD yn teimlo'n gyfforddus i wneud y sefyllfa hon yn waeth. Gyda etholiad arlywyddol 2020 flwyddyn i ffwrdd, mae'n annhebygol y bydd Donald Trump yn newid ei safbwynt.

Bydd gweithredoedd y banc canolog a risgiau geowleidyddol yn parhau i greu amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bondiau.

Mae Arlingclose, ein hymgynghorydd trysorlys, yn disgwyl i Gyfradd y Banc barhau ar 0.75% ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, ond erys risgiau arwyddocaol i'r rhagolwg hwn, yn ddibynnol ar ganlyniad Brexit ac esblygiad yr economi byd-eang. Yn ogystal, mae Arlingclose yn disgwyl i enillion giltiau barhau ar lefelau isel ar gyfer y dyfodol rhagweladwy ac maent yn barnu y bydd y risgiau yn cael eu pwysoli am i lawr ac y bydd natur gyfnewidiol y sefyllfa yn parhau i gynnig cyfleoedd ar gyfer benthyca tymor-hir.

| | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Ca | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |

**Parodrwydd ar gyfer Brexit**

Y dyddiad ymadael nesaf a drefnwyd i'r DU adael yr UE yw 31ain Ionawr 2020 ac nid oes llawer o eglurder gwleidyddol o hyd ynghylch a fydd bargen yn cael ei chytuno erbyn y dyddiad hwn a mae posibilrwydd y bydd y dyddiad gadael yn cael ei wthio yn ôl eto. Wrth i Ionawr 31ain agosáu bydd y Cyngor yn sicrhau bod digon o gyfrifon ar agor mewn banciau a chronfeydd Marchnad Arian i ddal digon o hylifedd yn y tymor agos a bod ei gyfrif gyda'r Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) yn parhau i fod ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

**Newidiadau Arfaethedig**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol, sydd i fod yn weithredol o flwyddyn ariannol 2020/21. Mae hyn yn cynnwys ailysgrifennu'r canllawiau a gyflwynwyd y llynedd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar gyfer yr awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r diffiniad o fuddsoddiadau wedi cael ei ymestyn i gynnwys yr "holl asedau ariannol ac asedau anariannol y mae awdurdod lleol wedi buddsoddi arian ynddynt yn bennaf neu'n rhannol er dibenion creu gwarged gan gynnwys buddsoddi mewn eiddo", cyhyd ag y bo hyn wedi'i wneud gan ddefnyddio'r pwerau buddsoddi sydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2003. Yn ogystal, mae benthyciadau i gwmnïau neu gymdeithion mewn perchnogaeth cyfan-gwbl, i gyd-fenter, neu i drydydd parti yn cyfrif fel buddsoddiadau, waeth beth fo'r diben neu'r pŵer cyfreithiol a ddefnyddiwyd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **28 Tachwedd 2019** |
| **TEITL** | **Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

## 1 Y penderfyniadau a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Gwneir cais am ddau benderfyniad:

1.2 Penderfyniad 1
Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod argymhellion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu. Bydd angen cytuno neu beidio gyda'r 'casgliad' ar gyfer pob adroddiad.

1.3 Penderfyniad 2
Bod y Pwyllgor yn cytuno ar brosesau'r Cyngor i'r dyfodol ar gyfer asesu argymhellion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y mater hwn yw i fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu hystyried a'u gweithredu, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Cyn ystyried y cefndir i'r ddau benderfyniad, dyma ddiweddariad ar weithrediadau yn dilyn penderfyniadau y Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2018 –

3.2 Penderfyniadau:
(i) derbyn yr adroddiad yn ddarostyngedig i nodi bod cynnig gwella 6 o dan adroddiad 'Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm' "wedi'i gwblhau";
(ii) gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried craffu'r materion a amlygwyd gan adroddiadau 2013/14 a 2014/15 yr AGGCC, adroddiad 'Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?', ynghyd ag adroddiad

‘Arolygiad Cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd), a’r gwaith a wnaed i ymateb i’r cynigion gwella;
(iii) gofyn i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried craffu’r materion a amlygwyd yn yr adroddiad ‘Cyflawni â Llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion’, a’r gwaith a wnaed i ymateb i’r cynigion gwella;
(iv) derbyn cadarnhad o ran pa bwyllgor ddylai rhoi ystyriaeth i adroddiad ‘Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau]’;
(v) bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yng nghyswllt yr adroddiad ‘Diogelwch Cymunedol yng Nghymru’, os oedd y mater yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor;
(vi) derbyn eglurhad pam nad oedd 3 cynnig gwella o dan yr adroddiad ‘Strategaeth Pobl’ wedi eu cwblhau;
(vii) gofyn i’r Fforwm Craffu ystyried y sefyllfa o ran blaen graffu achosion busnes newidiadau i wasanaethau.

Gweithrediadau:

3.3 Pwynt (i) - wedi ei weithredu.
Pwyntiau (ii) a (iii) - Mae’r Pwyllgorau Craffu Gofal a Chymunedau, wrth bennu eu rhaglenni gwaith, wedi ystyried y ceisiadau ond ni flaenoriaethwyd craffu’r cynnydd.
Pwyntiau (iv), a (vi) – mae’r adroddiadau hyn o fewn maes gwaith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae adroddiadau cynnydd yn erbyn yr argymhellion gwella wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.
Pwynt (v) - Mae’r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ei ddynodi yn Bwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn. Mi fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r cyfarfod ar 5 Rhagfyr - ‘Diweddariad Blynyddol gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn)’
Pwynt (vii) - y Fforwm Craffu yn cyd-fynd gyda’r egwyddor yma yn llwyr. Bu enghreifftiau o ple lwyddwyd i adolygu a herio achosion busnes ers cyflwyno’r trefniadau newydd yn Mai 2017 ond teg fyddai ychwanegu na lwyddwyd i wneud hynny ar bob achlysur. Gweler y sylwadau ynghylch yr adolygiad craffu cyfredol yn Atodiad 1.

Penderfyniad 1

3.4

Atodiad 1

Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr o’r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2014/15 a 2019/20, ynghyd â’u argymhellion ar gyfer gwella, a’r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn yr argymhellion hynny. Rydym wedyn yn cynnig ‘casgliad’, sef a yw’r gwaith ‘heb gychwyn’, ‘wrthi’n cael ei gynllunio’, ‘ar waith’ neu ‘wedi’i gwblhau’.

Mae Rhan 1 yn rhestru’n gronolegol yr arolygiadau sy’n edrych ar waith Cyngor Gwynedd yn unig (adroddiadau lleol), tra bo’r adroddiadau cyffredinol neu genedlaethol sy’n berthnasol i lywodraeth leol wedi eu rhestru’n gronolegol yn Rhan 2.

Ar gyfer yr adroddiadau a dderbyniwyd cyn Mehefin 2018 dim ond yr argymhellion gwella sy’n parhau heb eu cwblhau sy’n cael eu nodi yn Atodiad 1.

Weithiau, gall yna fwy o argymhellion fod wedi codi'n wreiddiol o'r adroddiadau hyn, ond mae'r pwyllgor hwn eisoes wedi barnu ei fod yn fodlon bod trefniadau digonol yn eu lle a'u bod wedi eu cwblhau.

Mae'r adroddiadau nad ydynt wedi dod ger bron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r blaen hefyd wedi eu cynnwys yn Rhannau 1 a 2, sef pob adroddiad ers Mehefin 2018. Mae'r holl argymhellion gwella ar gyfer yr adroddiadau yma wedi eu rhestru yn eu cyfanrwydd, ynghyd ag unrhyw gynnydd sydd wedi ei wneud eisoes.

Penderfyniad 2

3.5

Fel y nodwyd uchod, rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y mater hwn yw i
3.6 fodloni ei hun bod *trefniadau a phrosesau* ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu hystyried a'u gweithredu. Mae'n debyg bod y ffocws wedi bod yn y gorffennol ar graffu ar *natur* y cynnydd ar yr argymhellion, er bod y cynnydd hwnnw, o bosib, eisoes yn cael ei ystyried a'i graffu yn rhywle arall.

Rhag dyblygu gwybodaeth rydym yn cynnig felly ein bod yn miniogi ein prosesau mewnol o adolygu argymhellion gan archwilwyr allanol *o hyn ymlaen*, gan barhau i sicrhau bod y cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn cael eu rhannu'n gyhoeddus.

Mae'r ystyriaethau isod eisoes wedi eu trafod gan y Fforwm Craffu a'r Grŵp Llywodraethu.

Llwybr Adroddiadau Archwilwyr Allanol

3.7

**Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu –** bydd y Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiad bob 6 mis ar y cynnydd a wneir ar argymhellion archwilwyr allanol sydd ar y gofrestr risg gorfforaethol; gwybodaeth am unrhyw adroddiadau newydd gan archwilwyr allanol a pha drefniadau sydd mewn lle i ymateb iddynt; ac adroddiad cryno yn amlinellu'r trefniadau sydd mewn lle i barhau i ymateb i argymhellion sydd heb eu cwblhau.

**Adroddiadau Herio Perfformiad Aelodau Cabinet** (adroddiadau cyhoeddus i gyfarfodydd y Cabinet 3 gwaith y flwyddyn) – wrth baratoi yr adroddiadau hyn bydd materion sydd ar y gofrestr risg yn derbyn sylw; bydd pob adroddiad newydd gan archwilwyr allanol a'r cynllun i ymateb iddynt yn derbyn sylw; a bydd adroddiad cynnydd ar gynlluniau gweithredu sydd eisoes wedi eu cytuno hefyd yn derbyn sylw.
Gan fod aelodau o'r Pwyllgor Craffu hefyd yn arsylwi'r cyfarfodydd paratoi hyn, bydd cyfle iddynt gyfeirio unrhyw adroddiad gan archwiliwr allanol, a'r cynllun gweithredu, at sylw un o'r Pwyllgorau Craffu.

Mae rhai archwilwyr allanol yn cynnal adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cyngor – ee. mae Arolygaeth Gofal Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o wasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol, ac yna'n cyhoeddi adroddiad gydag unrhyw argymhellion gwella. Os na fydd mater sydd angen sylw wedi ei 'ddatrys' ymhen diwedd blwyddyn yna fe ddylai'r mater hwnnw gael ei amlygu eto yn adroddiad perfformiad y flwyddyn ddilynol.

Rhag bo'r Pwyllgor hwn yn derbyn gwybodaeth ail-adroddus felly rydym yn argymell mai'r adroddiad diweddaraf yn unig o adroddiadau blynyddol gan archwiliwyr yn unig sy'n cael eu cyflwyno.

3.8

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2014-2019

**<u>Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2013-2019</u>**

**Rhan 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd**

1. **<u>Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2013/14</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd y'i gyhoeddwyd Hydref 2014

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –</u>

1. Mae'r Cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012/13 i 185 yn 2013/14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012/13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%).

   <u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

   Plant mewn gofal / adolygiadau statudol:

   31/3/14 185

   31/3/15 194

   31/3/16 207

   31/3/17 218

   31/3/18 227

   31/3/19 253

   30/9/19 265

   Bu cynnydd o 43% yn y nifer o blant mewn gofal ers 31/3/2014

   Adolygiadau statudol:

| | Nifer o adolygiadau yn y flwyddyn Cynhaliwyd / Cyfanswm | Perfformiad |
|---|---|---|
| 2013/14 | 515 / 546 | 94% |
| 2014/15 | 510 / 544 | 94% |
| 2015/16 | 544 / 599 | 91% |
| 2016/17 | 613 / 674 | 91% |
| 2017/18 | 588 / 662 | 89% |
| 2018/19 | 595 / 700 | 85% |
| 2019/20 (6 mis) | 329 / 379 | 87% |

Mae'r data uchod yn dangos cynnydd sylweddol dros gyfnod o chwe mlynedd yn niferoedd y plant mewn gofal yng Ngwynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol ac yn adlewyrchu y cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth a'r newid yn natur yr achosion sydd yn dod i sylw'r gwasanaeth. Mae anghenion yn dwysau ac mae sawl mater cymhleth yn amlygu eu hunain yn y proffil plant mewn gofal, er enghraifft camfanteisio yn rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol anaddas, hunan anafu a materion iechyd meddwl ac yn y blaen. Mae angen adolygu cynllun gofal pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal o fewn canllawiau statudol gan swyddogion adolygu annibynnol.

Fel y gwelir o'r tabl uchod mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cyfarfodydd adolygu ar draws y blynyddoedd. Gwelir yn y blynyddoedd cyntaf fod perfformiad wedi gwella ac yna wedi gostwng yn cyfnod y mae'r cynnydd yn niferoedd plant yn digwydd. Mae capasiti'r gwasanaeth o ran y swyddogion adolygu wedi aros yr un fath ers 2014 ac felly mae perfformiad yn gostwng oherwydd diffyg i gyrraedd yr holl ofynion o fewn yr amserlenni statudol.

Mae'r gwasanaeth yn herio perfformiad yn y maes yma yn gyson drwy'r gyfundrefn herio perfformiad mewnol, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn adroddiad herio perfformiad yr Aelod Cabinet. Mae'r adran hefyd ac yn cadw cofnodion manwl am y rhesymau pam fod yr adolygiadau sydd tu allan i amserlenni yn hwyr. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno bid am adnodd i ychwanegu at y sefydliad ers rhai blynyddoedd gan gynnwys eleni.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynigion gwella uchod "wedi eu cwblhau".

**2. <u>Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2014/15</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2015

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –</u>

1. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

2. Cymorth i Ofalwyr –

Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y

flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

3. Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant –

   Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

4. Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant –

   Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

5. Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal –

   Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

1 a 2. Gan fod y ddarpariaeth ar gyfer y meysydd iechyd meddwl a gofalwyr yn faterion sy'n codi mewn adroddiadau dilynol, a gan eu bod yn derbyn sylw fel rhan o drefniadau herio perfformiad yr Adran rydym yn hyderus bod yr Adran wedi rhoi trefniadau mewn lle i ymateb i'r cynigion hwn.

3 a 4.

| | Nifer o gynadleddau cychwynnol | Perfformiad |
|---|---|---|
| 2013/14 | 120 / 145 | 83% |
| 2014/15 | 134 / 157 | 85% |
| 2015/16 | 163 / 188 | 87% |
| 2016/17 | 129 / 147 | 88% |
| 2017/18 | 122 / 149 | 82% |
| 2018/19 | 110 / 143 | 77% |
| 2019/20 (6 mis) | 92 / 99 | 93% |

| | Nifer o gynadleddau adolygol | Perfformiad |
|---|---|---|
| 2013/14 | 248 / 256 | 97% |
| 2014/15 | 267 / 279 | 96% |
| 2015/16 | 241 / 282 | 85.5% |
| 2016/17 | 239 / 261 | 92% |
| 2017/18 | 253 / 281 | 90% |
| 2018/19 | 251 / 268 | 94% |
| 2019/20 (6 mis) | 91 / 115 | 79% |

Mae perfformiad y Cyngor o ran cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella yn gyson dros gyfnod o flynyddoedd oni bai am gwymp yn ystod 2018/19 pan fu i gyfnod o salwch effeithio'r gallu i gynnal cysondeb perfformiad. Mae'r mesurydd yma yn cael ei herio yn rheolaidd ac mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion manwl am y rhesymau pam fod y cynadleddau sydd y tu allan i amserlen yn hwyr.

Yn yr un modd mae perfformiad y Cyngor o ran cynnal cynadleddau achos amddiffyn plant adolygol wedi gwella yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Yn yr un modd a'r cynadleddau cychwynnol mae'r mesurydd yn cael ei herio yn rheolaidd ac mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r rhesymau dros fod tu allan i amserlen.

5.

| | Nifer o asesiadau iechyd | Perfformiad |
|---|---|---|
| 2013/14 | 125 / 272 | 46% |
| 2014/15 | 130 / 257 | 51% |
| 2015/16 | 171 / 284 | 60% |
| 2016/17 | 198 / 291 | 68% |
| 2017/18 | 196 / 302 | 65% |
| 2018/19 | 186 / 312 | 60% |
| 2019/20 (6 mis) | 86 / 161 | 53% |

Mae perfformiad ar y mesurydd yma wedi gwella yn gyson dros y cyfnod yn dilyn cydweithio agos rhwng y Cyngor a'r gwasanaeth iechyd. Mae lle i wella eto, ond mae perfformiad hyd at 6 mis y flwyddyn hon yn argoeli yn dda. Mae cynnydd

sylweddol wedi bod yn y niferoedd plant mewn gofal ac felly'r niferoedd sydd angen asesiadau iechyd ac mae'r cynnydd wedi digwydd er hynny.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynigion gwella "wedi eu cwblhau".

**3. Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd)** – Adroddiad lleol i Wynedd y'i gyhoeddwyd ym Mehefin 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen cynllunio'n strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion.

2. Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd.

3. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu (DoLS) er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r gwaith o fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynigion hyn yn digwydd drwy drefniadau herio perfformiad yr Adran, ac yn y Pwyllgor Craffu Gofal. Mae hyn yn waith parhaus, felly o safbwynt llywodraethiant a threfniadau priodol, credwn bod y gwaith hwn yn derbyn yr oruchwyliaeth briodol.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynigion gwella "wedi eu cwblhau".

**4. Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau]** – Adroddiad lleol i Wynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai'r Cyngor arwain y blaen drwy ailagor trafodaethau â phartneriaid lleol a rhanbarthol ynghylch datblygu dull systematig o gynllunio asedau ar y cyd, gan gynnwys cyfleoedd i: gytuno ar systemau rheoli perfformiad ar y cyd, a'u defnyddio; sefydlu cyrff darparu gwasanaethau eiddo ar y cyd; sefydlu cyrff dal eiddo ar y cyd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bellach mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar drefniadau cydweithio traws-ranbarthol trwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol.

Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn rhan o Grŵp Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu a dysgu o arfer da o bob cwr o Gymru, ond yn bwysicach i fagu perthnasau gyda chydweithwyr o gyrff cyhoeddus eraill ac adnabod cyfleoedd cydweithio a partneriaethu.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "wedi ei gwblhau".

5. **Strategaeth Pobl** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddwyd Tachwedd 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Diweddaru'r holl bolisïau rheoli pobl a'r canllaw i reolwyr i adlewyrchu'r Strategaeth Pobl newydd.

2. Rhoi cynllun gweithlu corfforaethol cynhwysfawr ar waith.

3. Cyflwyno'r broses gwerthuso newydd i'r holl staff.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Mae Grŵp Prosiect Amodau Gwaith yn weithredol dan arweiniad y Rheolwr Adnoddau Dynol gyda'r pwyslais ar sicrhau bod yr amodau hynny yn cyd-fynd hefo'r diwylliant a'r ffordd o weithio adnabyddir fel Ffordd Gwynedd (gweler Cynllun Ffordd Gwynedd 2019-22).

2. Mae Grŵp Prosiect Cynllunio'r Gweithlu yn weithredol dan arweiniad y Rheolwr Adnoddau Dynol. Mae'r polisi a'r canllawiau gweithredu wedi'u hadolygu ac wedi'u hatgyfnerthu hefo nodyn briffio i reolwyr.

Ymhellach, cyflwynwyd cynlluniau newydd arloesol yng nghyswllt denu a datblygu'r talent a'r sgiliau sydd eu hangen e.e. prentisiaethau, arbenigwyr yfory, rheolwyr yfory.

3. Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau ar gyfer gwerthuso parhaus yn hytrach na chynnal gwerthusiad blynyddol. Mae'r ymgynghoriad a chyhoeddiad swydd-ddisgrifiadau newydd, a'r disgwyliadau generig o bob rheolwr, yn ffocws i'r gwerthuso erbyn hyn.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y 3 cynnig gwella uchod yn cael eu nodi "wedi'u cwblhau".

6. **<u>Rheoli Risg - Asesiad sy'n seiliedig ar risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2017

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Byddai trefniadau rheoli risg y Cyngor yn elwa o: ddatblygu dogfen tracio neu grynhoi risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol; cyflwyno mwy o gysondeb o ran pennu a rheoli risgiau mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau; rhoi sylw amlycach i'r cysyniad o 'barodrwydd i wynebu risg' yn ei waith rheoli risg; cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau diwygiedig y Cyngor; hyfforddi'r swyddogion a'r Aelodau ynghylch rheoli risg fel rhan o fenter ehangach i godi ymwybyddiaeth.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Gorffennaf 2018 yn egluro'r weledigaeth ar gyfer trefniadau rheoli risg y Cyngor, yn ogystal ag amlinellu fesul pwynt yr hyn oedd ar y gweill er mwyn ymdrin â'r materion oedd yn codi yn llythyr yr archwiliwr:
<u>https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s17358/Trefniadau%20Rheoli%20Risg.pdf?LLL=1</u>

Yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad, mae'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) a'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant wedi ymweld â thimau rheoli pob adran er mwyn rhoi arweiniad ac anogaeth i ddiweddaru eu cofrestr risg. Yn ogystal â hynny, mae'r Prif Weithredwr wedi codi'r mater yng nghyfarfodydd y Grŵp Rheoli.

Canlyniad hyn yw fod adrannau wedi darparu gwybodaeth i'r Gwasanaeth Risg ac Yswiriant er mwyn ei ganiatáu i boblogi'r Gofrestr ar ei newydd wedd o fewn system iGwynedd. Mae rhai adrannau ar ôl, ond bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn fuan.

Casgliad

Mae datblygu'r gyfundrefn rheoli risg yn un parhaus, a credwn fod yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma yn golygu y gellir nodi cynigion y llythyr fel "wedi'i gwblhau".

7. **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau** – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Rhoi cyfle i'r pwyllgorau craffu adolygu a herio achosion busnes newidiadau i wasanaethau mewn ffordd amserol cyn bod y Cabinet yn penderfynu'n derfynol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bu enghreifftiau o ple lwyddwyd i adolygu a herio achosion busnes ers cyflwyno'r trefniadau newydd yn Mai 2017 ond teg fyddai ychwanegu na lwyddwyd i wneud hynny ar bob achlysur.

Mae'r adolygiad o'r trefniadau ynglŷn â'r strwythur ar gyfer craffu wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gynnig argymhellion ar y ffordd ymlaen i gyfarfod o'r Cyngor ar Ragfyr 19eg 2019.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi "ar waith".

8. **Cynllunio Arbedion** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod yr amserlenni cyflawni a geir mewn achosion busnes yn gadarn

2. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sefydlu dull mwy corfforaethol o bennu cyfleoedd incwm

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn y blynyddoedd diwethaf adrannau y Cyngor sydd wedi bod yn gyfrifol am gynnig y cynlluniau arbedion ar gyfer eu maes gwasanaeth, gyda'r arbedion yn mynd trwy gamau herio a chraffu manwl, drwy ddilyn y drefn yma, erbyn diwedd 2018/19 roedd 96% o'r cynlluniau arbedion, sef dros £25 miliwn o'r arbedion ers 2015/16 wedi eu gwireddu.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Yr Aelod Cabinet dros Gyllid sydd â'r cyfrifoldeb am gadw trosolwg o'r darlun cyfan gan adrodd yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet ar y cynnydd.

O ran trefniadau cynllunio ariannol i sefydlu dull mwy corfforaethol o bennu cyfleodd incwm, mae'r aelodau Cabinet eisoes wedi dethol penawdau incwm i'w hystyried yn strategol a gwaith pellach yn cael ei wneud i edrych ar y manylder.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella cyntaf yn cael ei nodi "wedi ei gwblhau" a'r ail gynnig yn cael ei nodi fel un sydd "ar waith".

**9. <u>Cyngor Gwynedd - Trosolwg a Chraffu - Addas ar Gyfer y Dyfodol?</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Medi 2018

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Datblygu prosesau blaenraglenni craffu ymhellach er mwyn:
   - darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
   - canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac egluro hyn i'r cyhoedd; a
   - sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol, ac egluro hyn i'r cyhoedd, ac ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu

2. Adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.

3. Egluro swyddogaeth aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gwasanaethau, sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn herio perfformiad gwasanaethau yn briodol ac yn dwyn swyddogion i gyfrif.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r adolygiad o drefniadau craffu yn mynd rhagddo yn gyfredol. Mae tair opsiwn wedi eu llunio gan weithgor o aelodau a swyddogion yn gweithio ar y cyd er mwyn ceisio sicrhau y trefniadau craffu mwyaf effeithiol ar gyfer Gwynedd. Mae'r ystyriaethau a nodir isod, ynghyd â nifer o ystyriaethau eraill wedi bod yn sail i ffurfio'r opsiynau.

Cynhaliwyd gweithdai i'r holl aelodau i gael trafod cryfderau a gwendidau y gwahanol opsiynau a chynnig sylwadau pellach er mwyn miniogi yr opsiynau a gwella ein trefniadau. Bydd gwaith y gweithgor a'r Fforwm Craffu yn cael ei adrodd i'w Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y 28ain o Dachwedd, ac yna i'r Cyngor llawn am benderfyniad.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y 3 cynnig gwella yn cael eu nodi fel rhai "ar waith".

**10. Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth - Y Gwasanaeth Llyfrgell - Cyngor Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth rhwng staff llyfrgelloedd a rheolwyr y gwasanaeth llyfrgelloedd sydd wedi'u lleoli'n ganolog.

   Cynnydd:

   Mae gwella cyfathrebu o fewn y gwasanaeth wedi'i adnabod gennym fel tîm staff fel proses sydd angen sylw wrth roi Ffordd Gwynedd ar waith. Mae negeseuon yn ymwneud â'r gwasanaeth a pherfformiad yn cael eu cyfathrebu i bob aelod staff unigol yn gyffredinol erbyn hyn. Rydym wedi dod a grwpiau staff ynghyd eleni er mwyn tynnu staff i mewn i brosesau gwneud penderfyniad ac mae rhaglen o hyfforddiant penodol wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn gyda staff cyfan, yn ogystal â grwpiau tasg, a hynny gyda chymorth Gwasanaeth Dysgu a Datblygu y Cyngor, yn ogystal â'n darpariaeth fewnol. Diben y rhaglen hon yw grymuso staff, ynghyd â chynyddu lefel gwybodaeth a sgiliau.

   Mae system rhannu ffeiliau i-gwynedd o gymorth mawr i hwyluso'r broses. Anogir staff sy'n arweinwyr tîm i ymweld yn wythnosol â llyfrgelloedd dalgylch er mwyn annog cyfathrebu dwy ffordd effeithiol. Mae'r Rheolwr Llyfrgelloedd yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau'r Tîm Llyfrgell yn unigol, a hefyd yn cwrdd ar lefel pawb yn chwarterol.

2. Cyfathrebu canlyniadau ymgynghoriadau yn y dyfodol er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu deall y materion a godir a'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn ymateb iddynt.

   Cynnydd:

   Byddwn yn ystyried a gweithredu ar yr argymhelliad hwn gydag unrhyw ymgynghoriad sylweddol ac o bwys y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol allasai

gael effaith sylfaenol ar y gwasanaeth, ac yn sicrhau cydweithio gwell a fwy cadarn gyda'r Uned Gyfathrebu er mwyn sicrhau fod defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn gwybodaeth ddilynol yn sgil unrhyw newidiadau a wneir.

3. Gwella lefel y cymorth a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaeth llyfrgelloedd symudol. Yn arbennig:
   (a) darparu offer TGCh a mynediad at y rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd, lle bo hynny'n bosibl, i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau; ac
   (b) archwilio sut y gellid defnyddio'r gwasanaeth i alluogi trigolion gwledig i gael mynediad at wasanaethau eraill y Cyngor.

<u>Cynnydd</u>:

(a) Rydym wedi darparu tabled gyda chysylltedd 3G yn Llyfrgelloedd Teithiol Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Bydd hyn yn galluogi cyswllt gyda'r rhyngrwyd, ond ni allwn warantu cyswllt cyson a rheolaidd ym mhob ardal ddaearyddol oherwydd cyfyngiadau mynediad band-eang ar hyn o bryd yng Ngwynedd.

(b) Bydd cyswllt 3G yn galluogi mynediad at wefan Cyngor Gwynedd a fydd yn galluogi ein staff i gyfeirio pobl at y wybodaeth neu'r adnoddau cywir.
Rydym ar ganol y broses o adolygu ein Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol ar hyn o bryd er mwyn adnabod yn well y defnyddwyr hynny sy'n fregus, ac yn gymwys dan yr categori Gwasanaeth Cartref. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref yn gyswllt rheolaidd gyda'r trigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas, ac mae ein gyrwyr yn gallu bod yn gyswllt pwysig rhwng gwasanaethau eraill y Cyngor o ran cysylltu neu gyfeirio ymlaen.
Rydym yn y broses eleni o drefnu rhaglen hyfforddiant fwy penodol i yrwyr y Gwasanaeth Llyfrgell Cartref er mwyn eu harfogi i ymateb i gyfleon cefnogi neu gyfeirio gwybodaeth.

Rydym hefyd, yn sgil trafodaeth rhwng y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, yn cynnig ymweliadau cartref gan Lyfrgellwyr ar gyfer sesiynau Digidol, er mwyn hwyluso ymgysylltiad a chynhwysiant digidol, gwella llesiant a mynediad at wasanaethau a gwybodaeth o gartref.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y 3 cynnig gwella yn cael eu nodi fel rhai "wedi'u cwblhau".

**11. <u>Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Adolygu a chryfhau trefniadau rheoli prosiect:

   (i) Creu Dogfen Sefydlu Prosiect ffurfiol, wedi'i seilio ar Gylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys cyfeiriad at holl weithgareddau a dogfennau allweddol y prosiect.

Cynnydd - Mae dogfen sefydlu prosiect ffurfiol wedi ei chreu sy'n seiliedig ar fethodoleg prosiect ac sy'n cyfeirio ar holl weithgareddau a dogfennau allweddol y prosiect. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain y prosiect gyda chymorth Rheolwr Prosiect ac aelodau'r Grwp Prosiect.

   (ii) Egluro amserlen y prosiect i osgoi'r risg o fod yn datblygu o hyd – ond byth yn cyrraedd y nod.

Cynnydd - Nid yw gosod amserlen bendant ar gyfer y prosiect yn bosibl. Mae hynny oherwydd natur esblygol y gwaith a'r angen i ddatblygu a diweddaru'n barhaus. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd diweddaru yn digwydd yn gyson gyda her barhaus i gyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol posib.

   (iii) Adolygu cynllun y matrics risg prosiect i leihau'r potensial o nodi pob risg yn ganolig.

Cynnydd - Mae'r matrics risg elfennol a ddefnyddiwyd i gychwyn bellach yn adlewyrchu matrics sgorio risg y Cyngor.

   (iv) Sefydlu Strategaeth neu Gynllun Cyfathrebu ffurfiol a chyhoeddi adroddiadau uchafbwyntiau rheolaidd. Cynnwys Tîm Cyfathrebu y Cyngor wrth nodi enw neu frand addas ar gyfer System Swyddi Gwynedd (SSG) a'r gyfres o systemau Adnoddau Dynol.

Cynnydd - Mae gan pob modiwl o fewn y Cynllun Prosiect cynllun cyfathrebu ynddo'i hun sy'n gyson gyda'r brand 'Hunanwasanaeth'.

   (v) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.

Cynnydd - Mae mesur yr effaith a gaiff y datblygiadau hyn yn fater sy'n derbyn sylw'r Grwp Prosiect. Yn bresennol, mae'r wybodaeth a gesglir yn bennaf seiliedig ar ddata rheolaethol.

2. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:

   (i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Cynnydd - Mae'r canran o staff sydd hefo mynediad at hunan wasanaeth wedi cynyddu o 44% ym Mai 2019 i 68% erbyn diwedd Hydref eleni. Mae'r dechnoleg ar gyfer mynediad i bawb wedi'i sefydlu, sy'n golygu mai mater o gyrraedd y staff hynny sydd angen cyfarwyddiadau pellach i sicrhau mynediad yw'r ffocws erbyn hyn. Mae'r gwaith hwnnw eisoes yn digwydd.

(ii) Rhwydweithio â chynghorau eraill i gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer.

Cynnydd - Mae rhwydweithio a thrafod datblygiadau hefo sefydliadau eraill yn digwydd yn barhaus. Enghreifftiau o hynny yw Grwp Swyddogion Adnoddau Dynol Gogledd Cymru a'r Grwp Cenedlaethol o Benaethiaid Adnoddau Dynol.

(iii) Ystyried gweithredu technoleg cwmwl.

Cynnydd - Fel rhan o ymarferion parhaus gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i wella darpariaeth i drigolion Gwynedd, fe gomisiynwyd adolygiad annibynnol o drefniadau a dibyniaeth Cyngor Gwynedd o'i ganolfannau data. Prif gwmpas yr adroddiad oedd i dderbyn arweiniad ar newidiadau arfaethedig yn dilyn methiant yn y brif ganolfan ddata yn ôl yn 2018. Fe gymharwyd nifer o ddatrysiadau technegol ar gyfer canolfannau data lleol (cwmwl preifat) a defnydd o'r cwmwl cyhoeddus. Canlyniad yr adroddiad oedd cadarnhad bod cyfeiriad y Cyngor ar newidiadau oedd wedi eu gwneud neu oedd ar waith yn cynnig gwelliannau sylweddol i hydwythedd ein systemau a hynny mewn modd sy'n gost effeithiol. Nodwyd bod y Cyngor yn gwneud defnydd o'r cwmwl cyhoeddus ar gyfer rhai darpariaethau, ond na fyddai'n gost effeithiol i symud popeth i'r cwmwl.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1(i), 1(ii), 1(iii), 1(iv), 2(ii) a 2(iii) yn cael eu nodi fel rhai "wedi'u cwblhau", a bod cynigion gwella 1(v) a 2(i) yn cael eu nodi fel rhai sydd "ar waith".

**12. Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amlder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddaru. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.

2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u

cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.

4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.

5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.

6. Mae angen diweddaru taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Casgliad

13. **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – Cyngor Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Medi 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.

2. Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

3. Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu.

4. Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.

5. Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.

6. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.

7. Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.

8. Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.

9. Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuenctid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r Cyngor wedi nodi dymuniad i geisio trafodaeth bellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gasgliadau a chynigion gwella archwiliad y Gwasanaeth Ieuenctid. Gweler cofnod y Cyngor Llawn dyddiedig 3ydd Hydref 2019.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod yr holl gynigion gwella uchod yn cael eu nodi fel rhai "ar waith".

**Rhan 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy’n berthnasol i Lywodraeth Leol**

**1. Craffu Da? Cwestiwn Da** – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2014

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad –

1. Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfannu at y broses craffu.

2. Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol.

3. Datblygu prosesau blaen-raglennu craffu ymhellach er mwyn:
   - Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau
   - Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau
   - Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.

4. Cysoni rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor.

5. Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau.

6. Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae’r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn Adroddiad Cenedlaethol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da’ gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu hymgorffori i bob pwrpas yn adroddiad dilynol ‘Cyngor Gwynedd – Trosolwg a Chraffu – Addas ar Gyfer y Dyfodol?’ a gyhoeddwyd fis Mehefin 2018, ac yn ystyriaethau parhaus i’r gyfundrefn craffu yng Ngwynedd.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella yn cael ei nodi “wedi ei gwblhau”.

2. **<u>Cyflawni â Llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion</u>** – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2014

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –</u>

1. Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:
   - cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd,
   - nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru,
   - nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.

2. Ymgysylltu'n well a thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:
   - ymgynghori a thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;
   - amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion, a
   - nodi cynlluniau i gynyddu taliadau newid safonau gwasanaeth.

3. Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:
   - Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau
   - Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain
   - Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion
   - Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol
   - Cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd
   - gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt
   - cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm
   - defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf
   - lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.

4. Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:

- nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;
- dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail benderfyniadau ar wasanaethau iechyd cynghorau yn y dyfodol;
- cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

- Mae gwaith wedi bod yn digwydd yn genedlaethol ar ddiwygio'r safonau arfer gorau mewn ymgynghoriad a'r WLGA.
- Mae Cynghorau yn cydweithio mewn meysydd lle mae buddiant amlwg o wneud hynny wedi ei adnabod.
- Mae'r Tîm Rheoli adrannol yn adolygu yn barhaus sut yr ydym yn cyfarch anghenion ein dinasyddion.
- Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn trafod heriau cynnal gwasanaeth yn rheolaidd gyda'r aelod Cabinet, er mwyn sicrhau blaenoriaethu adnoddau yn effeithiol
- Mae effeithiolrwydd y gwasanaethau rydym yn ei gynnig yn cael eu herio yn rheolaidd, drwy gyfrwng cyfarfodydd Herio Perfformiad, gan yr aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1, 2, 3 a 4 yn cael eu nodi "wedi eu cwblhau".

**3. Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno.

2. Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r gwaith hwn yn parhau ar waith a byddwn yn cyflwyno gwybodaeth bellach yn yr adroddiad diweddaru nesaf i'r pwyllgor hwn.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella uchod "ar waith".

**4. Diogelwch Cymunedol yng Nghymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.

2. Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.

3. Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy: osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol; sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Bwrdd Adolygu er mwyn gwella elfennau o waith diogelwch cymunedol ac mae'r rhaglenni gwaith yn cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn aros am y cynllun cenedlaethol.

2. Mae Bwrdd Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn yn cynllunio pob flwyddyn, a datblygu cynllun lleol sydd yn seiliedig ar y blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

3. Mae'r Bartneriaeth wedi gosod mesuriadau yn erbyn pob un or 7 blaenoriaeth yn ein cynllun, ac yn monitro ac adrodd ar gynnydd i'r bartneriaeth yn chwarterol. Mae ein cynllun ar gael i'r cyhoedd ar safle we y Cyngor.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 2 a 3 "wedi eu cwblhau" a bod cynnig gwella 1 "ar waith".

**5. Caffael Cyhoeddus yng Nghymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Roedd yn glir o'n gwaith samplu bod rhai o'r strategaethau caffael wedi dyddio, a bu ymateb cymysg hefyd i bolisïau a deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu strategaethau a'u polisïau caffael yn ystod 2017-18 ac yn flynyddol wedi hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisïau a deddfwriaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae strategaeth caffael y Cyngor yn cael ei hamlygu yng Nghynllun y Cyngor fel un o'n prif flaenoriaethau er mwyn creu economi hyfyw a ffyniannus. Mae'r Cyngor wedi sefydlu mesurau perfformiad er mwyn gweld sut mae canlyniadau caffael y Cyngor yn 'cadw'r budd yn lleol'. Mi welwch berfformiad diweddaraf y Cyngor ar y safle isod.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Polisiaucaffael.aspx

Rydym hefyd wedi cymhwyso'r Ddeddf Llesiant i'r ymagweddau comisiynu a chaffael drwy ymgorffori'r nodau llesiant a'r pum dull o weithio i Bolisi Caffael Cynaliadwy y Cyngor. Cafodd y Polisi Caffael hwn ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar y 23ain o Orffennaf 2019. Mae copi o'r polisi hefyd ar gael ar y linc uchod.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "wedi ei gwblhau".

**6. <u>Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw - Digartrefedd</u>** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ionawr 2018

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
   - sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac
   - adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.

2. Darparodd Llywodraeth Cymru arian i helpu awdurdodau lleol i weithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r cyllid hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau atal newydd gael eu datblygu. Mae'r arian ar gael tan 2019-20 ond mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan yr adnoddau hyn i ddiwygio eu gwasanaethau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y dyfodol (paragraffau 1.21 i 1.28). Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn diwygio'r ffordd yr ariennir gwasanaethau digartrefedd ganddynt er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r dull atal ehangaf posibl sydd ei angen. Dylai adolygiadau ystyried defnyddio arian Cefnogi Pobl yn ogystal ag arian o Gronfa Gyffredinol y Cyngor i gefnogi'r ffordd y cyflawnir dyletswyddau digartrefedd yr awdurdod.

3. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
   - llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;
   - defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a
   - profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

4. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:
   - gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml.
   - bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys.
   - nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym.
   - cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).

- integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol.
- cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod.
- nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.

5. Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:
   - brofi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;
   - cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a
   - chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparwyr arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.

6. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

7. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddolebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.

8. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio a nodir yn Atodiad 10 i gynnal hunanasesiad o wasanaethau, er mwyn helpu i nodi opsiynau i wella'r ffordd y gallant helpu i reoli'r galw.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

1. Mae staff wedi cael Hyfforddiant ar y Ddeddfwriaeth newydd, yn ogystal â ‘motivational interviewing’, ‘hoarding’, amddiffyn achosion meddiant, Credyd Cynhwysol, deall problemau camddefnydd sylweddau, ac iechyd meddwl. Mae trefniadau ymgysylltu yn rhan o Strategaeth Tai newydd y Cyngor ac felly bydd hynny’n dod yn rhan o waith craidd y Gwasanaeth i’r dyfodol.

2. Mae cyllid Cefnogi Pobl yn ariannu sawl prosiect atal digartrefedd yn barod: Cynllun Ail sefydlu Carcharorion (2018 at 2020); Cynllun Cefnogaeth Ddwys I bobl hefo anghenion cymhleth; Gwasanaeth Galw Heibio I bobl ifanc a phobl yn dod allan o’r carchar. Mae’r Gwasanaeth hefyd wedi recriwtio un aelod newydd o staff er mwyn cynorthwyo i ddelio â’r cynnydd mewn galw.

3. Mae'r gwasanaeth Opsiynau Tai yn darparu gwasanaeth 'triage' i ffiltro unigolion, ac mae cytundeb hefo'r Cymdeithasau Tai i gyfeirio pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn gynnar. I'r dyfodol, bydd y Gwasanaeth yn adolygu pa mor effeithiol ydi'r trefniadau hyn.

4. Mae'r Gwasanaeth wedi cael trafodaeth hefo prosiect 'Take Notice' Shelter Cymru, ac mae gwaith adolygu gwaith papur a gwybodaeth ar gynllun gweithredu strategaeth ddigartrefedd i ddigwydd yn Ionawr 2020.

5. Gwaith datblygu gwefan ar gynllun gweithredu strategaeth Ddigartrefedd- ar waith yn Ionawr 2020.

6. Bydd y gwaith o adolygu'r cytundebau gyda'r Cymdeithasau Tai yn digwydd o fis Ionawr 2020 ymlaen.

7. Mae rhan o'r wybodaeth cydraddoldeb yn cael ei gasglu yn barod, ond mae angen diwygio'r ffurflen asesiad i gynnwys yr holl o'r wybodaeth cydraddoldeb. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r cynllun gweithredu strategaeth digartrefedd fydd ar waith o Ionawr 2020 ymlaen.

8. Mae'r rhestr wirio eisoes yn cael ei defnyddio.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 2 a 8 "wedi ei gwblhau", a bod cynigion gwella 3, 4, 5, 6 uchod yn cael eu nodi "ar waith".

**<u>7.</u>** **<u>Addasiadau Tai</u>** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2018

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:
    - osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;
    - gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy ddefnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a

- chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.

2. Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddelfrydol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.

3. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.

4. Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:
   - bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;
   - bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;
   - bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

5. Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:
   - yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:
     – safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;
     – archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;
     – hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;
     – gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;
     – sicrhau y delir yswiriant digonol; a
     – gofyn am eirdaon.
   - defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;

- mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddaru'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;
- datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:
  - bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
  - gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
  - rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

6. Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.

7. Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
   - fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;
   - bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;
   - cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;
   - nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a
   - chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae hwn yn waith parhaus a byddwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad diweddaru nesaf i'r pwyllgor hwn.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod "ar waith".

**8. Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ebrill 2018

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, a bydd fersiwn drafft ohono yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 26 Tachwedd gyda chais i ymgynghori â'r cyhoedd ar ei gynnwys. Mae trefniadau mewnol y Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'n trigolion ynglŷn ag unrhyw rwystrau sy'n eu wynebu wrth ymwneud â'r Cyngor yn fater sy'n derbyn sylw yn y Cynllun.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod "ar waith".

**9. Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2018

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:

- gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham.
- gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau.
- gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnerth a hunan-ddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd.
- rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.

2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol.

3. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:
   - deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;
   - gwella ansawdd cydgynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);
   - sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgynllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlflwydd; a
   - datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.

4. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:
   - cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;
   - cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;
   - cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a
   - sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith.

5. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:

- gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a
- gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.

6. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol:
    - llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;
    - sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;
    - rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a'r dechnoleg briodol;
    - integreiddio'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;
    - gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a
    - cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae ymateb i'r holl gynigion gwella uchod yn rhan o'r gwaith sydd ynghlwm â gwireddu y prosiectau sydd yng Nghynllun y Cyngor, sef 'Ail Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal', 'Gwydnwch Cymunedol' ac 'Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal'. Mae hwn yn waith sy'n digwydd ar y cyd â nifer o bartneriaid drwy'r Timau Ardal.

Mae'r gwaith o fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynigion hyn yn digwydd drwy drefniadau herio perfformiad yr Adran, ac yn y Pwyllgor Craffu Gofal. Mae hyn yn waith parhaus, felly o safbwynt llywodraethiant a threfniadau priodol, credwn bod y gwaith hwn yn derbyn yr oruchwyliaeth briodol.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynigion gwella uchod "ar waith".

10. **<u>Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru</u>** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mehefin 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Bod awdurdodau cynllunio lleol:
    (i) yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben

        Cynnydd: Mae adolygiad o'r Gwasanaeth Rheolaeth Datblygu yn y broses o gael ei gynnal gyda'r amcan o sicrhau fod y cwsmer / dinesydd yn ganolog i sut darparir y gwasanaeth. Mae'r adolygiad wedi cynnwys ymgysylltu gyda chwsmeriaid i gael ei barn ar y gwasanaeth a gwybodaeth ynglŷn a'u anghenion o'r gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ail-ddylunio i sicrhau ei fod yn fwy gwydn, yn cwrdd a'i bwrpas ac yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid.
        O safbwynt polisi cynllunio rydym wedi bod yn paratoi cyfres o ganllawiau cynllunio atodol gan gael cyngor gan wasanaeth cyfathrebu'r Cyngor o ran ymgysylltu a sicrhau fod y trefniadau'n cwrdd a gofynion statudol yn ogystal a chanllawiau cenedlaethol sydd yn berthnasol i ddulliau ymgysylltu ag ymgynghori. Credir felly fod y Cyngor yn gweithredu ar hyn.

    (ii) yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio

Cynnydd: Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn yn mis Gorffennaf 2017 ac mae'r pwyslais ar hynny wedi bod ar baratoi canllawiau cynllunio atodol a rhoi trefniadau monitro mewn lle ar gyfer paratoi'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf ar gyfer y cynllun. Felly, nid oes 'Cynlluniau Lle' wedi cael ei paratoi gan y Cyngor ar hyn o bryd, ond mi fuasai'r Gwasanaeth polisi Cynllunio ar y Cyd yn rhoi cefnogaeth i unrhyw parti sydd eisiau paratoi Cynllun Lle, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth adnoddau priodol ar gyfer hynny.

    (iii) gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.

Cynnydd: Mae hyn eisoes yn cael ei weithredu gyda cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael ei cynnal yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau – gyda hyn ddibynnol ar leoliad y ceisiadau cynllunio. Hefyd, mae trefniadau yn weithredol ers amser sydd yn rhoi'r hawl i siarad i drydydd partïon mewn Pwyllgorau Cynllunio. Mae darpariaeth gwe ddarlledu hefyd yn weithredol.

2. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol;

Cynnydd: Mater i Llywodraeth Cymru i'w ffioedd ar geisiadau cynllunio a nodir nad yw'r ffioedd hynny wedi codi ers rhai blynyddoedd. Mae'r Cyngor wastad wedi bod yn darparu gwasanaeth cyngor yn cyflwyno cais ac adennill y costau hyn drwy ffioedd dewisol, cyn i hyn ddod yn statudol gyda ffioedd statudol ynghlwm. Mae'r Cyngor fel Awdurdod Cynllunio Lleol ar y cyd gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill drwy Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru) – wedi bod yn gweithio ar brosiect adennill costau ar gyfer darparu gwasanaeth cynllunio. Mae ail ran prosiect sydd yn cael ei gomisiynu gan Llywodraeth Cymru (gyda chefnogaeth Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) – wedi llithro o ran yr amserlen. Nodir nad yw gwaith polisi cynllunio nac ychwaith gorfodaeth cynllunio'n elfennau o'r gwaith sydd yn dod a ffioedd.

Gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:

(i) integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;

Cynnydd: Credir fod y Cyngor eisoes yn gwneud hyn gan ystyried fod gennym Wasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd gydag Ynys Môn ers 2011 ac yn sgil hyn Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – sef yr unig esiampl yng Nghymru. Rydym hefyd yn rhan o'r trefniant rhanbarthol ar gyfer darpariaeth gwasanaeth cynllunio mwynau gwastraff yng Ngogledd Cymru, sydd yn cael ei arwain gan Sir Fflint. Hefyd, mae Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru wedi bod yn edrych ar sawl maes gwaith arall dros y blynyddoedd gan gynnwys cadwraeth adeiladu a'r amgylchedd naturiol, gan arwain ar y materion yn genedlaethol.

(ii) datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd

Cynnydd: Mae 4 canllaw cynllunio atodol ar y cyd wedi ei mabwysiadau gyda gwaith yn mynd yn ei flaen ar gyfres o ganllawiau eraill.

(iii) datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.

Cynnydd: Rydym eisoes wedi paratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd, canllawiau cynllunio atodol ar y cyd ac adroddiad monitro blynyddol ar y cyd.

3. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:

(i) adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;

Cynnydd: Rydym eisoes wedi gweithredu ar hyn gyda chynllun dirprwyo newydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ym Mai 2018. Mae hwn nawr yn cael ei fonitro ac mae'r dystiolaeth ar hyn o bryd yn dangos fod y nifer o geisiadau sydd angen eu hadrodd i Bwyllgor wedi gostwng.  Gall hyn fod yn golygu gostwng nifer y Pwyllgor Cynllunio'r flwyddyn o 15 i 12 – ond byddwn yn parhau i fonitro am rŵan.

(ii) diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a

Cynnydd:  Credir fod yr adroddiadau cynllunio'n gynhwysfawr ond yn glir ac nid ydym wedi cael unrhyw gan gwsmeriaid sydd yn nodi fel arall.  Rhaid nodi yn hyn o beth – fel rhan o'n trefniadau monitro perfformiad mewnol rydym yn cysylltu gyda chwsmeriaid i gael eu barn ac mae'r adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn. Nodir hefyd fod gennym drefniadau safonol mewn lle yn y Pwyllgor i gyfeirio cais i "gyfnod cnoi cil" os ystyrir bod risgiau yn gysylltiedig a phenderfyniad y Pwyllgor.

(iii) gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.

Cynnydd: Rydym yn hyfforddi yn gyson ar faterion o ran priodoldeb, lobio. Bydd y Pwyllgor hefyd, trwy'r cadeirydd yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion cyfansoddiadol y Cyngor gyda cyfreithiwr, ar ran y Swyddog Monitro, ym mhob cyfarfod er mwyn cynghori.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1(i), 2, 2(i), 2(iii), 3(ii) a 3(iii) "wedi eu cwblhau", a bod cynigion gwella 1(i), 1(ii), 2(ii) a 3(i) uchod yn cael eu nodi "ar waith".

**11. Y 'Drws Blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Medi 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol - awdurdodau lleol:
    - adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';
    - gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;
    - sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf;
    - ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.

2. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol - awdurdodau lleol:
    - mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;
    - cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;
    - gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a
    - gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi derbyn yr adroddiad hwn a byddant yn asesu ei gynnwys yn fwy manwl ar y cyd â'r Aelod Cabinet, er mwyn gweld sut mae'r argymhellion hyn yn berthnasol i waith Cyngor Gwynedd wrth i ni ddarparu gwasanaeth i'n trigolion.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi "wrthi'n cael ei gynllunio".

**12. <u>Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</u>** – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2019

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

Rydym yn argymell bod BGCau:

- yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;
- yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;
- yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac
- yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.

I wella trefniadau craffu, rydym yn argymell:

- bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a
- bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.

I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell:

- bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;
- bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:
  – cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a
  – rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae hi'n ddyddiau cynnar, ond byddwn fel Cyngor, ac aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cyfrannu at y drafodaeth gyda'n partneriaid ynghylch sut i ymateb i'r argymhellion uchod.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi “wrthi’n cael ei gynllunio”.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **28 TACHWEDD 2019** |
| TEITL | **TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDD A GWRTH LWGRWOBRWYO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AM DREFNIADAU ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDD Y CYNGOR, A'R CYNNYDD AR Y RHAGLEN WAITH AM Y TAIR BLYNEDD NESAF** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED A HERIO CYNNWYS YR ADRODDIAD** |

---

**CYFLWYNIAD**

1 Mae "**Risg o Dwyll, Llwgrwobrwyo a/neu Lygredd**" wedi cael ei adnabod fel un o risgiau corfforaethol y Cyngor. Ar hyn o bryd, ystyrir fod hwn yn **risg isel** (sgôr 4) yng nghyd-destun fframwaith llywodraethu'r Cyngor, oherwydd:

- **Sgôr o 2 ar gyfer Effaith** (Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer iawn o drigolion), a
- **Sgôr o 2 ar gyfer Tebygolrwydd** (tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno). Credir fod y tebygolrwydd yn isel gan fod rheolaeth fewnol yn gyffredinol gadarn; mae gwaith Archwilio Mewnol yn cadarnhau hyn.

2 Pwrpas yr adroddiad yma yw:

- Cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am ymchwiliadau twyll y Cyngor.
- Diweddaru'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y cynnydd ar y rhaglen waith Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth Lygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-2022 a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Chwefror 2019
- Cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am datblygiadau cenedlaethol yng nghyd-destun twyll yn erbyn y sector gyhoeddus.

**YMCHWILIADAU TWYLL**

3 Nid yw swyddogion y Cyngor yn ymchwilio i honiadau o dwyll yn ei erbyn ar hyn o bryd. Yn y cyfnod ers 1 Ebrill 2019, mae'r Gwasanaeth Budd-dal wedi cyfeirio 22 o achosion Budd-dal Tai i'r Adran Gwaith a Phensiynau (Llywodraeth DU) am ymchwiliad pellach.

**RHAGLEN WAITH Y STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH LYGREDD A GWRTH LWGRWOBRWYO**

4 Mabwysiadwyd Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth Lygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 14 Chwefror 2019. Mae'r Strategaeth yn cynnwys wyth o weithrediadau dylid eu cyflwyno yn ystod y tair blynedd er mwyn cryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

ADNABOD RISGIAU NEWYDD

**Gweithrediad: Cynnal gweithdai rheolaidd o swyddogion perthnasol i drafod materion sy'n codi, risgiau ymddangosol a rhannu arferion da**

5 Bydd cynnal gweithdy o'r fath er mwyn adnabod meysydd newydd o dwyll potensial (yn ogystal ag asesu'r risgiau yr ydym eisoes yn ymwybodol ohonynt) yn rhan o gynllunio rhaglen waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21, a blynyddoedd dilynol. I'r perwyl hwn, bwriedir cynnal gweithdy o'r fath yn Rhagfyr 2019 neu yn gynnar yn Ionawr 2020, cyn bydd y Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn mynd ati i gyfarfod timoedd rheoli adrannol er mwyn trafod y cynllun archwilio drafft er mwyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Chwefror 2020.

6 Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, byddwn yn rhaglennu cyfarfodydd pob chwe mis i ystyried datblygiadau.

TWYLL GOSTYNGIAD TRETH CYNGOR

**Gweithrediad: Cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu'r gwaith o ymchwilio i dwyll Gostyngiad Treth Cyngor**

7 Mae camau pendant wedi cael eu cymryd i ymdrin â hyn.

8 Mae 3 o swyddogion Budd-dal a 3 o swyddogion Trethi yn gweithio am y cymhwyster CIPFA *Accredited Counter Fraud Technician* (ACFTech) ar hyn o bryd. Mae hwn yn fuddsoddiad arwyddocaol yn ein gweithdrefnau atal twyll. Bydd y cwrs yn edrych ar effaith twyll yn y Deyrnas Gyfunol ac mae'n cynnwys trosolwg o'r systemau cyfiawnder sifil a throseddol. Mae'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o dwyll, sut i gasglu tystiolaeth a sut i olrhain gwybodaeth heb ragfarnu unrhyw ymchwiliad dilynol. Yn ychwanegol, mae'n edrych ar:

- y systemau cyfiawnder sifil a throseddol
- Deddf Twyll 2006 a deddfwriaeth meddiangar arall sy'n ymwneud â thwyll
- Deddf Llwgrwobrwyo 2010
- Mathau o dystiolaeth, rheolau tystiolaeth sylfaenol, cynnal cywirdeb a delio ag arddangosion
- Deddfwriaeth hawliau dynol a'i effaith ar ymchwiliadau
- Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth trefniadol gan gynnwys amddiffyn data, canu'r gloch a datgelu deunydd ymchwiliadol
- Cyfweld tystion â'r rhai a amheuir, a sicrhau datganiadau
- sylfaeni rheoli ymchwiliad.

9 Mae'r cymhwyster wedi cael ei achredu gan y Bwrdd Achredu Gwrth Dwyll Proffesiynol ac ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd y swyddogion yn cael eu hadnabod fel "Technegydd Gwrth Dwyll Achrededig". Bydd hwn yn cam pwysig ymlaen i feithrin y sgiliau a chymwysterau sydd yn angenrheidiol er mwyn i'r Swyddogion Budd-dal allu gweithio'n agosach gydag Ymchwilwyr Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

10 Pan gyflwynwyd y Strategaeth i'r Pwyllgor yn Chwefror 2019, roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau fod Twyll Treth Cyngor yn cael sylw hefyd. Bydd cymhwyso swyddogion Trethi yn eu galluogi i feithrin eu sgiliau ymchwilio twyll hwythau hefyd.

11 Yn ogystal â swyddogion Budd-dal a Threthi, mae dau o'r archwilwyr mewnol hefyd yn dilyn yr hyfforddiant.

CANOLFAN GWRTH DWYLL CIPFA

**Gweithrediad: Parhau i danysgrifio i Ganolfan Gwrth Dwyll CIPFA a gwneud defnydd o'r cyfleuster, gan gynnwys y ffynhonnell adnabod risgiau twyll, er mwyn sicrhau mynediad at ymarfer da**

12 Rydym wedi ymrwymo i fod yn aelodau am y flwyddyn ariannol gyfredol, a disgwyliwn y byddwn yn parhau wedi hynny. Ymhellach, rydym yn anelu i fod yn ragweithiol, ac wedi cyfrannu i ymarferiad “Fraud Tracker” blynyddol y gwasanaeth.

ADRODDIAD PWYLLGOR

**Gweithrediad: Cynnwys eitem ar waith atal twyll ar raglen y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddwywaith y flwyddyn**

13 Ar ôl cyflwyno’r diweddariad yma, disgwyliwn y byddwn yn adrodd i gyfarfodydd Mai a Tachwedd y Pwyllgor, a bydd hyn yn cael ei nodi ar y blaenraglen wrth iddo gael ei ddiweddaru o dro i dro.

14 Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio, CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 2/2/2019 - 31/3/2019 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Mehefin 2019. Roedd yr adroddiad hwnnw’n cynnwys cyfeiriad at adroddiad “***Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth***”. Derbyniodd yr adroddiad farn o lefel sicrwydd “Digonol”. Y prif ddarganfyddiadau oedd:

Dengys yr hunan-asesiad yn erbyn y rhestr wirio bod y Cyngor yn cydymffurfio’n llawn â 22 allan o 34 o’r safonau, gyda 12 yn cydymffurfio’n rhannol.

Mae sawl un o’r safonau yn cyfeirio at Dîm Gwrth-Dwyll. Nid oes gan Gyngor Gwynedd Dîm penodol Gwrth-Dwyll, ond bydd ymchwiliadau i dwyll ac afreoleidd-dra yn cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Ar gyfer awdurdodau lleol sydd gyda thimau gwrth-dwyll pwrpasol, mae ganddynt gynlluniau gwaith penodol ar gyfer cynnal ymchwiliadau i dwyll yn ogystal â gwaith rhagweithiol gwrth-dwyll ac atal llygredigaeth.

Mae’r gwaith o gynnal ymchwiliadau i dwyll yng Ngwynedd yn syrthio ar ysgwyddau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yn y cynllun archwilio blynyddol mae darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer gwaith atal twyll a llygredd ynghyd ag ymarferiad Menter Twyll Cenedlaethol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer 2019-20 yn 40 diwrnod ac mae darpariaeth o 40 diwrnod wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal gwaith ymatebol.

Yn sgil y ffaith nad oes gan Gyngor Gwynedd Dîm Gwrth-Dwyll pwrpasol, golyga hyn nad oes modd cydymffurfio yn gyflawn gyda’r 34 safon.

Mae gweithrediadau eisoes wedi eu hadnabod ar gyfer:

- Cynnal gweithdai a rhannu ymarfer da
- Cydweithio i ddatblygu ymchwiliadau i dwyll
- Adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar waith atal twyll dwywaith y flwyddyn
- Codi ymwybyddiaeth am dwyll ar draws y Cyngor
- Darparu hyfforddiant.

Gwelwyd nad oedd Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrthlygredd 2019-22 ar gael i staff ar hyn o bryd yn y Ganolfan Bolisi.

***Ffynhonnell: Adroddiad Archwilio Mewnol “Trefniadau Rheoli Risg o Dwyll a Llygredigaeth” Mawrth 2019***

15 Roedd yr adroddiad yn cynnwys un camau gweithredu, sef ***Sefydlu Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredd 2019-22 ar y Ganolfan Bolisi***. Mae hynny wedi cael ei wneud.

**Gweithrediad: Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio data'n well er mwyn adnabod ac ymchwilio i dwyll**

***Adolygiad Disgowntiau Treth Cyngor***

16 Y prif gynllun cyfredol ar gyfer defnyddio data i adnabod ac ymchwilio i dwyll yw ymarferiad y Gwasanaeth Trethi i adolygu rhai o'r disgowntiau ac eithriadau a ganiateir i gyfrifon Treth Cyngor y sir.

17 Cynhaliwyd yr ymarferiad cyffelyb diwethaf yn 2016, ond y tro hwn yn hytrach nag un ymarferiad cyfnodol, bydd yr adolygiadau yn digwydd yn barhaus dros dair blynedd. Fel rhan o'r gwaith, bydd y Cyngor yn sicrhau mai dim ond y cartrefi hynny sydd â hawl i eithriad neu ddisgownt fydd yn ei dderbyn, gan gynnwys y disgownt Treth Cyngor i berson sengl sydd yn ostyngiad o 25% yn y swm taladwy.

18 Er mwyn gosod cyd-destun i'r gwaith yma, mae ymchwil diweddar wedi datgelu mai hawliadau ffug am Ddisgownt Person Sengl ydi'r trydydd math mwyaf cyffredin o dwyll sy'n cael ei weithredu gan oedolion yng Nghymru. Comisiynwyd y gwaith ymchwil gan Cifas ac fe'i cynhaliwyd gan gwmni WPI Economics.

19 Sefydliad yw Cifas sy'n dod ag aelodau sy'n gweithio mewn nifer o ddiwydiannau ynghyd yn y frwydr yn erbyn twyll. Fe'i sefydlwyd i ddechrau yn 1988 gan saith cwmni credyd adwerthu, ac erbyn hyn mae wedi tyfu i dros 400 o aelodau o wahanol sectorau megis bancio, adwerthu, yswiriant, morgeisi a darparwyr cardiau credyd. Y nod yw rhannu gwybodaeth am dwyll a manylion ymddygiad twyllodrus o'r sector cyhoeddus a phreifat ar y Bas Data Twyll Genedlaethol, yr unig lwyfan rhannu data traws-sector yn y DU, i helpu i atal twyll pellach.

20 Roedd astudiaeth WPI Economics ar edrych yn benodol ar "dwyll parti cyntaf", hynny yw, twyll a gyflawnir gan ddefnyddwyr, yn hytrach na thwyll a gyflawnir gan weithwyr neu droseddwyr oedd wedi dwyn hunaniaeth rhywun arall. Yn yr astudiaeth, holiwyd 2,070 o oedolion ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban (gan gynnwys 99 yng Nghymru) ym Mawrth 2019 (gan gwmni arbenigol ComRes).

21 Cyflwynwyd 10 senario i'r unigolion yn y sampl, a gofynnwyd iddynt os oeddynt hwy, neu rhywrai yr oeddynt yn eu hadnabod, wedi cyflawni'r twyll yn y 10 senario. Gofynnwyd iddynt hefyd os ydi cyflawni'r mathau hyn o dwyll yn rhesymol. Ar y cyfan, roedd un o bob saith (14%) ymatebwr unai'n cyfaddef cyflawni un neu fwy o'r mathau hyn o dwyll eu hunain, neu yn adnabod rhywun oedd wedi.

22 Ar draws pob lleoliad, oedran, rhyw, a grŵp economaidd-gymdeithasol, roedd dau fath o dwyll ymhell y tu hwnt i'r gweddill o ran mynychder a chael eu gweld yn rhesymol, sef "Deshopping" (prynu eitem o'i ddillad, ei wisgo unwaith ac yna'i ddychwelyd i'r cyflenwr gan honni nad yw'n addas) a "Fronting" (cymryd polisi yswiriant car allan yn enw rhywun sydd ddim yn brif yrrwr, fel arfer rhiant ar ran person ifanc). Roedd 44% o'r ymatebwyr unai wedi cyflawni "Deshopping" eu hunain, neu'n adnabod rhywun oedd wedi, gyda'r ffigwr cyfatebol ar gyfer "Fronting" yn 41%.

23 Fodd bynnag, o gymryd y sampl gyfan, y trydydd uchaf o ran mynychder oedd hawlio disgownt Treth Cyngor personol sengl pan oedd mwy nag un person atebol ar yr aelwyd. Roedd 25% o bobl yn y sampl cyfan (Cymru, Lloegr a'r Alban) yn cyfaddef eu bod nhw neu rhywun yr oeddynt yn eu hadnabod wedi cyflawni'r math yma o dwyll – ac roedd 10% o'r farn fod cyflawni'r math yma o dwyll yn resymol. Wrth gymryd Cymru ar wahân, roedd y ffigwr mynychder yn cynyddu i 31%. Hynny yw, roedd bron i 1 o bob 3 person yng Nghymru yn y sampl unai wedi hawlio disgownt person sengl yn dwyllodrus eu hunain neu yn adnabod rhywun oedd wedi. Mae ffigwr Cymru ychydig yn is na'r Alban (sydd yn 33%), ond yn uwch nag ym mhob un o ranbarthau Lloegr.

24 Mae hyn yn dangos fod twyll disgownt person sengl yn gyffredin ac yn digwydd yn gyson – a nid oes unrhyw rheswm i feddwl fod Gwynedd yn wahanol i weddill Cymru.

25 Ar hyn o bryd, mae bron i 18,000 o gartrefi Gwynedd yn derbyn disgownt person sengl Treth Cyngor 25% sy'n cael ei ddyfarnu pan nad oes ond un oedolyn yn byw mewn eiddo.

26 Felly, er mwyn sicrhau bod pob eithriad a disgownt a ganiateir yn gywir, bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio â chwmni Datatank, darparwr gwasanaeth blaenllaw sy'n arbenigo yn y math hwn o adolygiadau, sydd wedi gweithio gyda'r Cyngor yn y gorffennol. Bydd yr adolygiad yn cadarnhau'r disgownt ar gyfer hawlwyr gwirioneddol a nodi'r bobl hynny sy'n hawlio gostyngiad person sengl o 25% ar eu Treth Cyngor pan nad ydynt yn gymwys i'w dderbyn.

27 Os darganfyddir hawliadau anghywir, bydd y Cyngor yn diweddu'r hawliadau, ysgrifennu at y trethdalwyr ac yn ceisio adennill y gostyngiad.

***Menter Twyll Genedlaethol***

28 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer cydweddu data sy'n helpu cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ledled y DU.

29 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data bob ddwy flynedd ar hyd a lled sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll a gordaliadau. Nid oes ymarferiad NFI llawn yn cael ei gynnal yn ystod 2019/20 – roedd un yn 2018/19 a bydd un arall yn 2020/21. Fodd bynnag, cynhelir adolygiad blynyddol sy'n cymharu data disgownt person sengl Treth Cyngor gyda'r gofrestr etholiadol. Bydd y data'n cael ei lwytho i'r system NFI ar 2 Rhagfyr.

30 Mae cytundeb y Cyngor gyda Datatank yn golygu y bydd adolygiad misol yn digwydd, sydd yn edrych ar fwy o ddata na'r gofrestr etholiadol yn unig (er, mae'n debygol y bydd gwybodaeth y gofrestr etholiadol yn gyfredol o ystyried fod Etholiad Cyffredinol ar 12 Rhagfyr). Fel rhan o'r gytundeb, bydd Datatank yn cymharu canlyniad yr ymarferiad NFI gyda'u canlyniadau eu hunain er mwyn diweddaru gwybodaeth.

<u>DATBLYGIADAU NEWYDD</u>

**Gweithrediad: Bydd y Cyngor yn effro i'r risg o dwyll gyda datblygiadau newydd o fewn y Cyngor**

31 Mae gweithredu hwn yn mynd law-yn-llaw â'r gwaith i gryfhau a datblygu trefniadau rheoli risg y Cyngor. O gael hwnnw yn ei le, dylai ddod yn naturiol i swyddogion nodi datblygiadau newydd o fewn y gofrestr. Mae'n bwysig nodi nad twyll ydi prif risg y mwyafrif o ddatblygiadau, ond rhaid bod yn ymwybodol fod twyll potensial i'w gael mewn unrhyw sefyllfa lle mae arian yn trosglwyddo.

<u>CODI YMWYBYDDIAETH</u>

**Gweithrediad: Sefydlu Tîm Tasg a Gorffen i adnabod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth am dwyll ar draws y Cyngor**

32 Nid yw hyn wedi digwydd eto. Anelir i'w weithredu yn ystod chwarter 4 y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Gweithrediad: Bod yn ragweithiol drwy fynychu digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan gyrff proffesiynol, a/neu darparu hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn uchafu effeithiolrwydd**

33 Nodir uchod fod nifer o swyddogion y Cyngor yn dilyn cwrs hyfforddiant Technegydd Gwrth Dwyll Achrededig. Yn ogystal â hynny, bu i ddau o swyddogion Archwilio Mewnol fynychu'r digwyddiad "Gweithio mewn partneriaeth i frwydro yn erbyn twyll" a drefnwyd gan y Gyfnewidfa Ymarfer Da (rhan o Swyddfa Archwilio Cymru) yn Llanrwst ym mis Mai 2019. Bydd yr hyn a ddysgwyd, a deunydd y cwrs, yn gymorth wrth gynllunio gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21.

**CYD-DESTUN CENEDLAETHOL**

34 Ym mis Tachwedd 2018, gofynnodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygu'r sefyllfa o safbwynt twyll yn erbyn y sector gyhoeddus yng Nghymru.

35 Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, "***Trefniadau Atal Twyll yn Sector cyhoeddus Cymru – Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus***", ym Mehefin 2019. Gan mai pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nid yw'r cynnwys argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'n adroddiad sy'n rhoi darlun o'r mathau o dwyll y gellid eu cyflawni yn erbyn y sector gyhoeddus yng Nghymru, a'r trefniadau sydd yn eu lle o fewn y gwahanol fathau o gyrff cyhoeddus.

36 O safbwynt llywodraeth leol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad:

> Mae 22 o awdurdodau lleol unedol yng Nghymru. Mae pob un yn gorff corfforaethol sy'n gyfrifol am ymarfer y swyddogaethau a ddatganolwyd iddynt o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
>
> Mae'r cynghorau etholedig hyn yn gyfrifol am lunio polisïau a phennu blaenoriaethau gwario. Yn unol â hynny, mae pob cyngor yn pennu faint o adnoddau i'w dyrannu i'r gwaith o atal twyll a pha bolisïau a strategaethau y maent yn dymuno eu dilyn.
>
> Mae'r dirwedd atal twyll ar draws llywodraeth leol yn amrywio fawr (*sic*) o'r GIG a llywodraeth ganolog yng Nghymru. Nid oes tîm Cymru gyfan sy'n gyfrifol am atal twyll ar lefel llywodraeth leol na strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi chwaith. Mae'r trefniadau'n amrywio'n eang o gyngor i gyngor.

***Ffynhonnell: Trefniadau Atal Twyll yn Sector cyhoeddus Cymru – Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019***

37 Mae copi o'r adroddiad llawn i'w gael yma:

**http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Counter%20fraud%20arrangements%20-%20welsh.pdf**

38 Ar 1 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddigwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn rhannu cymorth, arfer da a gwybodaeth am wrth-dwyll yn y sector cyhoeddus. Ystyriwyd y canlynol yn ystod y digwyddiad:

- sut mae sefydliadau allweddol (Llywodraeth Cymru, yr heddlu, y GIG, Llywodraeth leol, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ac ati) yn rhyngweithio ac yn hyrwyddo diwylliant a pholisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd effeithiol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- sut ac i ba raddau y mae adnoddau yn cael eu dyrannu i ganfod ac atal twyll a llygredd yn y cyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol yng nghyd-destun pwysau ariannol ehangach; a

- mesur cyfanswm yr hyn a gollir ar draws y cyrff a archwilir oherwydd twyll a llygredd a defnyddio dull astudiaeth achos i ddadansoddi achosion o golledion sylweddol.

39 Yn sgil digwyddiad 1 Gorffennaf, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Lywodraeth Cymru. Mae copi o'r llythyr i'w gael yma: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s93429/Llythyr%20gan%20Gadeirydd%20y%20Pwyllgor%20at%20yr%20Ysgrifennydd%20Parhaol%20Llywodraeth%20Cymru%20-%2027%20Awst%202019.pdf, ond rhai o'r pwyntiau a godwyd oedd:

- "Mae'r adnoddau a neilltuir i weithgarwch gwrth-dwyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- Mae GIG Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn gweithgarwch gwrth-dwyll cenedlaethol a lleol;
- Mae gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymchwilio i dwyll, yn hytrach na'i atal; ac
- ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, mae trefniadau o ran adnoddau gwrth-dwyll yn amrywio llawer o un cyngor i'r llall ac nid oes tîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau gwrth-dwyll llywodraeth leol nac unrhyw strategaeth neu fframwaith polisi trosfwaol."

"O ran llywodraeth leol, roeddem yn arbennig o bryderus clywed nad oes gan y mwyafrif o gynghorau bellach dîm gwrth-dwyll pwrpasol ledled y cyngor, ac yn lle hynny, mae'r rôl gwrth-dwyll mewn llawer o gynghorau wedi'i dynodi i unedau Archwilio Mewnol. Nid yw pob tîm archwilio mewnol wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn y maes arbenigol hwn, ac nid oes gan lawer o dimau brofiad gwrth-dwyll."

"Hoffem weld rhagor o gydweithio a gaiff ei arwain ar lefel genedlaethol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ac arfer da ag awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, nid oes grŵp cyffredinol na rhwydwaith proffesiynol sy'n hyrwyddo gwrth-dwyll yn benodol ym maes llywodraeth leol. Mae gan gynghorau rai cysylltiadau â CIPFA ac maent yn aml yn defnyddio gwybodaeth gyhoeddedig y sefydliad (er enghraifft, y 'Strategaeth Ymladd Twyll yn Lleol'). Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o gynghorau'n tueddu i ymgysylltu'n weithredol â CIPFA. Ar sail cost, dim ond dau gyngor sydd ar hyn o bryd yn tanysgrifio i'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael gan Ganolfan Gwrth-Dwyll CIPFA."

"Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried a oes posibilrwydd a chwmpas ar gyfer cefnogi tîm gwrth-dwyll cenedlaethol i weithio ledled Cymru i sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn ymgymryd ag o leiaf lefel sylfaenol o waith gwrth-dwyll ym mhob ardal awdurdod lleol."

"Mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i graffu ar arferion gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a chaiff ei galonogi yn arbennig bod yr Archwilydd Cyffredinol, gan adeiladu ar ei adolygiad cychwynnol o'r tirwedd gwrth-dwyll, yn bwriadu ymgymryd â gwaith archwilio lleol ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i edrych yn fanwl ar ba mor effeithiol yw eu trefniadau gwrth-dwyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella".

***Ffynhonnell: Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (CCC), Awst 2019***

40 Mae ymateb yr Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru yma: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s94312/Llythyr%20gan%20yr%20Ysgrifennydd%20Parhaol%20i%20Gadeirydd%20y%20Pwyllgor-%2024%20Medi%202019.pdf. Yn ei hymateb, mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn nodi:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn llwyr gefnogi awdurdodau lleol i roi sylw i dwyll o fewn eu £8 biliwn o wariant refeniw cyffredinol. Fel sefydliadau annibynnol dan arweiniad democrataidd, y 22 cyngor eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am ganfod ac atal twyll. Yn unol â hynny, rydym yn disgwyl pob un ohonynt i ymroi'n llwyr i'r gwaith hwn, ac i wleidyddion lleol ddeall a darparu arweiniad. Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr argymhelliad yn cael ei ddeall ac yn cael blaenoriaeth, bydd swyddogion yn codi'r mater gyda'r Gweinidogion i sicrhau eitem ar agenda'r Cyngor Partneriaeth yn ogystal â'i Is-bwyllgor Cyllid. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, byddwn yn gosod eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf posib."

"Felly, rwy'n credu y gall Llywodraeth Cymru sicrhau'r canlyniad y mae'n ei ddymuno drwy nodi strategaethau i gefnogi gwaith y Fforwm [Twyll Cymru], codi ei broffil ymysg sector cyhoeddus Cymru a cheisio cael lefel uchel o ymrwymiad ganddynt i'w gefnogi. Byddaf yn gofyn i'r Swyddogion ymgysylltu a'r Fforwm i drafod strategaethau ar gyfer gryfhau'r ei effeithiolrwydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon".

> “[Rwy’n] mynd i ysgrifennu gyda’r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol”

***Ffynhonnell: Llythyr Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Medi 2019***

41 Mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cymeradwyo cynnig yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiad Cam 2 dilynol ar draws amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus Cymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella.

42 Bydd yr adolygiad Cam 2 yn rhoi sylw i’r cwestiwn cyffredinol canlynol: ‘**A yw’r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn sector cyhoeddus Cymru yn effeithiol**?’ Yn fwy penodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y materion canlynol:

- A yw’r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu’r arweinyddiaeth angenrheidiol i ymladd twyll?
- A oes gan y sefydliad strwythur addas ac adnoddau medrus digonol i atal a chanfod twyll?
- A oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau atal twyll effeithiol?
- A oes gan y sefydliad asesiad risg o dwyll effeithiol ynghyd ag ymatebion priodol i broblemau sy’n codi?
- A yw amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll?
- A oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll?
- A oes gan y sefydliad drefniadau adrodd a chraffu priodol ar waith i sicrhau bod ei ddiwylliant a’i fframwaith atal twyll yn gweithredu’n effeithiol?

43 Yn ôl SAC:

> “Ein nod yw cyhoeddi ein hadroddiad Cam 2 ym mis Mehefin 2020. Bydd yr adroddiad cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar y negeseuon allweddol yn hytrach na disgrifio’n fanwl neu gynnig dyfarniadau ar y trefniadau gwirioneddol sydd ar waith mewn cyrff a archwiliwyd. Wedi dweud hynny, rydym yn rhagweld y bydd ein timau archwilio lleol yn darparu adborth wedi’i deilwra i gyrff a archwiliwyd er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau.”

***Ffynhonnell: Briff i Gleientiaid: Adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau atal twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Medi 2019***

44 Mae cais am wybodaeth wedi cael ei gyflwyno i’r Pennaeth Cyllid ym mis Hydref, a’r wybodaeth a ofynnwyd amdano wedi cael ei gyflwyno. Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi amserlen SAC i adrodd ar y canlyniadau; gall hwn fod yn destun newid wrth gwrs, a byddwn yn adroddiad i’r Pwyllgor ar ganlyniad y gwaith, ac yn arbennig unrhyw faterion sy’n benodol i Cyngor Gwynedd.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **28 TACHWEDD 2019** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 15 TACHWEDD 2019** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 7 Hydref 2019 hyd 15 Tachwedd 2019.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 15 Tachwedd 2019:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 15 Tachwedd 2019, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cytundebau Adran 106 | Amgylchedd | Cynllunio | Digonol | Atodiad 1 |
| Grant AHNE | Amgylchedd | Uned Cefn Gwlad a Mynediad | Uchel | Atodiad 2 |
| Rôl Cyngor Gwynedd mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol | Cyllid | Refeniw | Uchel | Atodiad 3 |
| Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Uchel | Atodiad 4 |
| Costau Gwely a Brecwast | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Digartrefedd a Thai Cefnogol | Digonol | Atodiad 5 |
| Plas Pengwaith | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 6 |
| Bryn Blodau | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 7 |
| Llys Cadfan | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Digonol | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 18 Tachwedd 2019:

- Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Goramser *(Corfforaethol)*
- 5 Ffordd o Weithio *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Diwylliant a Moeseg *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- GwE – Costau Teithio *(Addysg)*
- Penodi a Chostau Athrawon Llanw – Uwchradd *(Addysg)*
- Cyfrifon Ymddiriedolaeth *(Addysg)*
- Ysgolion Cyffredinol *(Addysg)*
- Ysgol Pendalar *(Addysg)*
- Ysgol Hafod Lon *(Addysg)*
- Uned Diogelwch y Ffyrdd *(Amgylchedd)*
- Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cronfa'r Degwm *(Economi a Chymuned)*
- ARFOR *(Economi a Chymuned)*
- Iechyd a Diogelwch Harbyrau *(Economi a Chymuned)*
- Mesurau Diogelwch Parc Padarn *(Economi a Chymuned)*
- Defnydd o Ffurflenni P6 *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Rheoli Absenoldebau *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Plas Gwilym *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cyfrifon Clybiau Ieuenctid *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Taliadau i Ofalwyr Maeth *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Hafan y Sêr *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 7 Hydref 2019 hyd at 15 Tachwedd 2019, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

## CYTUNDEBAU ADRAN 106

### 1. Cefndir

1.1 Mae rhwymedigaethau cynllunio dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ffordd o liniaru effeithiau negyddol datblygiadau cynllunio drwy orfodi datblygwyr i gynnwys gwaith penodol fel rhan o'r cynllun, neu i gyfrannu yn ariannol tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio, mewn achosion ble nad yw capasiti yr isadeiledd presenol yn ddigonol i ymdopi a'r datblygiad.

1.2 Mae'n rhaid i'r rhwymedigaethau cynllunio fod yn angenrheidiol ar gyfer troi datblygiadau na fyddai'n dderbyniol fel arall, yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Yn ogystal, rhaid i'r rhwymedigaethau fod yn deg a bod sail tystiolaeth ar eu cyfer. Golygai hyn na ellir gosod rhwymedigaethau ar bob datblygiad gyda'r bwriad o greu incwm, dim ond ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol y datblygiadau.

1.3 Er bod angen trin pob cais cynllunio ar wahân, mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), wedi ei ategu gan gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol, yn cynnwys polisïau cynllunio i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau i ddatblygu a defnyddio tir yn ardal y CDLl yng Ngwynedd a Môn, gan gynnwys y defnydd o gytundebau cyfreithiol adran 106 a gosod sail gyson i'r rhwymedigaethau.

1.4 Mae'r amrediad o fathau o ddatblygiadau a all fod yn destun rhwymedigaeth cynllunio yn amrywiol. Dylid nodi na fydd nifer o rwymedigaethau cynllunio yn gallu cael eu categoreiddio'n dwt ac, felly, bydd yr Awdurdodau Cynllunio yn ystyried pob bwriad datblygu yn ôl ei rinweddau ei hun. Er bod y rhestr a ganlyn yn rhoi syniad o'r prif gategorïau, ni chânt eu rhestru mewn unrhyw drefn benodol o flaenoriaeth, nid yw'r rhestr ychwaith yn un cynhwysfawr. Mae categorïau rhwymedigaeth yn ymwneud â:

- Tai Fforddiadwy
- Hyfforddiant a Cyflogaeth
- Trafnidiaeth
- Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- Cyfleusterau Cymunedol (gan gynnwys Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden)
- Llecynnau Agored a Hamdden
- Yr Amgylchedd
- Cyfleusterau Gofal Iechyd
- Yr Iaith Gymraeg
- Tir y Cyhoedd
- Isadeiledd Band Eang
- Ailgylchu a Gwastraff
- Addysg
- Rheoli Risg Llifogydd

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle wrth osod rhwymedigaethau cynllunio adran 106 er mwyn lliniaru effeithiau negyddol datblygiadau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o rwymedigaethau datblygiadau, gan sicrhau eu bod yn briodol ac wedi eu gwireddu.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Detholwyd sampl o ddatblygiadau cynllunio oedd yn destun cytundebau adran 106 dros y 5 mlynedd diwethaf, a hynny er mwyn cynnwys datblygiadau sydd wedi'i cwblhau. Roedd y sampl yn cynnwys cytundebau gyda rhwymedigaethau â chyfraniadau ariannol at e.e. darpariaeth addysg, llecynnau agored a thrafnidiaeth, yn ogystal a datblygiadau ble nad oedd cyfraniad ariannol ynghlwm e.e. darpariaeth o dai fforddiadwy.

5.2 Gwiriwyd y rhesymeg tu ôl y rhwymedigaethau cynllunio penodol gan sicrhau bod cyfiawnhad a thrywydd archwilio ar eu cyfer, megis sut cyfrifwyd y cyfraniadau ariannol neu'r nifer o dai sydd i fod yn fforddiadwy, a gwelwyd eu bod yn briodol ac yn unol â'r Canllaw Cynllunio Atodol perthnasol. Gwelwyd fod costau cyfreithiol a monitro wedi eu talu gan yr ymgeisydd.

5.3 Oherwydd bod y sampl yn cwmpasu cyfnod hir, roedd modd gwirio bod y Cyngor wedi defnyddio unrhyw gyfraniad ariannol yn briodol ac yn unol â'r cytundebau, hynny yw, er mwyn ariannu gwaith sy'n lliniaru effeithiau negyddol y datblygiadau. Mae rhaid i unrhyw waith caiff ei wneud i liniaru'r effeithiau negyddol gael ei gymeradwyo o flaen llaw gan yr Arweinydd Tim Gorfodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r cytundeb, a rhaid i'r gwaith orffen cyn derbyn yr arian. Gwelwyd o'r cyfriflyfr bod arian dderbyniwyd rhai blynyddoedd yn ôl ar gyfer sawl datblygiad yn parhau heb ei wario, er gwaethaf ymdrechion y Gwasanaeth Cynllunio i annog mudiadau megis Cynghorau Cymuned i'w gwario. Gall hyn greu risg o orfod talu yr arian yn ôl i'r datblygwyr, gyda llôg.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Atgoffa'r partïon perthnasol bod angen cynllunio i wario yr arian sy'n deillio o gytundebau adran 106.**

Atodiad 2

**GRANT AHNE**

**1. Cefndir**

1.1 Sefydlwyd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru yn 2001 fel rhan o'r gefnogaeth barhaus i dirluniau gwarchodedig megis y 5 o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn Nghymru. Mae Cronfa flynyddol o £55,000 yn darparu cymorth grant ar gyfer prosiectau amgylcheddol, economaidd a chymunedol arloesol sy'n annog a datblygu ffyrdd o fyw yn fwy cynaliadwy oddi fewn yr AHNE ym Mhenrhyn Llŷn. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal ym mhob un o'r 5 AHNE yn Nghymru.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas yn bodoli er mwyn rheoli a gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a bod taliadau yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau'r gronfa a rheolau'r Cyngor. Er mwn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o brosiectau a gwirio fod y camau priodol a chywir wedi eu dilyn drwy gydol y broses o ariannu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae'r grant wedi rhedeg yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda llawer o ddiddordeb yn flynyddol yn sicrhau fod yr holl arian sydd ar gael yn cael ei neilltuo i ymgeiswyr. Mae tua 20 o brosiectau llwyddiannus wedi derbyn cymorth yn flynyddol dros y 3 mlynedd ddiwethaf.

5.2 Mae nifer o geisiadau am grant yn cael eu derbyn yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn a chlustnodir yr arian sydd ar gael ar gyfer y prosiectau llwyddiannus. Ni dderbynnir rhagor o geisiadau oni bai fod un o'r ceisiadau llwyddiannus yn tynnu yn ôl yn fuan, fel arfer cyn diwedd chwarter 3 er mwyn sicrhau digon o amser i ymgeisydd baratoi a chyflwyno cais a chwblhau eu prosiect cyn diwedd y flwyddyn.

5.3 Mae gan swyddogion y Gwasanaeth AHNE yr hawl i ddyfarnu ceisiadau hyd at uchafswm o £3,000. Ar gyfer ceisiadau am symiau uwch mae panel yn cwrdd er mwyn eu trafod ac unai eu cymeradwyo neu eu gwrthod. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolaeth o Gynghorau Cymuned a grwpiau eraill lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae system sgorio a Meini Prawf wedi ei osod gan y Llywodraeth, ac yn cael ei ddilyn.

5.4 Yn ôl y cyfriflyfr a manylion y Gronfa mae'r cyfanswm o £55,000 wedi ei ddyrannu'n llawn ar gyfer y 3 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag gwelwyd fod hyn yn cynnwys ffigwr sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer 'Hawliad y Gwasanaeth' er mwyn gweinyddu'r grant. Mae'r Llywodraeth yn caniatáu hyd at 10% o'r Gronfa i gael ei ddefnyddio ar gyfer gweinyddiaeth ond mae Gwynedd wedi hawlio llai na gynigir er mwyn ariannu mwy o brosiectau. Ymddengys fod y swm yn cael ei gyfrifo yn ddibynnol ar y gwahaniaeth rhwng cyfanswm y gronfa a'r swm a hawliwyd yn derfynol gan yr ymgeiswyr llwyddiannus.

5.5 Gwneir taliadau i'r ymgeiswyr llwyddiannus o gyllideb yr Adran cyn i gais gael ei gyflwyno i'r Llywodraeth er mwyn adhawlio'r cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn. Er mwyn derbyn taliad mae angen i'r ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth megis anfonebau/derbynebau a lluniau ac os oes angen mae'r Swyddogion AHNE hefyd yn ymweld er mwyn gwirio fod gwaith wedi ei gyflawni i'r safonau gofynnol.

5.6 Mae amrywiaeth eang yn y ceisiadau a dderbynnir ac oherwydd llwyddiant y gronfa a'r swm sydd ar gael nid oes angen wedi bod i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo i ledaenu'r neges.

5.7 Gwelwyd fod trefniadau gweinyddol Gwasanaeth AHNE Gwynedd yn effeithiol ond nid oes cadarnhad wedi ei dderbyn bod y Llywodraeth am barhau gyda'r cynllun yn 2020 a thu hwnt. Nid oes sicrwydd tymor hir wedi ei ddarparu gan y Llywodraeth ers nifer o flynyddoedd bellach ac o ganlyniad nid oes llawer o ymrwymiad wedi bod i addasu gweinyddiaeth a'r trefniadau dyfarnu'r ceisiadau.

5.8 Nid oes arweiniad pendant yn cael ei roi gan y Llywodraeth ynglŷn a chyfnod cadw dogfennau. O ganlyniad mae manylion personol unigolion yn cael eu cadw am gyfnodau hir a llawer o ddogfennau a ffeiliau angen storfa i'w cadw.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Swyddog Gwasanaeth AHNE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cysylltu â'r Llywodraeth er mwyn derbyn arweiniad ar y cyfnodau cadw angenrheidiol cyn dinistrio'r dogfennau.**

Atodiad 3

**RÔL CYNGOR GWYNEDD MEWN PERTHYNAS Â CHREDYD CYNHWYSOL**

**1. Cefndir**

1.1 Ers 12 Rhagfyr 2018, mae Gwynedd yn ardal wasanaeth Credyd Cynhwysol Llawn. Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd sy'n cefnogi pobl ar incwm isel neu'n ddi-waith ac wedi cymryd lle'r 6 budd-dal oed gwaith megis Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gan y Cyngor drefniadau addas mewn lle i ddelio â chyflwyniad, newidiadau a throsglwyddiadau o daliadau budd-dal hanesyddol i daliadau Credyd Cynhwysol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu'r camau mae'r Cyngor wedi'u cymryd i ddelio â newidiadau i hwyluso'r drefn i gwsmeriaid sydd yn gymwys a/neu yn trosglwyddo drosodd i'r drefn newydd.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad o rôl Cyngor Gwynedd mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal gweithdai ymgysylltu chwarterol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban gydag awdurdodau lleol mewn canolfannau Adran Gwaith a Phensiynau. Nôd y gweithdai yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gredyd cynhwysol ac i gael mewnwelediad ac adborth gan awdurdodau lleol. Nododd y Rheolwr Budd-daliadau bod aelodau o'r Cyngor wedi mynychu'r gweithdai hyn ac yn parhau i wneud. Darganfuwyd bod y Cyngor wedi derbyn y 'Full service support pack' Fersiwn 20, sydd wedi'i gynllunio i helpu awdurdodau lleol gefnogi staff sydd mewn rolau yn cael eu heffeithio gan gyflwyniad Credyd Cynhwysol.

4.2 Fe wiriwyd gwefan y Cyngor a gwelwyd bod gwybodaeth gywir a phriodol ar gael i aelodau'r cyhoedd sydd yn nodi newidiadau Credyd Cynhwysol. Gwelwyd bod gwybodaeth megis sut i wneud cais, amser prosesu ceisiadau ac unrhyw oediadau, taliadau misol, gwybodaeth i landlordiaid ayb wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn ogystal â phecyn 'Credyd Cynhwysol a Chi' a linc o wefan y Cyngor i wefan y Llywodraeth am fanylion pellach.

4.3 Ymddengys bod y Cyngor yn darparu cyfleusterau priodol a digonol ar gyfer gweithredu ar y newidiadau Credyd Cynhwysol gan fod y gwasanaeth yn darparu mynediad am ddim i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd ar wahanol safleoedd ledled Gwynedd. Bydd staff wedi'u hyfforddi ar gael i helpu i lenwi'r ceisiadau mewn rhai safleoedd neu gall drigolion ddefnyddio'r cyfrifiaduron am ddim heb gefnogaeth mewn safleoedd eraill. Gwelwyd bod y wybodaeth yma i gyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor, gan gynnwys rhestr o'r holl safleoedd sydd ar gael.

4.4 Darganfuwyd bod hyfforddiant wedi ei gynnal yn benodol ar Gredyd Cynhwysol yn y flwyddyn gyfredol a mis Tachwedd 2018 ar sut i wneud ceisiadau credyd cynhwysol ar-lein, hyfforddiant theori credyd cynhwysol, diweddariadau a cheisiadau cymhleth. Gwelwyd bod staff priodol megis Budd-daliadau, Treth Cyngor a swyddogion digartrefedd wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant ar Gredyd Cynhwysol. Mae hyn yn sicrhau bod holl staff rheng flaen wedi derbyn gwybodaeth a hyfforddiant perthnasol ar gyfer delio ag ymholiadau a chyfeirio'r cyhoedd i'r man priodol am fwy o gymorth neu wybodaeth. Yn ogystal, nododd y Rheolwr Budd-daliadau bod staff Siopau Gwynedd a'r Llyfrgelloedd wedi derbyn hyfforddiant ar effeithiau Credyd Cynhwysol ar gyfer delio gydag ymholiadau.

4.5 Eglurodd y Rheolwr Budd-daliadau roedd gan y Cyngor gytundeb ariannu ar gyfer gwaith darparu cymorth ariannol a digidol i gwsmeriaid ("Universal Support"), ond bu i hynny ddod i ben ym mis Ebrill 2019 pan fu i CAB[1] dderbyn y contract gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gwelwyd bod y Cyngor yn derbyn 'New Burdens Allocation Funding', ac eglurodd y Rheolwr Budd-daliadau ei fod yn cael ei dalu i gynghorau ar gyfer gwahanol agweddau o'r gwaith ychwanegol mae Credyd Cynhwysol yn ei greu ac nad oes unrhyw ofyn iddynt i ddarparu data ar gyfer yr arian yma, gan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio fformiwla eu hunain i ddyrannu'r arian.

[1] Citizens Advice Bureau

**CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog Prydain. Gweinyddir yr amgueddfa gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Gan mai elusen yw'r Amgueddfa, sydd yn 2018-19 wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 diolch i grant gan y Llywodraeth, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon 2018-19 yr Amgueddfa, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynwir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

Atodiad 5

## COSTAU GWELY A BRECWAST

### 1. Cefndir

1.1 Mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu'n wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Gwelwyd cynnydd o 36% yn y galw am y gwasanaeth ers 2014/15, ac mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau. Prif achosion digartrefedd yng Ngwynedd yw colli llety, gadael carchar, rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach, perthnasau yn chwalu a thrais yn y cartref. Mae nifer uchel o bobl sydd yn cyflwyno'u hunain fel pobl ddigartref yn bobl sengl, ac mae gorddefnydd o adnodd gwely a brecwast yn cael eu defnyddio i'w cefnogi, yn hytrach nag unedau sefydlog.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu ceisiadau digartrefedd ble lleolir ymgeiswyr mewn llety gwely a brecwast. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu cyfran o achosion perthnasol ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn ystod 2018-19, ble edrychir ar ddilysrwydd yr unigolion i dderbyn y gwasanaeth, gwirio bod swyddogion wedi derbyn yr hyfforddiant priodol, trefniadau cyllidebol a mesur perfformiad y gwasanaeth ynghyd â'r mesurau sydd mewn lle i leihau'r gost i'r Cyngor.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill ledled Gogledd Cymru i greu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol. Cefnogir hyn gan Gynllun Gweithredu Darpariaeth Leol i ymateb i'r problemau yng Ngwynedd ac adnabuwyd yn yr Adolygiad Digartrefedd 2018. Cafodd y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2018 ac o dan Thema 2 o'r Cynllun Gweithredu Lleol, mae'r flaenoriaeth i leihau'r defnydd o lety dros dro a 'Gwely a Brecwast'.

5.2 Derbyniwyd rhestr o ymgeiswyr digartref ar gyfer 2019/20 gan y gwasanaeth ac allan o'r 181 o ymgeiswyr yn ardal Arfon, ymddengys nad oedd cofnod bod asesiad wedi cael ei gynnal ar gyfer 20. Gwiriwyd y 20 ymgeisydd yma yn erbyn y system ddigartrefedd, 'Academy Housing' a gwelwyd eu bod wedi cael eu cyfeirio yn brydlon neu fod cymorth wedi ei roi cyn cau'r ceisiadau.

5.3 Detholwyd sampl o 23 o daliadau costau Gwely a Brecwast (o'r llyfr arian, cyfrif VD02 4038) i'w harchwilio a gwelwyd bod anfoneb ar gyfer pob taliad. Gwiriwyd ffeiliau'r ymgeiswyr cysylltiedig â'r anfonebau/a gafodd eu dyrannu i'r llety, er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi eu lleoli mewn llety gwely a brecwast fel argyfwng neu fel dewis olaf, ond yno am gyfnod hyd at 6 wythnos ar y mwyaf a bod yr anfoneb yn ddilys i gael ei thalu. Darganfuwyd nad yw'r system 'Academy Housing' yn addas i bwrpas y gwasanaeth gan na welwyd cofnod ar gyfer un ymgeisydd ar y system ac nad oedd yn bosib dilyn 9 allan o 21 o'r sampl yn ôl i'r system, ble roedd yr unigolion ar y system ond nad oedd unrhyw gofnod llety gwely a brecwast yn cyd-fynd â'r sampl o anfonebau ar eu cyfer. Er hynny, darganfuwyd bod y gwasanaeth yn defnyddio'r system 'Housing Invoicing' ar gyfer adnabod a chadw cofnod o anfonebau. Gwelwyd bod yr holl anfonebau yn y sampl heblaw am un, wedi eu gofnodi yn gywir ar y system yma.

5.4 Gwiriwyd y trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau ariannol i ymgeiswyr ar gyfer y sampl a ddetholwyd a gwelwyd bod trefniadau addas wedi eu dilyn. Cafodd asesiad ariannol ei gynnal ar gyfer y sampl cyfan a bod cais am hawl wedi ei wneud ar gyfer yr ymgeiswyr a oedd yn ddilys i dderbyn budd-dal tai. Gwelwyd bod un o'r sampl ddim yn derbyn budd-dal tai ond gwelwyd tystiolaeth bod cyfraniad wedi ei dderbyn. Gwelwyd bod 'memo' yn cael ei anfon i'r Uned Budd-daliadau hefo dyddiad cychwyn, cyfeiriad llety, a manylion costau ac yna ar ôl i'r ymgeiswyr adael y gwely a brecwast mae 'memo' arall yn cael ei anfon yn nodi'r dyddiad gadael. Eglurodd y Rheolwr Digartrefedd mai'r Uned Ddigartrefedd sydd yn derbyn y budd-dal Tai, nid yr unigolyn/sefydliad gwely a brecwast, felly bydd unrhyw daliadau budd-dal sydd yn ddyledus yn cael eu hawlio/ôl ddyddio ar gyfer talu am lety gwely a brecwast sydd eisoes wedi ei dalu gan y gwasanaeth.

5.5 Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi derbyn toriad mewn staff yn ddiweddar fel rhan o’r rhaglen arbedion. Fodd bynnag, nododd y Rheolwr Digartrefedd mae’r golled mewn staff wedi arwain at fethiant i’r gwasanaeth i ddelio â’r gofyniad i ddod o hyd i lety parhaol i ymgeiswyr sydd mewn llety gwely a brecwast yn brydlon yn golygu bod rhai yn parhau i fod mewn llety gwely a brecwast yn hirach nag 6 wythnos. O’r sampl o ymgeiswyr a ddetholwyd, gwiriwyd os oedd y rhain wedi cael eu hail leoli mewn llety hir dymor o fewn 6 wythnos. Ymddengys o’r anfonebau costau gwely a brecwast, bod 13 allan o 21 ymgeisydd digartref wedi bod yn meddiannu’r llety am gyfnod hirach nag 6 wythnos. O’r anfonebau a wiriwyd, ni welwyd bod unrhyw anfoneb wedi cael ei godi am dros 31 o ddiwrnodau, ond darganfuwyd bod yr anfonebau yn cael eu codi yn wythnosol neu’n fisol.

5.6 Gwelwyd bod y gyllideb wedi cael ei gostwng yn y tair blynedd diwethaf oherwydd toriadau o fewn y Cyngor i arbed arian. Yn ogystal â cholled mewn staff, yn benodol yn ardal Arfon ble mae’r canran o ymgeiswyr digartref fwyaf, golygir bod diffyg adnoddau i symud ymgeiswyr o lety gwely a brecwast. Mae’r ystadegau yn dangos bod cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr digartref sydd eisiau llety gwely sengl ond bod prinder llety gwely sengl sydd ar gael yn effeithio’r gallu o wario o fewn y gyllideb. O ganlyniad, mae pwysau ariannol ar gyllidebau Llywodraeth Leol a gwasanaethau digartrefedd, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch yr arian Digartrefedd cyfredol a symud i ariannu hyblyg. Mae’n bwysig felly cydnabod y byddai unrhyw leihad yn yr arian yn cael effaith arwyddocaol ar lefelau digartrefedd i'r dyfodol.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Uned Ddigartrefedd wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol fydd yn lliniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Y gwasanaeth i ystyried moderneiddio’r system ‘Academy Housing’ er mwyn galluogi swyddogion i weithio’n effeithlon ac i gadw trefn ar geisiadau llety gwely a brecwast.**
- **Parhau i weithio ar y cynlluniau sydd mewn lle i gynyddu llety amgen i ddefnydd lety dros dro yn lle Gwely a Brecwast, megis lesu dau eiddo gan Grŵp Cynefin yng Nghaernarfon fel llety dros dro, defnyddio arian grant rhaglen Tai arloesol ar gyfer darparu pedwar eiddo ar gyfer unigolion sengl a chwilio am eiddo addas ar gyfer ychwanegu at y portffolio eiddo lesu.**

Atodiad 6

**CARTREF PLAS PENGWAITH**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Cartref Plas Pengwaith yn Gartref Preswyl i'r henoed ym mhentref Llanberis, ac mae wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn darparu gwasanaeth gofal preswyl. Mae gan y Cartref 4 uned, Dorothea a Ceirios gyda 7 ystafell wely sengl yr un a Glasfryn a Heulwen gyda 8 yr un. Mae'r Cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i 31 o bobl.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Plas Pengwaith yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2.2 Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r Cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 4 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Fe wiriwyd sampl o 3 Cynllun Gofal preswylwyr, a gwelwyd nad oedd unrhyw un o'r tri cynllun gofal yn gyflawn nac yn gyfredol. Darganfuwyd bod rhannau heb eu cwblhau megis proffil cyflym, ffurflen lofnod, diwedd oes, adolygiadau misol a blynyddol, ac nad oedd dyddiadau/llofnod ar rai o'r taflenni oedd wedi cael eu cwblhau.

Gwelwyd bod nodiadau ar glawr y ffeiliau yn nodi pa rannau oedd angen eu diweddaru. Gwelwyd bod dyddiadau dyddiol ar gyfer y tri preswylydd yn y sampl yn cael eu cadw ar wahân. Mae gofyniad bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar y Cynlluniau Gofal er mwyn cynnwys digon o fanylion am y ffordd orau o gefnogi'r unigolyn ac i fod yn gyson â disgwyliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

5.2 Fe wiriwyd y Cynlluniau gofal ar gyfer ffurflenni 'Eitemau Personol'. Ni welwyd bod unrhyw ffurflen, cofnod na lluniau o eitemau personol y 3 preswylydd yn y sampl. Eglurodd y Rheolwraig bod lluniau eitemau personol yr holl breswylwyr ar ddyfais electroneg ar hyn o bryd, yn barod i'w hargraffu a'u rhoi yn y ffeiliau. Hysbyswyd y Rheolwraig bod angen cael ei nodi ar y ffurflen os nad oes gan y preswylydd unrhyw eitemau.

5.3 Gwiriwyd rhestr eiddo Plas Pengwaith a gwelwyd ei fod fesul ystafell/lleoliad. Nid oedd y rhestr eiddo wedi ei ddiweddaru ers Ebrill 2018. Hysbyswyd y Rheolwraig o hyn a nododd bod llawer o waith wedi bod ar y Cartref yn ddiweddar, megis ystafelloedd newydd i fyny'r grisiau, ac ei bod yn disgwyl nes oedd y gwaith adeiladu wedi dod i ben cyn diweddaru'r rhestr eiddo ond ei bod wedi trefnu amser ar gyfer gweithredu ar hyn yn yr wythnosau nesaf.

5.4 Ymddengys nad yw hyfforddiant pob aelod o staff yn y cartref yn gyfredol. Gwelwyd rhai achosion ble roedd yr hyfforddiant angen ei ddiweddaru a rhai aelodau o staff angen mynychu cyrsiau am y tro cyntaf. Gwelwyd diffyg hyfforddiant, neu hyfforddiant angen ei adnewyddu mewn nifer o feysydd gwahanol megis Diogelu (POVA), cymorth cyntaf a modiwlau e-ddysgu. Nododd y Rheolwraig ei bod wedi rhoi enwau ymlaen i fynychu cyrsiau Diogelu a Chymorth Cyntaf a.y.b hyd at 2020, ond mai dim ond lle i dri aelod o staff sydd ar y cyrsiau, felly gall fod yn broses araf i sicrhau bod hyfforddiant pob aelod o staff yn y cartref yn gyfredol. Gwelwyd bod nifer isel iawn o staff wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn ymwneud a Cham-drin domestig a Diogelu. Eglurodd y Rheolwraig bod trafferth wedi bod gyda'r we/'wi-fi' yn y cartref yn ddiweddar, a'i bod yn gobeithio bydd hyn wedi ei ddatrys yn y dyfodol agos er mwyn i aelodau o staff allu cwblhau'r modiwlau yma.

5.5 Fe wiriwyd cofnodion goruchwyliaeth pedwar aelod o staff. Nododd y Rheolwraig ei bod hi a'r Rheolwr Cynorthwyol yn ceisio cynnal goruchwyliaeth bob tri mis ond ymddengys nad oedd amser wedi cael ei neilltuo ar gyfer goruchwyliaeth un aelod o staff yn y sampl ers mis Hydref 2018. Ar gyfer gweddill y sampl, gwelwyd tystiolaeth bod un aelod wedi derbyn goruchwyliaeth ymarfer ym mis Mehefin a Gorffennaf 2019 a bod aelod arall wedi derbyn goruchwyliaeth yn Ebrill 2019. Mae Archwilio Mewnol yn cydnabod bod y cartref wedi cael trafferth recriwtio staff newydd, gall roi pwysau ar y cartref i beidio ailgyfeirio amser staff oddi wrth gofal rhengflaen.

5.6 Gwelwyd y llyfr log tân a gwelwyd bod yr holl brofion perthnasol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd ym mis Medi 2019. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y cynllun rheoli tân yn gyfredol gan ei fod yn cynnwys manylion y cyn Rheolwr ac wedi ei ddyddio 11/01/2017. Mae hyn eisioes wedi ei weithredu yn dilyn yr ymweliad.

5.7 Wrth ymweld â'r cartref, gwelwyd mai tymheredd yr ystafell feddyginiaeth oedd 25˚C a thymheredd yr oergell oedd 8.3˚C. Ymddengys nad oedd aelodau staff y Cartref yn cadw cofnod o dymereddau'r storfeydd meddyginiaeth. Nododd y Rheolwraig bod y Cymhorthyddion Gofal Nos yn eu gwirio ond nad oes cofnodion wedi eu llenwi. Gweler bod hyn wedi ei godi mewn archwiliad blynyddol gan y Fferyllfa (Boots) yn ddiweddar. Disgwylir bod trefniadau mewn lle ar gyfer cofnodi'r tymheredd gan gynnwys dyddiad, amser a gan bwy.

5.8 Detholwyd sampl o anfonebau i'w harchwilio a gwelwyd nad oedd stamp derbyn wedi ei ddefnyddio ar gyfer holl anfonebau o'r sampl. Eglurodd y Rheolwraig eu bod wedi cael trafferth â'r stamp ac felly wedi stopio ei ddefnyddio, ond wedi ail gychwyn nawr. Hysbyswyd y Rheolwraig pe byddai hyn yn digwydd eto, byddai llofnod a dyddiad ar yr anfonebau yn ddigonol. Gwiriwyd y sypiau dyblyg a daethpwyd ar draws 3 anfoneb wahanol oedd wedi eu hanfon i'r Uned Daliadau ddwywaith. Hysbyswyd y Rheolwraig o hyn ac nid oedd yn ymwybodol eu bod wedi ceisio prosesu anfonebau sydd eisoes wedi eu talu.

5.9 Derbyniwyd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Chwefror 2019 a gwelwyd ei fod yn nodi bod y Cartref yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Er hynny, gwelwyd bod nifer o ofynion ac argymhellion y disgwylir i'r Cartref gyflawni er mwyn gwella'r gwasanaeth. Eglurodd y Rheolwraig ei bod eisoes wedi cwblhau neu yn y broses o weithredu ar y camau yma.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol fydd yn lliniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru Cynlluniau Gofal holl breswylwyr y cartref a sicrhau eu bod yn gyfredol, wedi eu dyddio, yn cynnwys lluniau o eitemau personol a bod pob rhan wedi cael eu cwblhau yn gywir.**
- **Sicrhau bod goruchwyliaeth staff yn digwydd yn rheolaidd bob tri mis a bod cofnodion ffurfiol yn cael eu cadw.**
- **Diweddaru Rhestr eiddo'r cartref a sicrhau bod y cofnod yn cael ei adolygu'n flynyddol.**
- **Sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cofnodi tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a'r oergell gan gynnwys dyddiad, amser a gan bwy.**

Atodiad 7

**BRYN BLODAU**

**1. Cefndir**

1.1 Lleolir Cartref Preswyl Bryn Blodau ym mhentref Llan Ffestiniog. Mae'r Cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 41 o bobl gan gynnwys unigolyn gyda dementia. Mae'r Cartref hefyd yn cynnig gofal dydd i unigolion sydd am wneud defnydd o'r gwasanaeth ond sydd ddim yn preswylio yno.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Bryn Blodau yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol.

2.2 Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r Cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghartref Bryn Blodau, ond bod angen tynhau ar rai agweddau. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

5.1.1 Gwiriwyd sampl o 3 Cynllun Gofal, roeddynt yn ymddangos yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod bod gwaith pellach angen ei wneud ar y Cynlluniau Gofal fel eu bod yn gyson â disgwyliadau'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae disgwyliad bod y Cynlluniau Gofal yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r defnyddwyr gwasanaeth a sut mae'r rhain yn cael eu cyfarch. Mae gwaith eisoes wedi ei gychwyn o ran y ddogfennaeth 'Beth sy'n bwysig' (what matters) sydd yn adnabod allbynnau'r defnyddiwr gwasanaeth sydd angen eu cyfarfod gan y gwasanaeth. Bwriedir arwain gyda'r ddogfen yma a chael mewnbwn pellach gan reolwyr y gwasanaethau, unwaith y bydd drafft Cynllun Gofal wedi ei lunio bydd angen sicrhau ei fod yn cyfarfod â gofynion statudol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r Tîm Sicrwydd Ansawdd. Yna bydd angen ei ddatblygu ar draws y gwasanaethau gan gynnwys cartrefi'r Sir.

5.1.2 Mae'r Cartref yn cadw taenlen gyda manylion hyfforddiant pob aelod staff, mae'r daenlen yn adnabod pryd mae angen adnewyddu'r hyfforddiant, wrth wirio'r daenlen gwelwyd nad oedd y daenlen yn adnabod hyn bob tro felly hysbyswyd y Rheolwraig a'r Clerc fel nad ydynt yn methu unrhyw beth.

5.1.3 Nid oedd hyfforddiant pob aelod o staff yn gyfredol e.e. rhai aelodau angen mynychu'r hyfforddiant am y tro cyntaf ac eraill angen ei adnewyddu. Eglurwyd mai dim ond 3 aelod o staff caiff y Cartref eu rhoi ymlaen i fynychu rhai o'r cyrsiau felly mae'n gallu cymryd amser i sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant cyfredol. Gwelwyd bod y Cartref wedi trefnu i staff fynychu cyrsiau Cymorth Cyntaf, Meddyginiaeth, Tân a.y.b. dros yr wythnosau a misoedd nesaf.

5.1.4 Detholwyd sampl o anfonebau i'w harchwilio, nid oedd stamp dyddiad derbyn ar bob un ohonynt. Eglurwyd mai'r anfonebau sydd yn dod i'r swyddfa yn unig sydd yn cael eu marcio, nid oes stamp yn cael ei roi ar anfonebau'r gegin. Hysbyswyd y Rheolwraig a'r Clerc o'r angen i farcio pob anfoneb a nodwyd y byddai llofnod a dyddiad yn ddigonol os nad oes stamp ar gael.

5.1.5 Nid oedd rhestr eiddo'r Cartref wedi ei ddyddio, eglurwyd ei fod wedi cael ei lunio yn ystod Haf 2019. Hysbyswyd y Rheolwraig o'r angen i lofnodi a dyddio'r rhestr pan geir ei adolygu. Mae hyn eisoes wedi ei weithredu yn dilyn yr ymweliad.

5.1.6 Gwiriwyd cofnodion eitemau personol y preswylwyr yn eu Cynlluniau Gofal, roedd lluniau yn ogystal â rhestrau o'r eitemau. Fodd bynnag, roedd y rhestrau wedi eu dyddio yn 2016 ac ni welwyd dyddiadau ar y lluniau. Hysbyswyd y Rheolwraig y dylid ystyried dyddio a llofnodi'r wybodaeth yma a'i adolygu yn gyfnodol o hyn ymlaen er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Mae posibilrwydd byddai aelodau o'r teulu neu ffrindiau yn mynd ag eitemau personol y preswylwyr gartref i'w cadw'n saff neu'n dod a mwy o eitemau i mewn i'r Cartref.

5.1.7 Nid oedd asesiadau risg generig y Cartref wedi eu hadolygu ers Mehefin 2018, roedd y Rheolwraig yn ymwybodol bod angen gweithredu ar hyn. Yn dilyn yr ymweliad, derbyniwyd tystiolaeth bod asesiadau risg generig y Cartref wedi cael eu hadolygu.

5.1.8 Nodir adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ddyddiedig 1 Mai 2018 bod y Cartref yn uwch gyfeirio pryderon (escalating concerns) i'r awdurdod lleol a bod Cynllun Gweithredu Cywirol Cyd-banel Monitro Rhyngasiantaethol (Joint Interagency Monitoring Panel - JIMP) ar waith er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth. Derbyniwyd copïau o gynlluniau gweithredu a chofnodion o'r camau sydd eisoes wedi cael eu cwblhau, gwelwyd bod angen gweithrediad pellach ar rai meysydd megis y Cynlluniau Gofal er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod canlyniadau cyflawni'r preswylwyr a.y.b. Bydd monitro dirybudd yn parhau yn y Cartref dros y misoedd nesaf a bydd y Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn dychwelyd ym mis Ionawr 2020 i gynnal adolygiad monitro llawn.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Tîm Gwasanaethau Darparu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Llunio Cynllun Gofal sydd yn canolbwyntio ar gefnogi canlyniadau dymunol defnyddwyr gwasanaeth sydd yn cyfarfod gofynion AGC a'r Tîm Sicrwydd Ansawdd.**
- **Unwaith bydd Cynllun Gofal priodol wedi ei lunio symud ymlaen a chychwyn y broses o hyfforddi staff a mabwysiadu'r Cynllun yng nghartrefi'r Cyngor.**

Atodiad 8

**LLYS CADFAN**

**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Cartref Preswyl yn Nhywyn yw Llys Cadfan, sydd yn cynnig gofal dydd a gofal parhaol i hyd at 33 o breswylwyr.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Llys Cadfan yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd bod naws cartrefol a chyfeillgar i'r cartref a bod trefniadau rheoli a chynnal y Cartref yn effeithiol. Mae adroddiad diweddaraf Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dilyn archwiliad o'r Cartref yn atgyfnerthu'r hyn a welwyd.

5.1.1 O'r sampl a ddetholwyd, gwelwyd nad oedd stamp derbyn yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r dyddiad derbyn ar bob anfoneb, ac o ganlyniad nid yw'n bosib cadw cofnod manwl o'r cyfnod o amser rhwng derbyn yr anfoneb a'i thalu. Defnyddir y dyddiad derbyn yn hytrach na phwynt treth yr anfoneb er mwyn gwella, a sicrhau cywirdeb, perfformiad prydlondeb talu anfonebau. Eglurodd y Rheolwraig bod nifer o anfonebau ar gyfer archebion i'r gegin yn cael eu derbyn gyda'r nwyddau ac o ganlyniad ddim yn dod i sylw'r clerc yn y swyddfa tra bod anfonebau eraill yn cael eu derbyn dros e-bost. Mae angen sicrhau fod stamp derbyn neu ddyddiad derbyn yn cael ei gofnodi ar bob anfoneb a dderbynnir.

5.1.2 Gwelwyd sawl enghraifft o asesiadau risg ar y bas data iechyd a diogelwch lle'r oedd y dyddiad adolygu wedi pasio cyn i'r asesiadau gael eu diweddaru.

5.1.3 Gwelwyd ceisiadau am ad-daliad i'r cyfrif Imprest am symiau uwch na 2/3 o'r cyfanswm. Yn ychwanegol gwelwyd cais i gynyddu'r Imprest dros dro o £170 i £470. Eglurodd Clerc y Cartref mai'r pwrpas oedd er mwyn ymdopi a'r costau dros y Nadolig lle defnyddir y cyfrif yma i archebu anrhegion Nadolig ar ran y preswylwyr.

5.1.4 Roedd y Cartref yn treialu system newydd i gofnodi lefelau stoc a gweinyddiaeth meddyginiaeth. Mae system 'Omnicell eMAR' yn cael ei ddefnyddio yn un o Unedau'r Cartref yn bresennol. Mae'r system yn darparu trywydd archwilio manwl iawn ar gyfer pob aelod staff, preswylydd a phob cyffur sydd yn lleihau'r tebygolrwydd o unrhyw gamgymeriadau. Mae'r system wedi cyfrannu at ostyngiad yn y nifer o gamgymeriadau wrth weinyddu meddyginiaeth. Mae'r system yma efo linc byw i'r cwmni Fferyllydd sydd yn hwylus ond o ganlyniad hefyd yn system gostus iawn a fuasai'n rhy ddrud i ehangu i fwy o Unedau a Chartrefi'r Cyngor. O ganlyniad mae'r Rheolwraig yn rhan o dîm prosiect sy'n cydweithio gyda gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor i ddatblygu system gyffelyb yn fewnol i'r Cyngor.

5.1.5 Gwelwyd fod y Cartref yn parhau i ddefnyddio Polisi Meddyginiaeth Gwynedd 2010 ac mae'r staff yn cofnodi ac yn arwyddo eu bod yn derbyn y polisi yma yn hytrach na'r polisi diweddaraf. Eglurodd y Rheolwraig fod y Polisi diweddaraf yn parhau heb ei gyhoeddi'n swyddogol.

5.1.6 Derbyniwyd adroddiad ym Mai 2019 yn dilyn ymweliad gan AGC, er nad oedd unrhyw bryderon gan AGC maent wedi argymell nifer o gamau y disgwylir i'r Cartref ei gyflawni er mwyn cydymffurfio. Mae'r Rheolwraig eisoes wedi gweithredu neu yn y broses o weithredu ar y camau yma.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn amserol.**
- **Sicrhau fod stamp derbyn yn cael ei ddefnyddio neu dyddiad yn cael ei gofnodi ar pob anfoneb.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **28 TACHWEDD 2019** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2019/20 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 15 Tachwedd 2019 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 11 |
| Crewyd Papurau Gwaith | 5 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 15 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 18 |
| **Cyfanswm** | **54** |
| | |
| Canslwyd | 14 |

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2020. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 15 Tachwedd 2019 oedd **33.33%** - allan o'r **54** archwiliad unigol yng nghynllun 2019/20 roedd **18** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae'r archwiliadau canlynol wedi eu hychwanegu at y cynllun:

- Defnydd o Ffurflenni P6 – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – 10 diwrnod
- Rheoli Absenoldebau – Gwasanaethau Cymdeithasol – 10 diwrnod

Mae hefyd angen gwneud addasiadau i adlewyrchu y canlynol:

- Terfynu swydd Archwiliwr Dros Dro – 30 diwrnod
- Cyfnod mamolaeth – 75 diwrnod

3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd blaenoriaethu'r archwiliadau yn y cynllun ar sail risg a daethpwyd i'r casgliad i ganslo'r archwiliadau canlynol:

- Anableddau Dysgu – Canolfannau Dydd – 25 diwrnod – mae llawer o waith wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â threfniadau yn y Frondeg, Caernarfon a Tan y Marian, Pwllheli. Oherwydd hyn, credir fod modd oedi'r archwiliad yma tan blwyddyn ariannol 2020/21.
- Gwerth am Arian – 20 diwrnod – cychwynwyd ar waith o drefniant prydlesi argraffyddion ysgolion ond derbyniwyd gwybodaeth gan yr Adran Addysg bod prosiect eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn.
- Modiwl Datblygu Staff– 8 diwrnod – mae'r modiwl eisoes yn fyw ond mae datblygiadau pellach ar droed ar hyn o bryd.
- Cynllun STEM Gogledd – 8 diwrnod – mae'n gyn-amserol erbyn hyn i gynnal archwiliad yn y maes yma oherwydd bod y cynllun yn ei ddyddiau cynnar.
- Achrediadau (Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru) – 15 diwrnod – mae hwn bellach yn faes o risg isel yn dilyn ail-strywthuro o fewn yr Asiantaeth gyda swyddog penodol yn ymgymryd â dyletswyddau sicrwydd ansawdd.
- Hunan-wasanaeth Treth Cyngor – 10 diwrnod – mae hwn yn ran o ddatblygiad ehangach o ran hunan-wasanaeth ar gyfer y cyhoedd.
- Teithio Ôl–16 – 12 diwrnod – cyflwynwyd Polisi Cludiant Ôl-16 ym mis Medi 2019, felly tybir ei bod yn gyn-amserol i gynnal archwiliad yn y maes ar hyn o bryd.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2019/20, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-08/2020 | Gwerth am Arian | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.95** | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-09/2020/001 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.14** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-09/2020/002 | Merched mewn Arweinyddiaeth | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **0.14** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2020/003 | Modiwl Datblygu Staff | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-11/2020 | Goramser | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **12.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-13/2020 | Costau Teithio Hunan-wasanaeth | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **4.96** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-15/2020/001 | 5 Ffordd o Weithio | 0.00 | 30.00 | **30.00** | **6.82** | Crewyd Papurau Gwaith |
| 1-CORFF-19/2020/001 | Trefniadau Diogelu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.54** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-19/2020/002 | Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | 4.00 | 0.00 | **4.00** | **0.47** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2020/001 | Diwylliant a Moeseg | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **9.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2020/002 | Monitro Perthynas â Chwsmeriaid | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CPGV-02/2020 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **9.55** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2020cy | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **1.09** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfathrebu** | | | | | | |
| BD-PW-03/2020 | Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **11.54** | Adroddiad Terfynol |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2020GDD | Grant Datblygu Disgyblion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.19** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2020GGA | Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.31** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2020ol16 | Grant Addysg Ôl-16 | 3.00 | 0.00 | **3.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2020TC | Trefniadau Cyllidebu Ôl-16 | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2020 | GwE – Costau Teithio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.74** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA16/2020 | Penodi a Chostau Athrawon Llanw - Uwchradd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **23.31** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| EADDA18/2020 | Cyfrifon Ymddiriedolaeth | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **2.77** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA32/2020 | Cronfeydd Ysgol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA35/2020 | Ysgolion Cyffredinol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 0.92 | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAY7002/2020 | Ysgol Pendalar | 12.00 | 0.00 | **12.00** | 11.51 | Adroddiad Drafft |
| EADDAY7010/2020 | Ysgol Hafod Lon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | 10.55 | Crewyd Papurau Gwaith |
| **AMGYLCHEDD** | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| DCYN-RD-01/2020 | Cytundebau Adran 106 | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 16.18 | Adroddiad Terfynol |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-04/2020 | Manddaliadau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| BA-EID-05/2020 | Rheolaeth Categori | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 2.20 | Wedi ei ganslo |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| DDAT-CC-01/2020 | Trafnidiaeth - Costau Teithio Ôl-16 | 12.00 | 0.00 | **12.00** | | Wedi ei ganslo |
| PPR-RS-03/2020 | Uned Diogelwch y Ffyrdd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | 7.70 | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Uned Cefn Gwlad a Mynediad** | | | | | | |
| 4-AMG-X-GRANT/2020 | Grant AHNE | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 10.26 | Adroddiad Terfynol |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2020 | Achrediadau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| AW-TG-12/2020 | Systemau TG | 30.00 | -15.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-12/2020/001 | Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer | 0.00 | 15.00 | **15.00** | 13.47 | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AE-TAL-01/2020 | System Taliadau- Newid Data Sefydlog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 11.70 | Adroddiad Terfynol |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-08/2020/001 | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018-19 | 0.00 | 4.00 | **4.00** | 3.82 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-08/2020/002 | Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2018-19 | 0.00 | 4.00 | **4.00** | 4.07 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-08/2020/003 | Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2018-19 | 0.00 | 4.00 | **4.00** | 3.77 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2020 | Cysoni Banc | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Refeniw** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AB-BD-01/2020cc | Credyd Cynhwysol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.24** | Adroddiad Terfynol |
| AB-BD-01/2020kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2020 | Hunanwasanaeth Treth Cyngor | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2020 | Cronfa'r Degwm | 3.00 | 0.00 | **3.00** | **1.08** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| DDAT-CON-01/2020 | Cynllun Llanbedr | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-01/2020/001 | Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.07** | Adroddiad Terfynol |
| **Cefnogi Busnes** | | | | | | |
| DDAT-AD-04/2020/001 | ARFOR | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **2.76** | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-AD-04/2020/002 | Cynllun STEM Gogledd | 8.00 | 0.00 | **8.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-02/2020 | Iechyd a Diogelwch Harbyrau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.24** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| EHAMZ-01/2020 | Mesurau Diogelwch Parc Padarn | 3.00 | 0.00 | **3.00** | **2.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| DDAT-AD-05/2020 | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY/2020/01 | Defnydd o Ffurflenni P6 | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **0.68** | Wedi ei gynllunio |
| 5-GOF-GCY/2020/02 | Rheoli Absenoldebau | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **2.03** | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2020 | Grant Cefnogi Pobl | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.95** | Adroddiad Terfynol |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2020/001 | Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **11.54** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-D01/2020/002 | Costau Gwely a Brecwast | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **17.70** | Adroddiad Terfynol |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1340/2020 | Plas Pengwaith | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **14.91** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1344/2020 | Plas Gwilym | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **8.51** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5-GOF-CART1355/2020 | Bryn Blodau | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.00** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1357/2020 | Llys Cadfan | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.61** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-D04/2020 | Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei ganslo |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| EADDI01/2020clwb | Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.45** | Disgwyl Adolygiad |
| GGWAS-P03/2020 | Taliadau i Ofalwyr Maeth | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **15.16** | Adroddiad Drafft |
| GGWAS-PLANT2/2020 | Hafan y Sêr | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **7.26** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| PZ01/2020 | Cynllun Parhad Gwasanaeth | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.58** | Wedi ei gynllunio |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| M-GMGIC01/2020 | Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **4.57** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-CON-01/2020 | Rhaglen Waith - Pontydd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.89** | Wedi ei gynllunio |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| 3-AMG-TOI/2020 | Toiledau Cyhoeddus | 12.00 | 0.00 | **12.00** | | Wedi ei ganslo |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2020 | Achrediadau | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |